FUNDRAISING REGULATOR

# Cod Ymarfer Codi Arian

Effeithiol hydref 2019

Diwygiedig 4 Mehefin 2021

# Ynghylch y Rheoleiddiwr Codi Arian

Rydym yn rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl waith codi arian a wneir gan neu ar ran sefydliadau elusennol, dyngarol a buddiannol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn ogystal, rydym yn rheoleiddio codi arian yn yr Alban a wneir gan elusennau sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae ein rôl yn cynnwys cynnal a datblygu'r Cod Ymarfer Codi Arian ar gyfer y DU gyfan ac ymchwilio i gwynion gan aelodau'r cyhoedd ynghylch ymarfer codi arian os na ellir datrys y rhain gan yr elusennau eu hunain.

Nid yw'r Rheoleiddiwr Codi Arian yn derbyn unrhyw atebolrwydd i unrhyw barti am unrhyw golled, difrod neu gostau sut bynnag y bydd yn codi, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, boed mewn contract, camwedd neu fel arall o unrhyw weithred neu benderfyniad a gymerwyd (neu nas cymerwyd) o ganlyniad i unrhyw berson yn dibynnu ar neu yn defnyddio'r ddogfen hon neu fel arall yn deillio o unrhyw beth sydd wedi ei hepgor ohoni.

© Rheoleiddiwr Codi Arian 2019, Cwmni Cyfyngedig drwy Warant, wedi'i gofrestru yn Lloegr, Rhif 10016446. Cyfeiriad cofrestredig: Fundraising Regulator, CAN Mezzanine, 49-51 East Road, London, N1 6AH Testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) gellir ei atgynhyrchu'n rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd hwn fel hawlfraint y Rheoleiddiwr Codi Arian a nodi dyddiad a theitl y ddogfen. Os ydym wedi dyfynnu deunydd trydydd parti, rhaid i chi gael caniatâd gan ddeiliad yr hawlfraint.

Hydref 2019

# Cynnwys


## Cyflwyniad 7

## Adran 1: 10

## Safonau sy'n berthnasol i bob math o godi arian

**1. Ymddygiad wrth godi arian 11**
- 1.1. Ymddygiad cyffredinol 11
- 1.2. Gofyn am gefnogaeth 11
- 1.3. Hysbysu rhoddwyr a thrin pobl yn deg 11

**2. Cyfrifoldebau sefydliadau elusennol a'r sawl sy'n eu llywodraethu 13**
- 2.1. Dyletswyddau cyffredinol 14
- 2.2. Asesiad risg 15
- 2.3. Derbyn, gwrthod a dychwelyd rhoddion 16
- 2.4. Cwynion a phryderon ynghylch codi arian 17
- 2.5. Talu codwyr arian 18
- 2.6. Datganiadau erfyniad ar gyfer cyflogeion a delir, swyddogion ac ymddiriedolwyr sefydliadau elusennol a chwmnïau cysylltiedig 19
- 2.7. Defnyddio arian 20
- 2.8. Cyfrifo ac adrodd 22

**3. Prosesu data personol (gwybodaeth) 23**
- 3.1. Gofynion cyffredinol ar gyfer data personol 24
- 3.2. Storio a chynnal data personol 25
- 3.3. Rhannu a gwerthu data personol 27
- 3.4. Astudiaethau Achos 28
- 3.5. Marchnata uniongyrchol 28
- 3.6. Ceisiadau gan bobl i gael mynediad i'w data personol 32

**4. Prosesu rhoddion** **33**

4.1. Arian parod 33

4.2. Tiliau 34

4.3. Fflôt 34

4.4. Derbynebau 35

4.5. Sieciau 35

4.6. Sieciau a thalebau elusennau 35

4.7. Trafodion cerdyn 36

4.8. Debyd Uniongyrchol 36

4.9. Rhodd Cymorth 37

## Adran 2: 38

## Safonau sy'n berthnasol i weithio gydag eraill

**5. Gwirfoddolwyr** **39**

5.1. Safonau sy'n berthnasol i'r holl wirfoddolwyr 39

5.2. Ystyriaethau penodol wrth weithio gyda gwirfoddolwyr 'ar ran' 40

5.3. Ystyriaethau penodol wrth weithio gyda gwirfoddolwyr 'er budd' 40

**6. Codi arian pan fod plant ynghlwm** **41**

6.1. Cyfrifoldebau sy'n ymwneud â chodi arian pan fo plant ynghlwm 41

6.2. Plant a diogelu data 43

**7. Codwyr arian proffesiynol, cyfranogwyr masnachol a phartneriaid** **44**

7.1. Diwydrwydd dyladwy a gwrthdaro buddiannau 44

7.2. Contractau a chytundebau 45

7.3. Monitro bod codwyr arian yn bodloni'r cod 49

7.4. Datganiadau erfyniad (datgelu) ar gyfer codwyr arian trydydd parti a delir a chyfranogwyr masnachol 52

7.5. Ffioedd a thaliadau 56

7.6. Cyfrinachedd 56

7.7. Cyfraith cwmnïau a threth 57

## Adran 3: 58

## Safonau sy'n berthnasol i ddulliau penodol o godi arian

**8. Casglu arian neu eiddo arall** **59**
- 8.1. Ymddygiad wrth gasglu arian neu eiddo arall 59
- 8.2. Trwyddedau a chanaitâd 60
- 8.3. Eithriadau 62
- 8.4. Safonau pellach sy'n berthnasol i leoliadau a gweithgareddau penodol 62
- 8.5. Casgliadau sefydlog 67

**9. Gohebiaeth a hysbysebion codi arian** **68**
- 9.1. Safonau cyffredinol 68
- 9.2. Cyfeiriadau mewn dogfennau 70
- 9.3. Codi arian drwy'r post 73
- 9.4. Codi arian dros y ffôn 74

**10. Digidol** **77**
- 10.1. Y cyfryngau digiol 77
- 10.2. Llwyfannau codi arian ar-lein 78
- 10.3. Negeseuon i ddyfeisiau symudol 81
- 10.4. E-bost swmp 82

**11. Digwyddiadau** **82**
- 11.1. Lleoliadau ac offer 82
- 11.2. Asesiad risg ac yswiriant 83
- 11.3. Trwyddedau a chaniatâd 83
- 11.4. Pobl sy'n cymryd rhan mewn digwyddiad codi arian 84
- 11.5. Hyrwyddo digwyddiad 85
- 11.6. Canslo digwyddiadau a chynlluniau wrth gefn 86
- 11.7. Ar y diwrnod 86
- 11.8. Gweithdrefnau ariannol 87
- 11.9. Ar ôl y digwyddiad 87
- 11.10. Digwyddiadau a drefnir gan drydydd parti 87
- 11.11. Digwyddiadau sy'n golygu teithio 88

**12. Loteriau, cystadlaethau gwobrau a rafflau am ddim** **89**

12.1. Loteriau – cyfrifoldebau cyffredinol 91

12.2. Rôl yr hyrwyddwr 92

12.3. Ystyriaethau oni bai am y Ddeddf Gamblo 92

12.4. Tynnu'r tocynnau 93

12.5. Gweithdrefn ar ôl tynnu'r tocynnau 93

12.6. Cystadlaethau gwobrau a rafflau am ddim 93

**13. Cyrff sy'n dyrannu grantiau (yn cynnwys ymddiriedolaethau a sefydliadau)** **94**

13.1. Cyllid statudol 94

13.2. Paratoi a gweithdrefnau 94

13.3. Ar ôl i geisiadau gael eu derbyn neu eu gwrthod 95

13.4. Adrodd 95

**14. Rhoi drwy'r gyflogres a rhoddion cyflog ar ôl treth** **96**

14.1. Codwyr arian proffesiynol a rhoi drwy'r gyflogres 96

14.2. Rhoi drwy'r gyflogres cyn treth 97

14.3. Hyrwyddo rhoi ymrwymedig yn y gweithle 97

**15. Cymynroddion** **98**

15.1. Cymynroddion – cyfrifoldebau cyffredinol 98

15.2. Gohebiaeth ysgrifenedig yn gofyn am gymynroddion 98

15.3. Cyfathrebu wyneb yn wyneb 99

15.4. Ymglymiad sefydliadau elusennol wrth wneud ewyllys 100

15.5. Perthnasau codwyr arian gydag ewyllyswyr posib 100

15.6. Talu am ewyllysiau gydag arian elusen 100

15.7. Ar ôl i gymynrodd gael ei wneud 101

## Rhestr o Eirfa a Thermau 103

# Cyflwyniad

Mae'r Cod Ymarfer Codi Arian (y cod) yn amlinellu'r cyfrifoldebau sy'n berthnasol i godi arian a wneir gan sefydliadau elusennol a chodwyr arian trydydd parti yn y DU. Caiff y termau 'sefydliad elusennol' a 'codwyr arian trydydd parti' eu hegluro isod. Er dibenion y cod, golyga codi arian ofyn am arian neu eiddo arall er dibenion elusennol, buddiannol neu ddyngarol, ac mae'n ymdrin ag ystod eang o ddulliau codi arian.

Cafodd y cod ei ddatblygu'n wreiddiol gan y gymuned codi arian drwy waith y Sefydliad Siartredig Codi Arian (CIoF) a'r Gymdeithas Codi Arian Cyhoeddus (PFRA). Rydym wedi bod yn gyfrifol am y cod ers 7 Gorffennaf 2016.

Nod y cod yw:

- hyrwyddo safon uchel, gyson o godi arian;
- sicrhau bod sefydliadau elusennol, eu cyrff llywodraethu a'r codwyr arian yn gwybod beth a ddisgwylir ohonynt;
- nodi'r safonau yr ydym yn eu defnyddio wrth ystyried cwynion;
- darparu meincnod i sefydliadau a chodwyr arian i asesu eu hymarfer yn eu herbyn fel y gallent adnabod hyfforddiant angenrheidiol a monitro a gosod blaenoriaethau polisi ar gyfer eu codi arian; a
- datblygu diwylliant o onestrwydd, natur agored a pharch rhwng y codwyr arian a'r cyhoedd.

Mae'r pedwar gwerth isod yn cefnogi'r holl safonau yn y cod.

**Cyfreithiol:** Rhaid i'r holl godi arian fodloni gofynion y gyfraith.

**Agored:** Rhaid i godwyr arian fod yn agored gyda'r cyhoedd ynghylch eu prosesau a rhaid iddynt fod yn fodlon egluro (lle bo hynny'n briodol) os gofynnir iddynt am ragor o wybodaeth.

**Gonest:** Rhaid i godwyr arian weithredu'n onest ac ni ddylent gamarwain y cyhoedd ynghylch yr achos y maent yn codi arian ar ei gyfer na'r ffordd y caiff y rhodd ei defnyddio.

**Parchus:** Rhaid i godwyr arian ddangos parch pryd bynnag y cânt gysylltiad gydag unrhyw aelod o'r cyhoedd.

### Y cod a'r gyfraith

Mae'r cod yn cynnwys safonau sy'n adlewyrchu'r gyfraith, ond nid yw'n fwriad iddo fod yn llawlyfr cyfreithiol. Rydym wedi adolygu'r cod i'w wneud mor eglur a dealladwy â phosib i bawb. Ond, mae cyfraith codi arian yn gymhleth ac yn dod o sawl ffynhonnell. Hefyd, mae cyfreithiau a rheoliadau'n newid dros amser a datblygir dulliau newydd o godi arian.

Rydych chi'n gyfrifol am wneud yn siŵr y cewch y cyngor yr ydych ei angen i fodloni'r gofynion y mae'n rhaid i chi eu bodloni yn ôl y gyfraith. Os oes gwahaniaeth rhwng y cod a'r ddeddfwriaeth berthnasol neu reoliadau, rhaid i chi ddilyn y gyfraith yn hytrach na'r cod.

## Gweithredu'r cod

Mae pob safon yn defnyddio'r term 'chi' (ac 'eich'). I'w wneud yn hawdd i'w ddefnyddio, rydym wedi nodi isod pwy ydym ni'n ei olygu gan 'chi' ar ddechrau pob adran, ac mae'r cod yn cynnwys rhestr o eirfa a thermau. Oni bai ein bod yn nodi fel arall ar ddechrau adran, golygu 'chi' (ac 'eich') yr isod.

- **Sefydliad elusennol** sy'n gofyn am arian neu eiddo arall er dibenion elusennol, buddiannol neu ddyngarol. Golyga 'sefydliad elusennol' elusennau (sydd wedi'u cofrestru a heb eu cofrestru) a sefydliadau gwirfoddol sydd wedi'u sefydlu er dibenion nad ydynt yn llwyr elusennol, ond sy'n fuddiannol neu'n ddyngarol. Mae hyn yn cynnwys elusennau 'eithriedig', megis sefydliadau addysg uwch elusennol. (Yr elusennau eithriedig yw'r rheini nad oes gofyn iddynt gael eu rheoleiddio'n uniongyrchol gan Gomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr oherwydd eu bod yn cael eu rheoleiddio gan gorff neu awdurdod arall.)
- **Codwr arian trydydd parti** sy'n gofyn am arian neu eiddo arall er dibenion elusennol, buddiannol neu ddyngarol. Golyga 'codwr arian trydydd parti' sefydliad neu berson y mae sefydliad elusennol wedi'u hawdurdodi i ofyn am roddion ar ei ran. Gall hyn fod yn wirfoddolwr, yn godwr arian proffesiynol neu'n bartner masnachol os yw'n codi arian.

Yn ogystal, mae'r cod yn berthnasol i sefydliadau eraill sy'n ymgymryd â llwyfannau codi arian a chodi arian ar-lein.

Rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn bodloni'r safonau yn y cod a rhaid i chi allu cyfiawnhau'r penderfyniadau yr ydych yn eu gwneud. Rhaid i chi sicrhau fod eich staff a'ch gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'r safonau a'u hyfforddi a'u monitro nhw'n ddigonol os yw'r safonau'n berthnasol i'w cyfrifoldebau.

Rydym yn defnyddio 'rhaid' a 'rhaid peidio' ar gyfer yr holl safonau yn y cod.

- Mae safonau lle mae '**rhaid**' a '**rhaid peidio**' mewn testun trwm yn dynodi safon sy'n seiliedig ar ofyniad cyfreithiol (er enghraifft, darn o'r gyfraith neu gyfraith achos).
- Mae safonau lle nad yw 'rhaid' a 'rhaid peidio' mewn testun trwm yn dynodi safon reoleiddiol nad yw'n seiliedig ar ofyniad cyfreithiol llym.

Mae'r holl safonau'n gyfartal, a gellid tanseilio ymddiriedaeth a hyder mewn codi arian os nad ydynt yn cael eu bodloni. Hefyd, mae'r cod yn amlygu codau ymarfer a safonau eraill y diwydiant sy'n berthnasol i godi arian. Y bwriad yw iddo ychwanegu at y rhain yn hytrach na'u disodli.

### Ymrwymiad i'r cod

Drwy gofrestru gyda ni, mae sefydliadau elusennol, codwyr arian trydydd parti a llwyfannau codi arian ar-lein yn cytuno i fodloni'r cod. Wrth wneud hynny, maent yn cefnogi'r system o reoliad gwirfoddol i wneud yn siŵr bod yr holl sefydliadau codi arian yn gweithio'n unol â gwerthoedd y cod.

Mae'r sefydliadau sy'n cofrestru yn ymrwymo i'r Addewid Codi Arian hefyd. Mae'r addewid yn amlinellu'r ymrwymiad y mae'r sawl sy'n cofrestru gyda ni yn ei wneud i roddwyr a'r cyhoedd i fodloni'r safonau yn y cod. Rydym yn ystyried cwynion ynghylch bodloni'r safonau yn y cod.

### Ymchwilio i gwynion

Gallwn ymchwilio i:

- gwynion gan y cyhoedd ynghylch codi arian, os na ellir datrys y rhain gan yr elusennau eu hunain; neu
- godi arian sydd wedi achosi neu a allai achosi pryder cyhoeddus sylweddol.

Wrth ystyried cwynion, byddwn yn defnyddio'r fersiwn o'r cod a oedd yn weithredol ar adeg y digwyddiad. Mae ein proses cwynion yn darparu rhagor o wybodaeth ynghylch sut rydym yn ymchwilio i gwynion.

Yn yr Alban mae cwynion ynglŷn ag elusennau wedi eu cofrestru yno yn cael eu trin gan Banel Safonau Codi Arian yr Alban.

Rydym ni a Phanel Safonau Codi Arian yr Alban yn dilyn model rheoleiddiwr 'arweiniol' wrth ystyried cwynion. Golyga hyn y byddwn ni neu Banel Safonau Codi Arian yr Alban yn ystyried cwyn a wneir, yn dibynnu ar ym mha wlad y mae'r elusen wedi'i chofrestru'n bennaf ynddi. Ceir rhagor o wybodaeth yn ein Memorandwm o Ddealltwriaeth y gallwch ei darllen ar ein gwefan yn: www.fundraisingregulator.org.uk.

# Adran 1: Safonau sy'n berthnasol i bob math o godi arian

Mae'r ffordd y mae sefydliadau elusennol a chodwyr arian trydydd parti yn gofyn am gefnogaeth yn effeithio ar ymddiriedaeth a hyder pobl mewn codi arian.

Mae'r adran hon yn amlinellu'r ymddygiad yr ydym yn ei ddisgwyl gan yr holl godwyr arian. Mae'n cynnwys trin pobl yn deg ac yn barchus, gan egluro'ch achos mewn ffordd nad yw'n camarwain pobl, a bod yn sensitif i bobl a allai fod mewn amgylchiadau bregus.

# 1. Ymddygiad wrth godi arian

*Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.*

## 1.1. Ymddygiad cyffredinol

1.1.1 **Rhaid** i'ch gweithred codi arian fod yn gyfreithiol a rhaid iddi fod yn agored, yn onest ac yn barchus.

1.1.2 Rhaid i chi fod yn gwrtais gyda phobl bob amser.

1.1.3 Rhaid i chi beidio â beirniadu neu sarhau pobl neu sefydliadau eraill yn annheg.

1.1.4 Rhaid i chi beidio ag annog rhoddwr i ganslo neu newid rhodd bresennol er budd rhodd i sefydliad elusennol arall.

## 1.2. Gofyn am gefnogaeth

1.2.1 Er y caniateir perswâd rhesymol, rhaid i chi beidio â chodi arian mewn ffordd sy'n ymyrraeth afresymol ar breifatrwydd person, sy'n afresymol o daer neu sy'n rhoi pwysau diangen ar berson i roi.

1.2.2 Rhaid i chi beidio â pharhau i ofyn am gefnogaeth gan berson os yw'r person hwnnw wedi nodi'n glir – drwy eiriau neu osgo – nad yw am barhau i siarad â chi. Rhaid i chi ddod â'r sgwrs i ben mewn ffordd gwrtais.

## 1.3. Hysbysu rhoddwyr a thrin pobl yn deg

1.3.1 Rhaid i chi a'r deunyddiau codi arian yr ydych yn eu defnyddio beidio â chamarwain neb, na bod yn debygol o gamarwain neb, naill ai drwy hepgor gwybodaeth neu drwy fod yn anghywir neu'n amwys neu drwy orliwio manylion.

1.3.2 Cyn i chi wneud unrhyw honiad uniongyrchol neu ymhlyg wrth godi arian sy'n debygol o gael i gymryd yn llythrennol, rhaid i chi wneud yn siŵr bod tystiolaeth i brofi eich honiad.

1.3.3 Rhaid i chi beidio â chymryd mantais o gamgymeriadau a wneir gan roddwr.

1.3.4 Wrth siarad am faterion ariannol a buddion ariannol, rhaid i chi ddweud wrth roddwyr nad ydych mewn sefyllfa i gynnig cyngor ariannol ffurfiol.

1.3.5 **Rhaid** i'ch gweithred codi arian fodloni cyfraith cydraddoldeb fel y mae'n berthnasol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. **Rhaid** i chi **beidio** â gwahaniaethu yn erbyn pobl sydd â nodweddion a gaiff eu gwarchod dan gyfraith y gwledydd hyn. Cewch ragor o wybodaeth gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon.

1.3.6 Rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol i drin rhoddwr yn deg, fel y gall wneud penderfyniad gwybodus ynghylch unrhyw rodd.

1.3.7 Rhaid i chi ystyried anghenion unrhyw roddwr posib a allai fod mewn amgylchiadau bregus neu sydd angen gofal a chefnogaeth ychwanegol i wneud penderfyniad gwybodus.

1.3.8 Rhaid i chi beidio â chamddefnyddio ymddiriedaeth, diffyg gwybodaeth, angen ymddangosiadol am ofal a chefnogaeth neu amgylchiadau bregus unrhyw roddwr, unrhyw bryd.

1.3.9 Rhaid i chi beidio â chymryd rhodd os ydych yn gwybod nad oes gan berson y galluedd i wneud penderfyniad i roi, neu os yw mewn amgylchiadau bregus sy'n golygu efallai na all wneud penderfyniad gwybodus, neu os oes gennych reswm da i gredu hyn. Ymhlith pethau eraill, dylech ystyried:

- unrhyw gyflwr corfforol neu iechyd meddwl allai fod gan y person;
- unrhyw anabledd allai fod gan y person;
- unrhyw anawsterau dysgu allai fod gan y person;
- p'un a yw'r person yn wynebu cyfnod o straen neu bryder (er enghraifft, yn sgil marwolaeth anwylyn neu ddiswyddo);
- p'un a yw rhodd yn debygol o effeithio ar allu'r person i ofalu'n ddigonol amdano ei hun neu ei adael mewn caledi ariannol;
- Pa mor dda all person gyfathrebu a deall yr hyn sy'n cael ei ddweud wrthynt
- p'un a yw'r person dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau; ac
- oedran y person.

1.3.10 Os yw rhoddwr yn gwneud rhodd pan nad oes ganddo'r galluedd i wneud penderfyniad gwybodus, rhaid i chi ddychwelyd yr arian iddo.

1.3.11 Rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol i osgoi gofyn am roddion rheolaidd (er enghraifft, drwy ddebyd uniongyrchol) gan unrhyw un sydd dan 18 oed. Gall pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed gymryd rhan mewn loteri elusennol, ond os ydych yn derbyn arian ar gyfer loteri gan blentyn neu berson ifanc dan 16 **rhaid** i chi ddychwelyd yr arian. Am ragor o wybodaeth ynghylch diffiniad rhodd, gweler y rhestr o eirfa a thermau.

Am ragor o safonau ar godi arian sy'n ymwneud â phlant (yn benodol, cyfyngiadau oedran a diogelu data), gweler **adran 6 Codi arian yn ymwneud â phlant**.

**Canllawiau pellach**

Sefydliad Siartredig Codi Arian: Trin Rhoddwyr yn Deg am ganllaw ar bobl mewn amgylchiadau bregus

## 2. Cyfrifoldebau sefydliadau elusennol a'r sawl sy'n eu llywodraethu

Mae gan sefydliadau elusennol a'r sawl sy'n eu llywodraethu gyfrifoldeb i weithredu er lles pennaf eu sefydliad. Maent yn gyfrifol am godi arian.

Mae'r adran hon yn amlinellu'r safonau yr ydym yn eu disgwyl, yn cynnwys y rhai sy'n gysylltiedig ag asesiadau risg, gweithdrefnau effeithiol i ymdrin â chwynion a gwneud yn siŵr bod sefydliadau elusennol yn defnyddio rhoddion i'r dibenion y'u rhoddwyd.

### Elusennau

Dyletswydd bennaf holl ymddiriedolwyr elusennau yw gweithredu er lles pennaf eu helusennau, bob amser. Wrth wneud hyn, mae gan ymddiriedolwyr nifer o gyfrifoldebau sylfaenol sy'n gysylltiedig â chodi arian.

#### Cymru a Lloegr

Os ydych yn elusen sydd wedi'i sefydlu yng Nghymru a Lloegr, cewch hyd i ganllawiau yn y Cod Llywodraethu Elusennau ac yng nghanllawiau Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr: (CC20) canllawiau i ddyletswyddau ymddiriedolwyr a chanllaw hanfodol i ymddiriedolwyr: yr hyn sydd angen i chi ei wybod a'r hyn sydd angen i chi ei wneud (CC3).

#### Yr Alban

Os ydych yn elusen sydd wedi'i chofrestru yn yr Alban, mae Canllawiau codi arian ar gyfer Ymddiriedolwyr Elusennau Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban (OSCRs) yn darparu gwybodaeth ar ofynion cyfreithiol cyfraith elusennau yr Alban yng nghyswllt codi arian a dyletswyddau ymddiriedolwyr elusennau. Cewch hyd i ragor o wybodaeth yn Canllawiau ac Arfer Dda i Ymddiriedolwyr Elusennau a Cod Llywodraethu yr Alban yr OSCR.

#### Gogledd Iwerddon

Os ydych yn elusen sydd wedi'i chofrestru yng Ngogledd Iwerddon, mae canllawiau Comisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon (CCNI) Codi Arian i Elusennau, ei ganllawiau cryno Codi Arian yn Gryno – canllaw i ymddiriedolwyr elusennau a Codi Arian yn Gryno – canllaw i aelodau'r cyhoedd yn darparu gwybodaeth ar ofynion cyfreithiol ac arfer dda yng nghyswllt codi arian a dyletswyddau ymddiriedolwyr elusennau. Cewch hyd i ragor o wybodaeth yng nghanllawiau Rhedeg eich Elusen y CCNI sy'n amlinellu egwyddorion a phrif elfennau llywodraethu da ar gyfer ymddiriedolwyr elusennau yng Ngogledd Iwerddon.

**Sefydliadau sydd wedi'u sefydlu er dibenion dyngarol a buddiannol**

Bydd gan gyrff llywodraethu sefydliadau gwirfoddol nad ydynt yn elusennol ddyletswyddau tebyg i'r rhai sydd wedi'u hamlinellu uchod yng nghyswllt elusennau.

## 2.1. Dyletswyddau cyffredinol

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' aelodau cyrff llywodraethu sefydliad elusennol.***

2.1.1 **Rhaid** i chi gymryd cyfrifoldeb cyffredinol ar gyfer gweithgareddau codi arian eich sefydliad elusennol, yn cynnwys os ydych wedi dirprwyo cyfrifoldeb dros rolau penodol i berson arall.

2.1.2 Rhaid i chi ystyried canllawiau cenedlaethol wrth oruchwylio gweithgareddau codi arian eich sefydliad elusennol ac unrhyw un arall sy'n codi arian ar ei ran.

2.1.3 **Rhaid** i chi weithredu er lles pennaf eich sefydliad elusennol.

2.1.4 **Rhaid** i chi fod yn ymwybodol o wrthdaro posib rhwng eich dyletswyddau i'ch sefydliad elusennol a'r ddyletswydd neu'r teyrngarwch sydd gennych i eraill. Rhaid i chi ddilyn gweithdrefnau gwrthdaro eich sefydliad elusennol a diystyru unrhyw fuddiant arall sydd gennych wrth wneud penderfyniadau ynghylch y sefydliad.

2.1.5 **Rhaid** i chi wneud yn siŵr y caiff asedau ac adnoddau eich sefydliad elusennol eu defnyddio ar gyfer y dibenion y'u rhoddwyd yn unig (a allai olygu holl ddibenion eich sefydliad neu ddim ond rhai ohonynt). Os yw'r sefydliad elusennol yn elusen, **rhaid** i chi wneud yn siŵr y caiff ei rhedeg yn unol â'i dogfen llywodraethu, cyfraith elusennau a'r holl gyfreithiau a rheoliadau eraill sy'n berthnasol.

2.1.6 Rhaid i chi weithredu'n rhesymol ac yn ofalus yn yr holl faterion sy'n ymwneud â chodi arian. Os nad ydych yn arbenigwyr mewn codi arian, rhaid i chi gymryd cyngor priodol.

2.1.7 Rhaid i chi ei gwneud hi'n glir i bawb sy'n codi arian ar eich rhan bod **rhaid** iddynt wneud yn siŵr bod eich sefydliad elusennol yn derbyn yr holl arian y mae wedi'i godi.

2.1.8 Rhaid i chi ystyried effaith ymgyrchoedd codi arian dadleuol ar enw da'r sefydliad elusennol.

Am ragor o safonau ar dderbyn, gwrthod a dychwelyd rhoddion, gweler **adran 2.3 Derbyn, gwrthod a dychwelyd rhoddion**.

**Ystyriaethau pellach yn benodol i ymddiriedolwyr elusennau yn yr Alban**

2.1.9 Rhaid i chi fodloni Deddf Buddsoddiad Elusennau ac Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005 ac unrhyw reoliadau a wneir o'i mewn neu sy'n effeithio ar elusennau. Yn benodol:

- **rhaid** i chi ddilyn dogfen llywodraethu'r elusen a dyletswyddau ymddiriedolwyr yr elusennau dan adran 66 Deddf 2005; a
- **rhaid** i chi weithredu er budd eich elusen, gwneud yn siŵr eich bod yn gweithredu mewn ffordd sy'n gyson â'ch dibenion, ac yn gweithredu gyda'r 'gofal a'r diwydrwydd' y mae'n rhesymol disgwyl i berson sy'n rheoli materion person arall eu gweithredu.

**Ystyriaethau pellach yn benodol i ymddiriedolwyr elusennau yng Ngogledd Iwerddon**

Mae'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd gan ymddiriedolwyr yng nghyswllt codi arian yn disgyn dan ddyletswyddau cyffredinol ymddiriedolwyr elusennau i fod yn gyfrifol ac yn atebol dros eu helusen a gweithredu bob amser er budd pennaf yr elusen, gyda'r ddyletswydd gyffredinol i reoli a gwarchod yr elusen, ei buddiolwyr, ei hasedau a'i enw da.

## 2.2. Asesiad risg

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' aelodau corff llywodraethu sefydliad elusennol.***

2.2.1 Rhaid i chi gymryd camau rhesymol i asesu a rheoli unrhyw risgiau y mae codi arian yn eu codi i weithgareddau, buddiolwyr, eiddo, gwaith ac enw da eich sefydliad elusennol.

2.2.2 **Rhaid** i chi fodloni Deddf Enillion Troseddau 2002, sy'n berthnasol i arian neu eiddo arall sydd wedi'u caffael drwy ymddygiad troseddol, hyd yn oed os yw'r ymddygiad yn gyfreithiol mewn unrhyw wlad arall.

2.2.3 **Rhaid** i chi fodloni unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol i warchod iechyd a diogelwch cyflogeion, gwirfoddolwyr, y cyhoedd ac unrhyw un arall y gellir ystyried yn rhesymol eu bod yn cael eu heffeithio gan weithgareddau codi arian eich sefydliad elusennol. Am ragor o wybodaeth, gweler gwefannau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Gogledd Iwerddon.

## 2.3. Derbyn, gwrthod a dychwelyd rhoddion

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' gorff llywodraethu sefydliad elusennol. Rhaid i chi sicrhau bod y sawl sy'n codi arian ar eich rhan yn ymwybodol bod rhaid i benderfyniadau yn ymwneud â gwrthod neu ddychwelyd rhodd gael eu gwneud gennych chi yn unol â pholisi yr ydych wedi'i osod.***

2.3.1 **Rhaid** i chi **beidio** â gwrthod neu ddychwelyd rhoddion, oni bai am mewn amgylchiadau eithriadol.

2.3.2 Os ydych yn penderfynu gwrthod rhodd, rhaid i chi gadw cofnod o'ch penderfyniad a'r rhesymau drosto.

2.3.3 Rhaid i chi ymgymryd â diwydrwydd dyladwy, sy'n briodol i faint a natur y rhodd, ar ymdriniaeth ariannol ac enw da partneriaid posib cyn derbyn eu rhoddion.

2.3.4 Rhaid i chi ad-dalu rhoddion yn unol â pholisïau eich sefydliad elusennol neu mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Os nad yw hi'n eglur p'un a ddylech roi ad-daliad, ystyriwch ofyn am gyngor cyfreithiol.

2.3.5 Rhaid i chi roi ad-daliad os yw rhoddwr yn gweithredu ei hawl yn gywir i gael ad-daliad.

### Canllawiau pellach

Sefydliad Siartredig Codi Arian: Derbyn, gwrthod a dychwelyd: Canllaw ymarferol i ymdrin â rhoddion

Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr: Dychwelyd arian i elusennau – am ganllaw ar ddychwelyd arian a dderbyniwyd gan elusen

## 2.4. Cwynion a phryderon ynghylch codi arian

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol ac aelodau ei gorff llywodraethu.***

2.4.1 Rhaid i chi gael gweithdrefn cwynion glir ac sydd ar gael yn gyhoeddus a rhaid iddi hefyd fod yn berthnasol i godwyr arian trydydd parti.

2.4.2 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod codwyr arian yn medru egluro i aelodau'r cyhoedd sut i wneud cwyn.

2.4.3 Rhaid i chi wneud yn siŵr:

- bod cwynion yn cael eu hymchwilio'n drylwyr ac yn deg er mwyn darganfod ffeithiau'r achos, gan osgoi unrhyw oedi diangen; ac
- eich bod yn ymateb i gwynion yn deg ac mewn ffordd sy'n gymesur â'r gŵyn.

2.4.4 Rhaid i chi adolygu unrhyw wersi sydd i'w dysgu gan gwynion yn rheolaidd a defnyddio'r gwersi hynny i'ch helpu chi gyda gweithgareddau codi arian yn y dyfodol.

2.4.5 Rhaid i chi gael gweithdrefn glir ac sydd wedi'i chyhoeddi ar gyfer aelodau staff a gwirfoddolwyr er mwyn adrodd am unrhyw bryderon sydd ganddynt ynghylch eich ymarfer codi arian. Gallai hyn naill ai fod yn bolisi sy'n sefyll ar ei draed ei hun neu'n rhan o bolisi chwythu'r chwiban ehangach sydd ar gael i staff a gwirfoddolwyr. Rhaid i chi wneud yn siŵr bod y polisi yn cynnwys:

- y math o faterion y gellir eu codi a'r broses i wneud hynny;
- sut caiff y person sy'n codi pryder ei warchod rhag erledigaeth ac aflonyddu;
- beth fyddwch chi'n ei wneud pan fyddwch yn derbyn pryder; a
- sut all person adrodd ei bryderon i ni (y Rheoleiddiwr Codi Arian) neu Banel Safonau Codi Arian yr Alban os nad yw'n bosib iddynt gael eu hystyried neu eu datrys o fewn eich sefydliad elusennol.

**Canllawiau pellach**

Rheoleiddiwr Codi Arian: Canllawiau ymdrin â chwynion

## 2.5. Talu codwyr arian

***Yn yr adran hon, oni bai ein bod yn dweud fel arall, golyga 'chi' sefydliad elusennol ac aelodau ei gorff llywodraethu.***

2.5.1 **Rhaid** i chi ddefnyddio'r holl arian yn rhesymol ac yn synhwyrol er budd eich sefydliad elusennol. Mae hyn yn golygu gwneud yn siŵr bod faint rydych yn talu eich codwyr arian yn gymesur i'r budd yr ydych yn disgwyl yn rhesymol ei gael o'u gwaith.

2.5.2 Rhaid i chi beidio â thalu symiau eithafol i'ch codwyr arian. Lle bo hynny'n briodol, rhaid i chi roi cap ar faint rydych yn ei dalu i'ch codwyr arian neu ddefnyddio graddfa symudol sy'n lleihau i osgoi taliadau eithafol.

2.5.3 Rhaid i chi gael systemau effeithiol yn eu lle ar gyfer rheoli perfformiad ac adnabod yr effaith y gall y dull talu ei chael ar y codwr arian, arnoch chi, ar y buddiolwyr ac ar y cyhoedd.

2.5.4 Rhaid i chi beidio â defnyddio taliadau comisiwn oni bai:

- eich bod wedi ymchwilio a dihysbyddu'r holl ffynonellau eraill o fuddsoddi mewn codi arian;
- eich bod chi (neu swyddogion gweithredol uwch, os ydych wedi dirprwyo grym iddynt) wedi cymeradwyo unrhyw daliadau; a
- bod mesurau yn eu lle i wneud yn siŵr na chaniateir taliadau eithriadol.

2.5.5 Rhaid i chi fonitro taliadau comisiwn a gwneud yn siŵr eu bod yn parhau i daro cydbwysedd rhwng lleihau risg ac annog codwyr arian yn effeithiol.

2.5.6 Os ydych yn cyflogi pobl yn uniongyrchol i godi arian, **rhaid** i chi wneud yn siŵr bod y dull talu yr ydych yn ei ddewis yn bodloni Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (yng Ngogledd Iwerddon Gorchymyn Hawliau Cyflogaeth (Gogledd Iwerddon) 1996), a **rhaid** i chi fodloni'r rheolau isafswm cyflog sydd wedi'u hamlinellu yn Neddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998.

2.5.7 **Rhaid** i chi wneud yn siŵr bod codwyr arian proffesiynol, cyfranogwyr masnachol a, lle bo hyn yn briodol, eich staff eich hun yn rhoi datganiadau erfyniad pan fyddant yn gofyn am roddion ar ran eich sefydliad elusennol.

Am ragor o safonau ar ddatganiadau erfyniad, gweler **adran 2.6 datganiadau erfyniad ar gyfer cyflogeion a delir, swyddogion ac ymddiriedolwyr sefydliadau elusennol a chwmnïau cysylltiedig ac adran 7.4 datganiadau (datgelu) erfyniad ar gyfer codwyr arian trydydd parti a delir a chyfranogwyr masnachol**.

2.5.8 Os ydych yn ymddiriedolwr elusen, **rhaid** i chi **beidio** â chael eich talu am godi arian ar gyfer eich elusen oni bai eich bod yn bodloni amodau penodol sy'n dibynnu ar y wlad ble'r ydych chi wedi'ch lleoli.

**Canllawiau pellach**

- Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr: Taliadau i ymddiriedolwyr elusennau: y rheolau ac adran 185 Deddf Elusennau 2011
- Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban: Canllawiau ac arfer dda i ymddiriedolwyr elusennau ac adran 67 Deddf Buddsoddiad Elusennau ac Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005
- Comisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon: Canllawiau ar dreuliau a thaliadau ymddiriedolwyr ac adran 88 Deddf Elusennau (Gogledd Iwerddon) 2008

## 2.6. Datganiadau erfyniad ar gyfer cyflogeion a delir, swyddogion ac ymddiriedolwyr sefydliadau elusennol a chwmnïau cysylltiedig

*Yn yr adran hon, golyga 'chi' gyflogeion a delir, swyddogion ac aelodau corff llywodraethu sefydliad elusennol neu gwmni cysylltiedig.*

**Cymru a Lloegr**

2.6.1 Os ydych chi'n ymgymryd â chasgliad elusennol cyhoeddus, ac yn cael eich talu mwy na £10 y diwrnod neu mwy na £1000 y flwyddyn i gasglu rhoddion er budd un neu fwy o sefydliadau elusennol ac nad ydych yn godwr arian proffesiynol, **rhaid** i chi wneud datganiad yn dweud:

- enw'r sefydliad neu'r sefydliadau elusennol a fydd yn elwa ac, os oes mwy nag un, i ba raddau y byddant yn elwa;
- eich bod yn swyddog, yn gyflogai neu'n aelod o gorff llywodraethu sefydliad elusennol; ac
- eich bod yn derbyn taliad fel swyddog, cyflogai neu aelod o gorff llywodraethu, neu'n gweithredu fel casglwr. Nid oes rhaid i chi ddweud faint yr ydych yn ei dderbyn.

2.6.2 Rhaid i chi wneud y datganiad naill ai cyn i'r rhoddwr roi arian neu cyn i chi ofyn am unrhyw fanylion ariannol yn ymwneud â'r rhodd (p'un bynnag sydd gynharaf).

2.6.3 Os ydych chi'n gofyn am rodd er dibenion elusennol, buddiannol neu ddyngarol (nid ar gyfer sefydliad elusennol sy'n cael ei enwi'n benodol), **rhaid** i chi wneud datganiad tebyg eich bod yn cael eich talu ar gyfer y dibenion cyffredinol hynny.

**Yr Alban**

Ar gyfer mwy o safonau ar ddatganiadau erfyniad yn yr Alban, gweler **adran 7.4 datganiadau (datgelu) erfyniad ar gyfer codwyr arian trydydd parti a delir a chyfranogwyr masnachol.**

**Gogledd Iwerddon**

2.6.4 Rhaid i chi ddilyn yr un safonau ag yng Nghymru a Lloegr.

## 2.7. Defnyddio arian

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' aelodau corff llywodraethu sefydliad elusennol.***

Rhaid i rodd gael ei defnyddio ar gyfer y dibenion y'i rhoddwyd. Os ydych am newid y diben hwnnw dylech ofyn am gyngor gan ymgynghorwyr cyfreithiol neu'r rheoleiddiwr statudol cenedlaethol perthnasol cyn newid y diben, hyd yn oed os yw'r person sy'n gwneud y rhodd wedi rhoi caniatâd i chi wneud hyn.

2.7.1 **Rhaid** i chi ddefnyddio'r holl arian a godir dros achos penodol ar gyfer yr achos hwnnw.

2.7.2 **Rhaid** i chi wneud yn siŵr y caiff rhoddion eu defnyddio i gefnogi'r achos yn unol ag unrhyw amodau sydd ynghlwm â'r rhodd. Gallai hyn fod yn amodau y mae'r rhoddwr yn eu gosod wrth wneud y rhodd neu sylwadau yr ydych yn eu gwneud (naill ai ar lafar neu mewn deunyddiau codi arian) ynghylch sut caiff yr arian ei ddefnyddio.

2.7.3 Rhaid i chi gadw cofnod o roddion a roddir er dibenion penodol i wneud yn siŵr eich bod yn cadw at amodau'r rhodd.

2.7.4 Rhaid i chi wneud yn siŵr nad ydych yn awgrymu bod arian ar gyfer diben cyfyngedig (megis prynu gafr, neu helpu plentyn penodol) pan allai gael ei ddefnyddio er diben gwahanol neu ar gyfer dibenion cyffredinol sefydliad elusennol.

2.7.5 Os ydych chi'n codi arian ar gyfer diben penodol, rhaid i chi gynnwys datganiad sy'n dweud beth fydd yn digwydd i'r arian yr ydych yn ei dderbyn os nad yw'r cyfanswm a godir yn ddigon i gyrraedd y targed (neu'n fwy na'r targed).

Am ragor o safonau ar dderbyn, gwrthod a dychwelyd rhoddion, gweler **adran 2.3 Derbyn, gwrthod a dychwelyd rhoddion.**

2.7.6 **Rhaid** i chi **beidio** â gofyn am arian ar gyfer diben nad yw'n cyd-fynd â dibenion eich sefydliad elusennol.

2.7.7 Os ydych chi'n annog rhywun i roi drwy gynnig buddion, rhaid i chi wneud yn siŵr:

- bod gennych y grym i roi buddion;
- bod y buddion yn briodol yn yr amgylchiadau; a
- bod y buddion yn gymesur i faint ac amlder y rhodd.

2.7.8 Rhaid i chi fod yn ymwybodol pan fod buddion yn canslo unrhyw ryddhad treth megis Rhodd Cymorth neu daliadau atodol sydd ar gael dan y rheolau rhoddion bach. Os yw buddion yn atal y rhodd rhag bod yn gymwys dan Rodd Cymorth neu reolau Cynllun Rhodd Cymorth Rhoddion Bach, **rhaid** i chi **beidio** â cheisio hawlio treth ar y rhodd. Gall y rheolau rhoddion sydd wedi'u llygru fod yn berthnasol i rai buddion.

**Canllawiau pellach**

- Cyllid a Thollau EM: Pennod 3.18 Elusennau: nodiadau canllaw manwl ar sut mae'r system dreth yn gweithio – am ganllaw ar y cyfyngiadau ar fuddion y gellir eu cynnig heb oblygiadau treth
- Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr: Elusennau: diwydrwydd dyladwy, monitro a gwirio defnydd terfynol arian elusennol
- Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban (OSCR): Sefydliad arian cyfyngedig – am ganllaw ar newid diben rhodd
- Comisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon: Gwneud cais am gynllun – am ganllaw ar newid diben rhodd

## 2.8. Cyfrifo ac adrodd

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol a'i gorff llywodraethu.***

2.8.1 **Rhaid** i chi ddilyn yr holl ofynion cyfrifo cyfreithiol.

2.8.2 Os ydych chi'n elusen y mae'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau (SORP) yn berthnasol iddi, rhaid i chi ei ddilyn wrth gyfrifo ac adrodd.

2.8.3 Rhaid i chi fodloni unrhyw ofynion adrodd penodol os ydynt yn berthnasol i rodd.

**Ystyriaethau pellach yng Nghymru a Lloegr**

2.8.4 Os ydych chi'n elusen ac mae'n rhaid i chi gael eich cyfrifon wedi'u harchwilio dan adran 162A Deddf Elusennau 2011, dan adran 13 Deddf Elusennau (Gwarchod a Buddsoddiad Cymdeithasol) 2016 **rhaid** i chi nodi yn adroddiad blynyddol eich ymddiriedolwyr:

- eich dull codi arian, a ph'un a wnaethoch ddefnyddio codwr arian proffesiynol neu gyfranogwr masnachol;
- manylion unrhyw gynlluniau neu safonau codi arian rheoleiddiol gwirfoddol yr ydych chi neu unrhyw un sy'n codi arian ar eich rhan wedi cytuno iddynt;
- manylion unrhyw amgylchiadau lle'r ydych wedi methu cadw at gynllun neu safon;
- p'un a ydych chi wedi monitro gweithgareddau codi arian sydd wedi'u gwneud ar eich rhan, ac os felly, sut;
- faint o gwynion yr ydych chi neu unrhyw un sy'n gweithredu ar eich rhan wedi derbyn ynghylch codi arian ar gyfer eich elusen; a
- beth yr ydych chi wedi'i wneud i warchod pobl fregus ac eraill rhag ymyrraeth afresymol ar eu preifatrwydd, dulliau sy'n afresymol o daer neu bwysau gormodol i roi, yng nghwrs codi arian ar gyfer eich elusen neu'n gysylltiedig â hynny.

**Canllawiau pellach**

- Comisiwn Etholiadau Cymru a Lloegr: Adrodd a chyfrifo elusennau: yr hanfodion Tachwedd 2016 (CC15d)
- Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban (OSCR): Cyfrifo elusennau
- Comisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon: Adrodd a chyfrifo elusennau: yr hanfodion
- Rheoleiddiwr Codi Arian: Deddf Elusennau (Gwarchod a Buddsoddiad Cymdeithasol) 2016: gofynion adrodd am godi arian

## 3. Prosesu data personol (gwybodaeth)

Mae diogelu data personol yn sicrhau y gall pobl ymddiried ynoch chi i ddefnyddio eu data yn gyfreithiol, yn deg ac yn gyfrifol. Mae'r adran hon yn amlinellu'r safonau yr ydym yn eu disgwyl pan fyddwch yn prosesu data personol, yn cynnwys safonau sy'n ymwneud â marchnata uniongyrchol.

### Yr hawliau sydd gan bobl dros eu data

Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn rhoi'r hawliau a ganlyn i bobl yn y gyfraith ynghylch eu data personol.

- Yr hawl i gael gwybod
- Hawl mynediad
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Yr hawl i wrthwynebu
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau awtomataidd a phroffilio

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) wedi darparu canllawiau ar yr hawliau hyn.

### Data categori arbennig

Mae ar rai mathau penodol o ddata angen gwarchodaeth gryfach. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, gwybodaeth yn ymwneud â:

- hil
- cefndir ethnig
- barn wleidyddol
- crefydd
- aelodaeth o undeb llafur
- geneteg
- biometreg (manylion cyfrifiadurol a ddefnyddir i adnabod person drwy eu nodweddion unigryw, er enghraifft drwy sganio olion bysedd ac adnabod wynebau)
- iechyd
- bywyd rhywiol, neu
- gyfeiriadedd rhywiol (rhywioldeb).

Mae canllawiau ar amodau ar gyfer prosesu data categori arbennig ar gael gan yr ICO.

### 3.1. Gofynion cyffredinol ar gyfer data personol

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti sy'n prosesu data personol.***

3.1.1 **Rhaid** i chi fodloni'r holl ofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â diogelu data, yn cynnwys:

- Deddf Diogelu Data 2018;
- Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR); a
- Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Cyfarwyddeb yr UE) (PECR) 2003, yn cynnwys gofynion y Gwasanaeth Dewisiadau Ffôn (TPS), ac unrhyw adolygiadau i ddeddfwriaeth e-breifatrwydd sy'n deillio o adolygiad y Comisiwn Ewropeaidd o PECR a ddechreuodd yn 2017.

3.1.2 Rhaid i chi gadw'n ddiweddar gyda chanllawiau gan yr ICO. Mae hyn yn cynnwys canllawiau marchnata uniongyrchol yr ICO, ei ganllawiau caniatâd GDPR a'i ganllawiau buddion cyfreithlon.

3.1.3 Os ydych yn prosesu data personol, **rhaid** i chi dalu'r ffi diogelu data i'r ICO, oni bai eich bod wedi'ch eithrio.

3.1.4 Wrth brosesu data personol (yn cynnwys gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd) ar gyfer unrhyw ddibenion, rhaid i chi:

- gael sail gyfreithlon (rheswm cyfreithiol dilys) dros gasglu, defnyddio a chadw'r data personol (am ragor o wybodaeth am y sail (neu 'amodau') ar gyfer prosesu data personol, gweler erthyglau 6 a 9 y GDPR);
- rhoi gwybodaeth gryno, agored, dealladwy ac sy'n hawdd cael mynediad iddi ynghylch sut byddwch yn prosesu eu data personol, yn cynnwys pwy yw eich sefydliad, beth rydych yn bwriadu ei wneud gyda'u data personol a phwy (os neb) y byddwch yn ei rannu gyda nhw;
- prosesu data personol mewn ffyrdd y byddai'r person sydd berchen ar y data yn eu disgwyl yn rhesymol, yn unig; a
- **pheidio** â gwneud unrhyw beth anghyfreithlon gyda data personol.

3.1.5 **Rhaid** i chi fodloni unrhyw ddyletswyddau sydd gennych i gadw data yn gyfrinachol. **Rhaid** i chi **beidio** â rhannu data os oes gennych ddyletswydd gyfreithiol i gadw’r data yn gyfrinachol, oni bai bod rheswm cyfreithiol pennaf dros wneud hynny. Er enghraifft, os oes llys wedi rhoi gorchymyn i chi ryddhau’r data.

**Canllawiau pellach**

- Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth: Canllaw i’r Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig
- Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth: Yr hawl i gael gwybod – am ganllawiau ar wybodaeth a hysbysiadau preifatrwydd
- Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth: Ffi Diogelu Data – am wybodaeth ar sut i gofrestru gyda’r ICO

## 3.2. Storio a chynnal data personol

***Yn yr adran hon, golyga ‘chi’ sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.***

3.2.1 **Rhaid** i chi wneud yn siŵr bod yr holl ddeunyddiau, yn benodol ffurflenni rhoddwyr sydd wedi’u llenwi, yn cael eu storio’n ddiogel ac yn unol â’ch oblygiadau dan gyfraith diogelu data.

3.2.2 **Rhaid** i chi wneud yn siŵr bod y data yr ydych yn ei gadw ynghylch rhoddwyr yn gywir ac yn adlewyrchu eu dewisiadau cyfathrebu, a’ch bod ond yn ei gadw am gyhyd ag sy’n angenrheidiol ar gyfer:

- y diben neu’r dibenion yr ydych yn ei brosesu ar eu cyfer;
- dibenion sy’n gydnaws â’r dibenion prosesu hyn sydd wedi’u datgan; neu
- ddiben a ganiateir dan y gyfraith ac sydd ym mudd y cyhoedd.

3.2.3 Rhaid i chi allu dangos eich bod wedi cymryd yr holl gamau rhesymol i wneud yn siŵr:

- bod cronfeydd data yn gywir a, lle bo angen, yn ddiweddar;
- nad ydych yn anfon marchnata uniongyrchol at bobl sydd wedi dweud wrthych nad ydynt am ei dderbyn; a'ch
- bod yn stopio anfon gohebiaeth sydd wedi'i chyfeirio at bobl y gwyddoch sydd wedi marw.

3.2.4 Rhaid i chi gael systemau a gweithdrefnau priodol yn eu lle (megis rhestr o bobl i beidio â chysylltu â nhw) i wneud yn siŵr nad ydych yn anfon marchnata uniongyrchol at bobl sydd wedi gofyn am beidio â'i dderbyn.

3.2.5 **Rhaid** i chi naill ai stopio anfon marchnata uniongyrchol at berson o fewn cyfnod rhesymol (cyn gynted ag sy'n bosib, ond o fewn 28 diwrnod beth bynnag) neu beidio â dechrau prosesu data personol person er dibenion anfon marchnata uniongyrchol atynt os ydych yn derbyn rhybudd gan, neu ar ran, y person hwnnw yn dweud wrthych nad ydynt am dderbyn marchnata uniongyrchol. Er enghraifft:

- rhybudd gan (neu a anfonwyd ar ran) berson drwy'r Gwasanaeth Dewisiadau Codi Arian yn dweud wrthych fod cais i stopio cyswllt wedi'i wneud; neu
- unrhyw arwydd clir arall gan berson (neu a wneir ar ei ran) nad yw am i chi gysylltu ag ef er dibenion marchnata uniongyrchol. Gall yr arwydd hwn gynnwys rhoi ei ddewisiadau cysylltu i chi neu ddad-danysgrifio o restrau postio.

**Canllawiau pellach**

- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Yr hawl i wrthwynebu – am ganllawiau ar hawliau pobl i wrthwynebu i chi brosesu eu data personol
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Egwyddor (b): Cyfyngu diben – am ganllawiau ar gadw at y cyfyngiadau ar y dibenion y mae gennych hawl i brosesu data personol ar eu cyfer

### 3.3. Rhannu a gwerthu data personol

*__Yn yr adran hon, golyga ‘chi’ sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.__*

3.3.1 **Rhaid** i chi beidio â rhannu data personol gydag unrhyw sefydliad oni bai bod gennych sail gyfreithlon i’w rannu ac y gallwch brofi eich bod yn bodloni’r gofynion prosesu yn **adran 3.1** uchod.

3.3.2 Os caiff data personol ei rannu rhwng sefydliadau:

- o fewn strwythur ffederal (mewn geiriau eraill, lle mae un sefydliad yn rheoli’r llall neu lle mae’r ddau wedi’u rheoli gan yr un rhiant-sefydliad); neu
- dan drefniadau prosesu data (lle mae un sefydliad yn gweithredu ar ran sefydliad arall dan gontract ysgrifenedig, megis codwyr arian proffesiynol, cwmnïau rheoli data neu argraffdai);

**rhaid** i’r strwythur neu’r trefniant sefydliadol a’r rheswm dros brosesu’r data fod yn glir yn y wybodaeth preifatrwydd yr ydych yn ei rhoi i’r person er mwyn bodloni ei hawl i gael gwybod. Neu, os yw’r sefydliad sy’n derbyn y data angen caniatâd y person i ddal a defnyddio’i ddata, **rhaid** i’r sefydliad neu’r categori o sefydliad sy’n derbyn y wybodaeth gael ei enwi yn y cais am ganiatâd, a **rhaid** i’r sefydliad sy’n anfon y cais dderbyn caniatâd penodol person i’w ddata gael ei rannu.

3.3.3 **Rhaid** i chi **beidio** â rhannu data personol person gydag unrhyw sefydliad arall ar gyfer dibenion marchnata’r sefydliad hwnnw oni bai bod gennych hawl i wneud hynny dan y gyfraith, naill ai oherwydd bod gennych ganiatâd y person i wneud hynny neu drwy’r eithriadau yn **3.3.2**.

3.3.4 Rhaid i chi beidio â gwerthu data personol person i unrhyw sefydliad arall, oni bai y gallwch ddangos bod gennych ganiatâd penodol, gwybodus a diamwys y person hwnnw sydd wedi’i roi yn rhydd i werthu ei ddata.

### 3.4. Astudiaethau achos

*Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.*

3.4.1 Os ydych yn bwriadu defnyddio enghraifft go iawn o berson mewn astudiaeth achos, **rhaid** i chi brosesu data personol y person hwnnw yn unol â'r gyfraith yn unig.

Am ragor o safonau ar brosesu data yn unol â'r gyfraith, gweler **adran 3 Prosesu data personol (gwybodaeth)**.

3.4.2 Os ydych am ddefnyddio astudiaeth achos sy'n adnabod person sydd wedi marw, rhaid i chi wneud pob ymdrech resymol i gael caniatâd gan ystâd y person hwnnw.

### 3.5. Marchnata uniongyrchol

*Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.*

Diffinnir marchnata uniongyrchol yn y gyfraith fel 'Cyfathrebu (drwy ba bynnag ffyrdd)...unrhyw ddeunydd hysbysebu neu farchnata...sydd wedi'i gyfarwyddo i unigolion penodol...'

Mae'r ICO yn datgan bod gweithgareddau codi arian, ynghyd â gwaith hyrwyddo ac ymgyrchu elusennau, yn dod dan y diffiniad o farchnata uniongyrchol.

Yn ymarferol, mae'n debygol y bydd negeseuon codi arian a anfonir yn electronig (er enghraifft, galwadau ffôn, ffacs, testun ac e-bost) neu drwy bost wedi'i gyfeirio yn debygol o gael eu cyfeirio at berson penodol, felly maent yn dod dan y diffiniad hwn.

Rhaid i'r marchnata gael ei gyfeirio at bobl benodol. Nid yw rhai elfennau marchnata yn cael eu cyfeirio at bobl benodol (er enghraifft, post sydd heb ei gyfeirio) ac felly nid yw'n dod dan y diffiniad hwn.

Law yn llaw â deddfwriaeth diogelu data sy'n berthnasol wrth brosesu data personol ar gyfer dibenion marchnata uniongyrchol, bydd y Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (PECR) yn berthnasol wrth anfon marchnata'n electronig, megis drwy e-bost neu neges destun ac mewn galwadau ffôn sydd wedi'u recordio. Yn yr achosion hyn, bydd arnoch angen caniatâd y person i anfon marchnata uniongyrchol ato bob amser, oni bai:

- eich bod yn bodloni'r amodau 'optio mewn meddal' sy'n caniatáu i fusnesau sydd wedi derbyn manylion cyswllt person wrth werthu cynnyrch neu wasanaeth iddo (neu yn ystod y trafodaethau sy'n ymwneud â gwerthiant posib) i farchnata cynnyrch a gwasanaethau tebyg i'r person hwnnw; neu
- eich bod yn marchnata i fusnesau neu sefydliadau (yn cynnwys lle'r ydych yn cysylltu ag unigolyn gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost corfforaethol megis enwcyntaf.cyfenw@companyname.com).

3.5.1 **Rhaid** i chi gael sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data personol er mwyn anfon gohebiaeth marchnata uniongyrchol at bobl.

Mae'r safonau ar 'ganiatâd' a 'budd cyfreithlon', y ddwy sail fwyaf cyffredin ar gyfer prosesu data personol er mwyn anfon gohebiaeth marchnata uniongyrchol, wedi'u hamlinellu isod.

**Canllawiau pellach**

- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Canllawiau Marchnata Uniongyrchol
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Marchnata post electronig – am ganllawiau ar bryd nad yw'r PECR yn berthnasol
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Cyfreithlondeb ar gyfer prosesu – am ganllawiau ar brosesu data personol yn unol â'r gyfraith

**Caniatâd ar gyfer gohebiaeth marchnata uniongyrchol**

3.5.2 Os ydych yn defnyddio, neu'n bwriadu defnyddio, caniatâd fel sail gyfreithlon dros brosesu data personol er mwyn anfon gohebiaeth marchnata uniongyrchol, **rhaid** i'r caniatâd:

- fod yn arwydd penodol, gwybodus a diamwys sydd wedi'i roi yn rhydd o ddymuniad y person hwnnw;
- bod wedi'i roi drwy gamau cadarnhaol clir gan y person dan sylw i ddangos ei fod wedi rhoi caniatâd (er enghraifft, defnyddio dulliau gweithredol, megis ticio blwch optio mewn nad yw wedi'i dicio neu ateb 'ie' i gwestiwn);
- rhoi opsiynau ar gyfer gwahanol lefelau o ganiatâd ar gyfer gwahanol fathau o brosesu os ydych yn prosesu data'r person ar gyfer mwy nag un diben;
- bod ar wahân i'ch amodau a thelerau eraill a ddim yn rhywbeth y mae'n rhaid i'r person ei roi wrth gofrestru i wasanaeth (oni bai bod arnoch angen y caniatâd er mwyn gallu darparu'r gwasanaeth hwnnw);
- enwi'r sefydliad ac unrhyw un arall a fydd yn dibynnu ar y caniatâd;
- dweud wrth bobl am eu hawl i dynnu eu caniatâd yn ôl a'i gwneud hi gyn hawsed iddynt dynnu'r caniatâd yn ôl ag yw hi iddynt ei roi; a'i
- fod wedi'i gofnodi mewn ffordd sy'n caniatáu i'ch sefydliad ddangos pwy roddodd ganiatâd, pryd wnaethant roi caniatâd, sut wnaethant roi caniatâd, a beth ddywedwyd wrthynt yng nghyswllt rhoi caniatâd.

3.5.3 **Rhaid** i geisiadau electronig am ganiatâd fod yn glir ac yn gryno a rhaid iddynt **beidio** â tharfu'n ddiangen ar y defnydd o'r gwasanaeth y mae'r caniatâd wedi'i roi ar ei gyfer. Er enghraifft, gallwch gyflawni hyn drwy dorri rhybudd preifatrwydd hwy yn ddarnau byrrach o wybodaeth preifatrwydd sy'n codi ar y pwynt lle gofynnir i berson am ei ddata personol yn unig.

3.5.4 Os oes gennych ganiatâd y person i anfon gohebiaeth marchnata uniongyrchol ato:

- rhaid i chi gynnig ffordd rwydd iddo dynnu ei ganiatâd yn ôl (megis botwm 'dad-danysgrifio' mewn unrhyw ohebiaeth yr ydych yn ei hanfon);
- rhaid i chi atgoffa'r person o'i ddewisiadau cysylltu, gyn amled ag y mae'ch sefydliad yn penderfynu'n rhesymol, a chynnig ffordd rwydd iddo newid y rhain os yw am wneud hynny (megis botwm 'diweddaru eich dewisiadau cyfathrebu'); a
- **rhaid** i chi ddiweddaru cofnod y person hwnnw fel sydd angen i adlewyrchu newidiadau i'w ddewisiadau caniatâd neu gyswllt.

3.5.5 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod yr holl ddatganiadau caniatâd (geiriad i gael caniatâd er dibenion marchnata) a ddangosir yn eich deunyddiau codi arian o leiaf yr un maint ffont ag:

- unrhyw destun sy’n gofyn am ddata personol; neu
- unrhyw destun sy’n datgan swm y rhodd;

pa un bynnag sydd fwyaf.

3.5.6 Os nad oes testun yn gofyn am fanylion personol neu’n datgan swm y rhodd, rhaid i’ch datganiadau caniatâd fod mewn maint ffont o leiaf 10.

**Budd cyfreithlon fel sail ar gyfer gohebiaeth marchnata uniongyrchol**

3.5.7 Os ydych yn defnyddio budd cyfreithlon fel sail ar gyfer prosesu data er dibenion marchnata uniongyrchol drwy alwad ffôn byw neu drwy’r post, **rhaid** i chi allu dangos:

- eich bod wedi adnabod budd cyfreithlon (dan ganllawiau ICO, gallai hyn fod yn fudd eich sefydliad eich hun neu fudd trydydd parti a gall gynnwys buddion masnachol, buddion unigol a buddion ehangach i’r gymdeithas);
- eich bod angen prosesu’r data i gyflawni’r budd hwnnw (dan ganllawiau ICO, os gellir cyflawni’r un canlyniad yn rhesymol mewn ffordd arall, lai ymwthiol, ni fydd buddion cyfreithlon yn berthnasol); ac
- eich bod wedi cydbwyso eich buddion i brosesu’r data personol yn erbyn buddion, hawliau a rhyddid y person i wneud yn siŵr nad yw eich buddion wedi’u gorbwyso gan ei rai ef (dan ganllawiau ICO, pe na fyddai’r person yn disgwyl yn rhesymol i chi brosesu ei ddata neu y byddai’n achosi niwed heb gyfiawnhad iddo, mae ei fuddion yn debygol o orbwyso eich rhai chi).

3.5.8 Os ydych yn dibynnu ar yr amod budd cyfreithlon fel y sail gyfreithiol i brosesu data, rhaid i chi gael cofnod o’r penderfyniad a wnewch i helpu i ddangos eich bod yn bodloni’r amodau sydd wedi’u hamlinellu uchod.

3.5.9 Os ydych yn dibynnu ar yr amod budd cyfreithlon fel y sail gyfreithiol i brosesu data er dibenion marchnata uniongyrchol dros y ffôn neu drwy'r post:

- **rhaid** i'ch hysbysiad preifatrwydd egluro ar gyfer beth y byddwch yn defnyddio'r data personol;
- **rhaid** i'ch hysbysiad preifatrwydd egluro eich buddion cyfreithlon; a
- rhaid i'ch hysbysiad preifatrwydd ac unrhyw ohebiaeth marchnata uniongyrchol arall yr ydych yn ei hanfon, gynnig ffordd glir a syml i'r person ddweud wrthych nad yw am dderbyn marchnata uniongyrchol yn y dyfodol.

**Canllawiau pellach**

- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Yr hawl i gael gwybod – am ganllawiau ar hysbysiadau preifatrwydd
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Buddion cyfreithlon – am ganllawiau ar ddefnyddio hyn fel sail gyfreithiol i brosesu data
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Caniatâd – am ganllawiau ar ddefnyddio hyn fel sail gyfreithiol i brosesu data

## 3.6. Ceisiadau gan bobl i gael mynediad i'w data personol

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.***

3.6.1 Os ydych yn prosesu data personol person, os yw'r person hwnnw yn gofyn i chi, **rhaid** i chi roi copi o'r data personol yr ydych yn ei ddal amdano a manylion am sut i'w ddefnyddio yn unol â hawl mynediad y person (gall eithriadau fod yn berthnasol i hyn).

3.6.2 Os ydych yn dal neu'n defnyddio data personol person i gyflawni contract neu oherwydd bod gennych ei ganiatâd i'w brosesu, **rhaid** i chi wneud yn siŵr y gellir symud, copïo neu drosglwyddo'r data personol hwnnw yn rhwydd o un system gyfrifiadurol i un arall os yw'r person yn gofyn i chi wneud hynny (p'un a yw hyn i'w systemau eu hunain, neu i systemau sefydliad arall neu reolyddion data newydd).

**Canllawiau pellach**

- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Yr hawl i gludadwyedd data – am ganllawiau ar hawl person i drosglwyddo data er ei ddibenion ei hun
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Hawl mynediad – am ganllawiau ar hawl person i gael mynediad i'w ddata personol ei hun y mae sefydliad yn ei ddal

# 4. Prosesu rhoddion

Mae polisïau a phrosesau clir ar gyfer ymdrin â rhoddion a Rhodd Cymorth yn lleihau risg ac yn sicrhau bod elusennau yn cael yr holl arian y mae ganddynt yr hawl iddo. Mae'r adran hon yn cynnwys safonau ynghylch ymdrin â ffurfiau gwahanol o dalu er mwyn gwneud yn siŵr bod rhoddion yn ddiogel (mae hyn yn cynnwys taliadau unwaith ac am byth ac ymrwymiadau rhoddion parhaus). Mae hefyd yn cynnwys rheolau ar Gymorth Rhodd.

## 4.1. Arian parod

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti oni bai ein bod yn dweud fel arall wrthych.***

4.1.1 Rhaid i chi beidio â gadael arian parod nad yw wedi'i ddiogelu heb ofalu amdano.

4.1.2 Rhaid i chi gyfrif arian parod mewn lle diogel.

4.1.3 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod yr holl arian parod yr ydych wedi'i gasglu yn cael ei gyfrif a'i gofnodi gan ddau berson nad ydynt yn gysylltiedig, lle bynnag y bo hynny'n bosib.

4.1.4 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod rhoddion arian parod yn cael eu rhoi mewn cynhwysydd sydd wedi'i selio neu flwch casglu. Os ydych yn casglu yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon, neu mewn awdurdod trwyddedu sy'n dilyn y rheoliadau enghreifftiol yng Nghymru a Lloegr ar gyfer casgliadau stryd, **rhaid** i chi wneud hyn.

4.1.5 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod hyrwyddwr y casgliad (er enghraifft, rheolwr codi arian elusen) ac un person cyfrifol arall neu swyddog banc yn bresennol wrth i chi archwilio ac agor blychau casglu ar gyfer casgliadau trwyddedig mewn lle cyhoeddus. Os yw'r awdurdod trwyddedu yn dilyn y rheoliadau enghreifftiol yng Nghymru a Lloegr ar gyfer casgliadau stryd, **rhaid** i chi wneud hyn.

4.1.6 Ar gyfer casgliadau ar dir preifat, os nad yw hi'n ymarferol i chi agor a chyfrif blychau casglu, rhaid i chi gael gweithdrefnau a chyfarwyddiadau effeithiol ar gyfer y person sydd berchen ar y safle neu'n ei reoli er mwyn cyfrif, cofnodi a bancio neu gyflwyno'r arian yn y blychau.

4.1.7 Os nad ydych yn bancio'r arian parod ar unwaith, rhaid i chi ei roi mewn lle diogel neu le sicr arall.

4.1.8 Rhaid i chi fancio arian parod cyn gynted â phosib. Er mwyn helpu gyda hyn, rhaid i chi gael gweithdrefn ar gyfer bancio rhoddion, yn cynnwys pwy sy'n ei wneud a phryd.

4.1.9 Rhaid i chi wirio bod yr arian parod yr ydych wedi'i fancio yn cyd-fynd â'ch crynodebau incwm, cyn gynted â phosib. Os yw hynny'n bosib, rhaid i rywun nad yw ynghlwm â chyfrif neu gyfnewid yr arian wneud hyn.

4.1.10 Rhaid i chi anfon y swm llawn a gymerir o'r holl flychau casglu i'r sefydliad elusennol (neu'r sefydliadau) heb gymryd unrhyw dreuliau neu ffioedd, oni bai bod y rhain wedi'u cytuno ymlaen llaw.

4.1.11 Os ydych yn godwr arian proffesiynol neu'n gyfranogwr masnachol, **rhaid** i chi (a'r bobl sy'n codi arian ar eich cyfer) **beidio** â chymryd unrhyw arian o'r arian parod yr ydych chi (neu y maen nhw) wedi'i dderbyn.

4.1.12 **Rhaid** i chi fodloni unrhyw reolau ychwanegol y mae awdurdodau lleol yn eu gosod ynghylch gwneud didyniadau o gasgliadau.

**Safonau pellach ar gyfer casgliadau arian parod yn yr Alban**

4.1.13 Yn yr Alban, ar gyfer casgliadau sydd wedi'u trwyddedu gan y cyngor lleol a gaiff eu gwneud gan ddefnyddio blwch casglu, **rhaid** i chi ond dderbyn rhoddion drwy ganiatáu i'r rhoddwr eu rhoi nhw yn y blwch casglu. Neu, os ellir gwneud y casgliad drwy amlenni wedi'u selio, **rhaid** i'r casglwr ond dderbyn rhoddion mewn amlenni wedi'u selio gan ddefnyddio'r amlenni sydd wedi'u rhifo yr ydych wedi'u rhoi iddyn nhw. O ganlyniad, nid yw hi fel arfer yn bosib rhoi derbynebau ar gyfer rhoddion.

4.1.14 Os ydych yn derbyn arian parod mewn amlenni casglu neu flychau casglu fel rhan o gasgliad elusennol cyhoeddus, **rhaid** i chi ei gyfrif a'i fancio yn unol â Rheoliadau Casgliadau Elusennol Cyhoeddus (Yr Alban) 1984, fel y maent wedi'u diwygio.

## 4.2. Tiliau

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.***

4.2.1 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod yr holl arian yn cael ei roi yn y til ar unwaith.

4.2.2 Rhaid i chi roi newid o'r til yn unig, byth o'ch arian personol chi.

## 4.3. Fflôt

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.***

4.3.1 Rhaid i berson yr ydych wedi'i enwebu lofnodi ar gyfer eich fflôt.

4.3.2 Rhaid i chi gadw fflôt ac unrhyw arian a wneir o werthiannau ar wahân i arian personol y daliwr arian parod.

4.3.3 Os ydych yn defnyddio arian o fflôt ar gyfer gwario arian mân, rhaid i chi gofnodi hyn ar wahân a chadw unrhyw dderbynebau.

### 4.4. Derbynebau

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.***

4.4.1 Os nad ydych yn defnyddio blwch casglu wedi'i selio, rhaid i'r casglwr roi a llofnodi derbynneb ar gyfer y swm sydd wedi'i roi.

4.4.2 Os ydych yn casglu ar safle preifat, rhaid i chi roi derbynneb i'r person sydd berchen ar y safle neu sy'n rheoli'r safle os yw'n gofyn am un. Dylai'r dderbynneb gynnwys cyfeiriad y safle, rhif y blwch, y dyddiad a'r swm sydd wedi'i gasglu.

### 4.5. Sieciau

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.***

4.5.1 Rhaid i chi naill ai fancio sieciau neu eu hanfon nhw at eich tŷ cyflawni (os ydych yn defnyddio un) cyn gynted â phosib.

4.5.2 Os ydych yn anfon sieciau i dŷ cyflawni neu sefydliad allanol i'w prosesu, rhaid i chi wneud yn siŵr bod y dull o anfon y siec yn briodol ar gyfer gwerth y siec.

4.5.3 Rhaid i chi beidio â rhoi newid yn gyfnewid am sieciau.

4.5.4 Rhaid i chi beidio â rhoi ad-daliad am rodd siec hyd nes bod y siec wedi clirio a bod yr arian wedi ymddangos yng nghyfrif eich sefydliad.

### 4.6. Sieciau a thalebau elusennau

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.***

Mae cyfrifon sieciau a thalebau yn caniatáu i roddwyr wneud rhoddion fel lwmp swm neu symiau rheolaidd mewn cyfrif y gellir ei ddefnyddio wedyn ar gyfer gwneud rhoddion i elusennau cofrestredig (ond nid sefydliadau elusennol eraill). Bydd yr asiantaeth sy'n rheoli'r cyfrif yn hawlio ac yn ychwanegu Rhodd Cymorth i'r rhodd. Rhoddir llyfr o dalebau neu 'lyfr sieciau' i'r rhoddwr er mwyn rhoi'r arian hwn i'w elusennau o ddewis. Wrth dderbyn y daleb neu'r siec, mae'r elusen sy'n derbyn y rhodd yn cysylltu â'r asiantaeth ac yn trefnu i'r rhodd gael ei throsglwyddo.

4.6.1 **Rhaid** i chi **beidio** ag adennill treth ar y rhodd (swm siec neu daleb yr elusen) os mai chi yw'r elusen sy'n derbyn y rhodd, gan fod y Rhodd Cymorth wedi'i hychwanegu cyn i chi ei derbyn.

4.6.2 Rhaid i chi fancio neu gyfnewid talebau cyn gynted â phosib, yn ddelfrydol y diwrnod gwaith nesaf, oni bai bod yr asiantaeth sy'n rhoi'r talebau yn gofyn i chi wneud fel arall.

### 4.7. Trafodion Cerdyn

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.***

Mae'r adran hon yn berthnasol i drafodion pan fo'r rhoddwr yn bresennol a phan nad yw hefyd. Bydd y camau y mae'n rhaid i chi eu cymryd i wneud yn siŵr bod taliadau yn ddiogel yn amrywio yn dibynnu ar nifer y trafodion a wneir.

4.7.1 Rhaid i chi fodloni Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cerdyn Talu (PCI-DSS).

Am ragor o safonau ar brosesu data, gweler **adran 3 Prosesu data personol (gwybodaeth).**

4.7.2 Rhaid i chi ddefnyddio mesurau diogelwch ychwanegol megis Verified by Visa a 3D Securecode ar gyfer trafodion ar-lein os oes gennych yr adnoddau i wneud hyn.

4.7.3 Os ydych yn talu ffi am drosglwyddo taliadau, rhaid i chi gofnodi cyfanswm y rhodd fel incwm, a chofnodi'r ffi yn eich cyfrifon fel 'gwariant'.

### 4.8. Debyd Uniongyrchol

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.***

Bydd y gweithdrefnau a'r rheolau sy'n ymwneud â debyd uniongyrchol yn amrywio yn dibynnu ar ba fanc yr ydych yn ei ddefnyddio. Mae'r Cynllun Gwarant Debyd Uniongyrchol yn darparu safonau a gwarchodaeth gyson i gwsmeriaid.

4.8.1 Os ydych wedi cofrestru ar gyfer y Cynllun Gwarant Debyd Uniongyrchol, **rhaid** i chi fodloni ei safonau.

### 4.9. Rhodd Cymorth

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.***

Mae Rhodd Cymorth yn caniatáu i elusennau cofrestredig adennill treth ar roddion a wneir gan drethdalwyr y DU. Mewn gwirionedd, mae hyn yn cynyddu swm y rhodd.

4.9.1 **Rhaid** i chi ond hawlio Rhodd Cymorth am rodd os yw holl amodau'r Rhodd Cymorth wedi'u bodloni. Un o'r rhain yw bod **rhaid** i ddatganiad Rhodd Cymorth y rhoddwr fodloni canllawiau CTEM ar Rodd Cymorth.

4.9.2 Os ydych am wneud hawliad rhyddhad treth dan Gynllun Rhoddion Bach Rhodd Cymorth, **rhaid** i chi ond wneud hynny os yw holl amodau'r cynllun wedi'u bodloni.

**Canllawiau pellach**

- Cyllid a Thollau EM: Elusennau: nodiadau canllaw manwl ar sut mae'r system dreth yn gweithredu - Pennod 3: Rhodd Cymorth
- Cyllid a Thollau EM: Elusennau: nodiadau canllaw manwl ar sut mae'r system dreth yn gweithredu - Pennod 8: Cynllun Rhoddion Bach Rhodd Cymorth

# Adran 2:
# Safonau sy’n berthnasol i weithio gydag eraill

Bydd y safonau yn yr adran hon yn berthnasol os yw sefydliad yn gweithio gydag eraill i ymgymryd â chodi arian. Mae hyn yn cynnwys perthnasau rhwng sefydliadau elusennol a:

- gwirfoddolwyr;
- codwyr arian proffesiynol; neu
- gyfranogwyr masnachol a phartneriaid masnachol eraill.

Hefyd, mae’r adran hon yn cynnwys safonau penodol sy’n berthnasol wrth weithio gyda phlant. Gweler y rhestr o eirfa a thermau am ddiffiniadau o’r termau a ddefnyddir.

# 5. Gwirfoddolwyr

Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan bwysig wrth godi arian a chefnogi rhoi i elusennau. Mae'r adran hon yn cynnwys safonau ar weithio gyda chodwyr arian gwirfoddol, pan fo'ch sefydliad yn ymwybodol o'u gweithgareddau.

Mae Deddf Elusennau 1992 a Deddf Buddsoddiad Elusennau ac Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005 yn rhoi hawl i sefydliadau elusennol ymgeisio am orchymyn llys i atal codi arian anawdurdodedig:

- os yw unrhyw berson yn defnyddio dulliau codi arian y mae'r sefydliad elusennol yn gwrthwynebu iddynt; neu
- os yw'r sefydliad elusennol yn credu nad yw person yn berson addas a phriodol i godi arian ar ei ran; neu
- os nad yw'r sefydliad elusennol am gael ei gysylltu ag ymgyrch penodol.

Gall rhai gwirfoddolwyr 'er budd' fod yn codi arian er mwyn codi eu proffil neu er mwyn denu cwsmeriaid drwy gysylltu eu hunain neu eu brand gyda'ch elusen. Os yw'r trefniant gwirfoddolwr 'er budd' yn disgyn o fewn diffiniad perthynas cyfranogwr masnachol, mae rhwymedigaethau cyfreithiol y mae'n **rhaid** i chi eu bodloni (gweler **adrannau 72. i 7.4**).

## 5.1. Safonau sy'n berthnasol i'r holl wirfoddolwyr

*i* ***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol.***

5.1.1 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod unrhyw ganllawiau, gwybodaeth a chefnogaeth yr ydych yn eu rhoi i wirfoddolwyr yn ddigonol ac yn berthnasol i'r math o berthynas ('ar ran' neu 'er budd') sydd gan y gwirfoddolwr gyda chi.

5.1.2 Os yw eich sefydliad elusennol yn gwybod bod gwirfoddolwr yn codi arian, rhaid i chi wneud yn siŵr bod trefniadau priodol yn eu lle er mwyn i arian gael ei drosglwyddo i chi yn gyflym ac yn effeithlon.

5.1.3 Rhaid i chi beidio â gwneud unrhyw daliadau i wirfoddolwyr, ond gallwch ad-dalu eu treuliau iddynt.

5.1.4 Rhaid i chi gymryd yr holl gamau rhesymol i wneud yn siŵr bod gwirfoddolwyr yn cadw at safonau ar ymdrin â rhoddion. Am ragor o safonau ar hyn, **gweler adran 4 Prosesu rhoddion**.

## 5.2. Ystyriaethau penodol wrth weithio gyda gwirfoddolwyr 'ar ran'

*Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol.*

5.2.1 Lle bo hynny'n briodol, **rhaid** i chi wirio bod y gwirfoddolwyr 'ar ran' sy'n codi arian yn addas i weithredu fel pobl gyfrifol ar eich rhan. Rhaid i chi:

- fodloni eich dyletswyddau cyfreithiol ar ddefnyddio gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Disclosure Scotland neu Access NI; ac
- ymgymryd â diwydrwydd dyladwy i wirio os yw pob gwirfoddolwr yn 'berson addas a phriodol' i ymgymryd â chasgliadau tŷ i dŷ.

Nid oes diffiniad cyfreithiol o 'berson addas a phriodol'. Fodd bynnag, mae canllawiau Swyddfa'r Cabinet ar orchmynion eithrio cenedlaethol ar gyfer casgliadau tŷ i dŷ yn amlygu'r angen i ystyried 'euogfarnau o'r gorffennol neu ymchwiliadau cyfredol' sy'n ymwneud â'r gwirfoddolwr fel enghraifft o sut i wirio a ydyw'n addas ac yn briodol.

5.2.2 **Rhaid** i chi storio gwybodaeth gyswllt gwirfoddolwyr a data personol arall mewn ffordd sy'n bodloni'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

Am ragor o safonau ar brosesu data, gweler **adran 3 Prosesu data personol (gwybodaeth)**.

5.2.3 Rhaid i chi roi unrhyw hyfforddiant a chefnogaeth y mae ar y gwirfoddolwyr eu hangen fel y gallent ymgymryd â'u rôl mewn ffordd sy'n gyfreithiol, yn agored, yn onest ac yn barchus.

## 5.3. Ystyriaethau penodol wrth weithio gyda gwirfoddolwyr 'er budd'

*Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol.*

5.3.1 Os ydych yn ymwybodol o'u gweithgareddau ymlaen llawn, rhaid i chi ddweud wrth wirfoddolwyr 'er budd':

- bod rhaid iddynt ddefnyddio'r dywediad 'er budd' eich sefydliad elusennol wrth godi arian; ac
- eu bod yn gyfrifol am drefnu pob agwedd ar eu codi arian ac na fyddech yn derbyn unrhyw atebolrwydd yn ymwneud â'u codi arian.

## 6. Codi arian pan fo plant ynghlwm

Mae hi’n bwysig cymryd gofal penodol pan fo plant ynghlwm â chodi arian, p’un a ydynt yn godwyr arian neu’n rhoddwyr. Mae’r adran hon yn cynnwys safonau ar gyfyngiadau isafswm oed sy’n berthnasol wrth godi arian, a safonau i warchod plant a’u data.

### 6.1. Cyfrifoldebau sy’n ymwneud â chodi arian pan fo plant ynghlwm

***Yn yr adran hon, golyga ‘chi’ sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.***

Mae rhai gweithgareddau na all plant a phobl ifanc ymgymryd â nhw. (Mae’r cyfyngiad oed yn dibynnu ar y gweithgaredd ac ymhle y mae’n cael ei gwneud.) Mae’r gweithgareddau hyn yn cynnwys:

- casgliadau ar y stryd ac o dŷ i dŷ;
- loterïau a rafflau; a
- digwyddiadau sy’n cynnwys alcohol.

6.1.1 **Rhaid** i chi gadw at unrhyw gyfyngiadau oed perthnasol a osodir drwy’r gyfraith wrth drefnu gweithgareddau codi arian.

6.1.2 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod eich staff yn deall eu cyfrifoldebau a’r hyn y mae’n rhaid iddynt ei wneud mewn perthynas â threfnwyr gweithgareddau, y plant sy’n cymryd rhan, a rhieni neu warchodwyr y plant hynny.

6.1.3 Rhaid i chi roi canllawiau i’r plant neu’r bobl ifanc sy’n cymryd rhan, a’u rhieni neu eu gwarchodwyr, ynghylch sut i ymgymryd â chodi arian yn ddiogel ac yn gyfreithiol.

6.1.4 Rhaid i chi beidio â rhoi cyfrifoldeb cyffredinol i blant dan 16 oed i drin arian neu gyfrifoldeb am gyfrif arian sydd wedi’i gasglu.

6.1.5 **Rhaid** i chi ddefnyddio’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (yng Nghymru a Lloegr), Disclosure Scotland (yn yr Alban) ac Access NI (yng Ngogledd Iwerddon) er mwyn ymgymryd â gwiriadau ar unrhyw oedolion sy’n gweithio gyda phlant, os yw’r gyfraith yn dweud bod **rhaid** i chi wneud hyn.

6.1.6 Rhaid i chi beidio â chysylltu â phlant ar eiddo ysgolion oni bai bod gennych gymeradwyaeth y pennaeth neu aelod o staff yr ysgol sydd wedi’i ddewis gan y pennaeth, a rhaid i chi ddilyn unrhyw weithdrefnau yr ydych wedi’u cytuno gyda nhw.

6.1.7 Rhaid i chi gael caniatâd cyn tynnu neu gyhoeddi lluniau o blant. Os yw’r plentyn dros 13 oed gall roi’r caniatâd ei hun. Os yw dan 13, rhaid i chi gael caniatâd gan ei riant neu warchodwr.

### Gofynion pellach ar gyfer Cymru a Lloegr

6.1.8 **Rhaid** i chi **beidio** â chaniatáu i unrhyw un dan 16 oed ymgymryd â chasgliadau tŷ i dŷ, oni bai bod y casgliad yn digwydd yn Ninas Llundain, ac os felly, **rhaid** i chi **beidio** â chaniatáu i unrhyw un dan 18 oed gymryd rhan. **Rhaid** i chi **beidio** â chaniatáu i unrhyw un dan 16 oed ymgymryd â chasgliadau stryd, ac eithrio yn Llundain lle, os oes gennych ganiatâd arbennig, gallwch ddefnyddio casglwyr stryd sy'n 14 oed neu drosodd.

### Gofynion pellach ar gyfer yr Alban

6.1.9 Os yw casgliad stryd yn gymwys fel casgliad elusennol cyhoeddus, **rhaid** i chi **beidio** â chaniatáu i blant dan 14 oed gymryd rhan, a **rhaid** i chi **beidio** â chaniatáu i blant dan 16 oed ymgymryd â chasgliadau tŷ i dŷ.

### Gofynion pellach ar gyfer Gogledd Iwerddon

6.1.10 **Rhaid** i chi **beidio** â chaniatáu i unrhyw un dan 16 oed ymgymryd â chasgliadau stryd na chasgliadau tŷ i dŷ. Yr eithriad i hyn yw os yw casgliad tŷ i dŷ yn digwydd ledled Gogledd Iwerddon a'ch bod yn sefydliad ieuenctid y mae'r Adran Cymunedau wedi'i gymeradwyo i ymgymryd â'r casgliad dan orchymyn eithrio, ac os felly gallwch gael casglwyr sy'n 12 oed a throsodd.

Am ragor o safonau ar brosesu data, gweler **adran 3 Prosesu data personol (gwybodaeth)**.

### 6.2. Plant a diogelu data

***Yn yr adran hon mae 'chi' yn golygu sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.***

Nid yw'r gyfraith yn gosod isafswm oed ar gyfer pan all plentyn roi caniatâd i sefydliad brosesu ei ddata. Fodd bynnag, fel canllaw i ddatblygu eich polisïau ar ganiatâd, dylech ystyried bod Erthygl 8 y GDPR yn datgan bod rhaid i blentyn fod o leiaf 13 oed er mwyn rhoi caniatâd i sefydliad brosesu ei ddata personol er mwyn darparu 'gwasanaethau cymdeithas gwybodaeth' (mewn geiriau eraill, gwasanaeth y mae person yn gofyn i sefydliad ei ddarparu'n electronig, o bell, yn gyfnewid am ffi).

Am ragor o safonau ar brosesu data, gweler **adran 3 Prosesu data personol (gwybodaeth)**.

6.2.1 Os ydych yn dibynnu ar ganiatâd fel y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data plentyn, **rhaid** i chi gael caniatâd ei riant neu ei warchodwr ar gyfer hyn hyd nes bod y plentyn yn medru rhoi caniatâd gwybodus ei hun.

6.2.2 Rhaid i chi beidio â rhannu unrhyw ddata yr ydych yn ei gasglu gan unrhyw un dan 14 oed heb ganiatâd gan ei riant neu warchodwr, oni bai bod rhaid i chi wneud hynny yn ôl y gyfraith (er enghraifft, yn ystod ymchwiliad heddlu).

## 7. Codwyr arian proffesiynol, cyfranogwyr masnachol a phartneriaid

Pan fo sefydliadau elusennol yn gweithio gyda sefydliadau allanol i godi arian, mae hi'n bwysig bod dealltwriaeth gyffredin o'r hyn y mae'r trefniant hwn yn ei olygu yn ymarferol. Mae'r adran hon yn cynnwys yr hyn sydd angen ei amlinellu fel rhan o gytundebau codi arian er mwyn gwneud yn siŵr bod disgwyliadau'n glir a'r hyn y mae'n rhaid i godwyr arian trydydd parti a delir ei ddweud wrth roddwyr wrth godi arian ar ran sefydliad elusennol.

Dalier sylw: Yng **Ngogledd Iwerddon**, nid oes rhwymedigaeth sy'n ymwneud â chodwyr arian proffesiynol neu gyfranogwyr masnachol. (Fodd bynnag, gall sefydliadau elusennol sy'n codi arian yng Ngogledd Iwerddon benderfynu dilyn gofynion cyfreithiol Cymru a Lloegr a'r Alban fel arfer dda.)

### 7.1. Diwydrwydd dyladwy a gwrthdaro buddiannau

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol oni bai ein bod yn dweud fel arall wrthych.***

7.1.1 Cyn mynd i gytundeb gyda chodwr arian proffesiynol neu bartner masnachol rhaid i chi ymgymryd â gwiriadau priodol arnynt (yn cynnwys ar eu sefyllfa ariannol a'u henw da) er mwyn gwneud yn siŵr y gallwch fod yn hyderus eu bod yn medru gwneud yr hyn yr ydych yn disgwyl iddynt ei wneud ac na fydd eich perthynas gyda nhw yn difrodi eich enw da. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth weithio gyda sefydliadau nad ydynt yn seiliedig yn y DU.

7.1.2 Rhaid i chi a'r codwyr arian trydydd parti a phartneriaid masnachol roi manylion llawn unrhyw wrthdaro buddiannau posib, canfyddadwy neu wirioneddol i'ch gilydd yr ydych yn ymwybodol ohonynt neu'n dod yn ymwybodol ohonynt, naill ai:

- ar y cam diwydrwydd dyladwy; neu
- tra'r ydych yn gweithio gyda'ch gilydd.

7.1.3 Os oes gan eich codwr arian trydydd parti wrthdaro buddiannau, neu gall fod ganddo, rhaid i chi beidio â mynd i gytundeb gydag ef heb ganiatâd y person neu'r sefydliad y mae ei fuddiannau'n gwrthdaro gyda'i rai ef. Os oes gwrthdaro buddiannau sylweddol, rhaid i'r naill barti a'r llall ystyried a yw'n briodol i'r berthynas barhau.

7.1.4 Rhaid i godwyr arian trydydd parti ond honni fod ganddynt brofiad, cymwysterau a chyflawniadau os oes ganddynt brawf i gefnogi hyn.

7.1.5 Os ydych yn rhoi cynnwys codi arian ar wefan codwr arian trydydd parti neu bartner masnachol, rhaid i chi ddefnyddio'r un gofal ag y byddech wrth ei roi ar eich gwefan eich hun.

Am ragor o safonau ar lwyfannau digidol, gweler **adran 10 Digidol**.

## 7.2. Contractau a chytundebau

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol oni bai ein bod yn dweud fel arall wrthych.***

7.2.1 Rhaid i chi gael cytundeb ysgrifenedig yn ei le gydag unrhyw godwr arian trydydd parti a delir neu bartner masnachol yr ydych yn gweithio gyda nhw i godi arian. Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, **rhaid** i chi wneud hyn os yw'r codwr arian trydydd parti a delir neu bartner masnachol yr ydych yn gweithio gyda nhw yn disgyn o fewn diffiniad cyfreithiol o 'godwr arian proffesiynol' neu 'gyfranogwr masnachol'.

Gweler isod am ragor o fanylion ynghylch yr hyn y mae'n **rhaid** i gytundebau a chontractau 'codwr arian proffesiynol' neu 'gyfranogwr masnachol' eu cynnwys.

7.2.2 Gall rheoliadau ar gontractau wahaniaethu rhwng Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. **Rhaid** i chi fodloni'r rheoliadau perthnasol ym mhob ardal.

7.2.3 **Rhaid** i chi wneud yn siŵr bod unrhyw drydydd parti yr ydych yn gweithio gyda nhw yn cadw at ofynion cyfraith diogelu data a'r Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Cyfarwyddeb yr UE) 2003, fel sydd wedi'i amlinellu yn y cod, yn cynnwys gofynion y Gwasanaeth Dewis Ffôn (TPS), waeth yn lle mae'r trydydd parti wedi'i leoli neu'n gweithredu.

7.2.4 Rhaid i chi gael gweithdrefnau adolygu yn y cytundeb. Rhaid i chi ystyried perfformiad y codwr arian trydydd parti yn yr adolygiadau hyn a phenderfynu a yw camau pellach yn briodol (megis adolygu'r cytundeb neu weithredu unrhyw gymalau cosb a allai fod yn rhan o'r cytundeb). Yng Nghymru a Lloegr, **rhaid** i chi fodloni'r safon hwn.

Am ragor o safonau ar drefniadau monitro rhesymol fel rhan o gontract neu gytundeb, gweler **adran 7.3 Monitro bod codwyr arian yn bodloni'r cod**.

7.2.5 Os bydd y codwr arian trydydd parti yn gwerthu nwyddau neu wasanaethau, rhaid cael cytundeb ysgrifenedig sy'n llywodraethu'r berthynas rhwng y sefydliad elusennol a'r codwr arian trydydd parti (hyd yn oed os nad oes angen hyn mewn gwirionedd dan y deddfau perthnasol).

- Cyn i'r cytundeb ddechrau, rhaid iddo gael ei ystyried, ei negodi a'i gytuno gan gynrychiolwyr awdurdodedig y sefydliad elusennol a'r codwr arian trydydd parti ill dau.
- Rhaid i'r sefydliad elusennol a'r codwr arian trydydd parti gymeradwyo a deall y cytundeb.

7.2.6 Rhaid i unrhyw newidiadau i delerau'r contract fod yn unol â'r telerau yn y cytundeb sy'n nodi sut ddylai unrhyw newid gael ei weithredu.

### Cytundebau gyda chodwyr arian proffesiynol

Dalier sylw: Yng **Ngogledd Iwerddon** nid oes deddfwriaeth sy'n ymwneud â chodwyr arian proffesiynol. (Fodd bynnag, gall sefydliadau gwirfoddol sy'n codi arian yng Ngogledd Iwerddon benderfynu dilyn gofynion cyfreithiol Cymru a Lloegr a'r Alban fel arfer dda.)

7.2.7 Cyn gofyn am arian neu eiddo arall, **rhaid** i godwr arian proffesiynol gael cytundeb ysgrifenedig yn ei le gyda chi. **Rhaid** i'r cytundeb hwn gael ei lofnodi gennych chi neu ar eich rhan chi a'r codwr arian proffesiynol.

7.2.8 **Rhaid** i'r cytundeb roi:

- enwau a chyfeiriadau'r holl bobl a'r sefydliadau y mae'r cytundeb yn ymwneud â nhw (y partïon i'r cytundeb);
- y dyddiad pan lofnododd pob parti'r cytundeb a hyd y cytundeb;
- unrhyw delerau sy'n ymwneud â dod â'r cytundeb i ben yn gynnar neu wneud newidiadau iddo;
- datganiad o brif nodau'r cytundeb a sut bydd y partïon yn cyflawni'r nodau hynny;
- telerau ar gyfer talu ffioedd a threuliau i'r codwr arian proffesiynol; ac
- os oes mwy nag un elusen ynghlwm, manylion sut caiff yr arian a godir ei rannu rhyngddynt.

**Cymru a Lloegr**

7.2.9 Hefyd, rhaid i gytundebau codi arian rhwng sefydliadau elusennol sydd wedi'u sefydlu yng Nghymru a Lloegr a chodwyr arian gynnwys:

- manylion unrhyw gynllun neu safon codi arian rheoleiddiol gwirfoddol y mae'r codwr arian proffesiynol wedi cytuno i gadw atynt;
- sut fydd y sefydliad masnachol yn gwarchod y cyhoedd rhag ymyrraeth afresymol ar breifatrwydd y person, cysylltiadau sy'n afresymol o daer neu bwysau gormodol i roi; a
- manylion sut fydd y sefydliad elusennol yn monitro'r codwr arian proffesiynol i wneud yn siŵr ei fod yn cadw at y cytundeb, fel sydd wedi'i amlinellu yn adran 59 Deddf Elusennau 1992 fel y'i diwygiwyd.

Gallai hyn gynnwys y mesurau monitro sydd wedi'u hamlinellu yn **7.3 Monitro bod codwyr arian yn bodloni'r cod**. Dylai telerau'r cytundeb ganiatáu i chi ddarllen a, lle bo hynny'n angenrheidiol, adolygu unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol sydd gan y codwr arian proffesiynol yn eu lle sy'n berthnasol i warchod y cyhoedd. Gallai hyn gynnwys polisïau ar bobl mewn amgylchiadau bregus, ymdrin â chwynion a chwythu'r chwiban, deunyddiau hyfforddi a chod ymarfer staff.

7.2.10 Os yw codwr arian trydydd parti yn disgyn o fewn diffiniad 'codwr arian proffesiynol', rhaid i'r cytundeb gynnwys manylion y datganiad erfyniad y mae'n rhaid iddo ei roi a'r ffioedd a'r treuliau y telir i'r codwr arian proffesiynol.

7.2.11 Rhaid i gytundebau gyda chodwyr arian proffesiynol gynnwys disgwyliadau clir a realistig o'r gweithgareddau sydd i'w gwneud, y gyllideb, yr adnoddau, yr amseru a'r deilliannau posib.

7.2.12 Rhaid i chi gytuno ar yr holl weithdrefnau gyda chodwyr arian proffesiynol cyn i'r codi arian ddigwydd, yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer prosesu manylion rhoddwyr a chynhyrchu a defnyddio deunyddiau codi arian.

7.2.13 Rhaid i chi wneud yn siŵr ei bod hi'n glir pwy sydd berchen ar hawlfraint yr holl ddeunyddiau a chronfeydd data sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd codi arian, cyn ymgymryd â'r gweithgaredd.

7.2.14 Rhaid i chi roi'r wybodaeth y maent ei hangen ynghylch nodau'ch sefydliad elusennol i godwyr arian proffesiynol, a chanllawiau clir ynghylch eu hymddygiad a'r rhyddhad treth gwahanol sy'n berthnasol.

## Cytundebau gyda chyfranogwyr masnachol

Dalier sylw: Yng **Ngogledd Iwerddon** nid oes rhwymedigaeth sy'n ymwneud â chyfranogwyr masnachol. (Fodd bynnag, gallai sefydliadau elusennol sy'n codi arian yng Ngogledd Iwerddon benderfynu dilyn gofynion cyfreithiol Cymru a Lloegr a'r Alban fel arfer dda.)

7.2.15 Os yw trefniant gyda phartner masnachol yn disgyn o fewn diffiniad 'cyfranogwr masnachol', **rhaid** i'r cyfranogwr masnachol gael cytundeb ysgrifenedig yn ei le gyda'r sefydliad elusennol y mae'n bwriadu codi arian ar ei gyfer, a **rhaid** cynnwys gwybodaeth benodol yn hwn.

7.2.16 Mae hi'n groes i'r gyfraith i gyfranogwr masnachol hawlio, fel rhan o fenter hyrwyddo, y bydd yn rhoi arian i sefydliad elusennol, oni bai bod yr hawl yn unol â chytundeb ysgrifenedig sydd ganddo yn ei le gyda'r sefydliad elusennol y mae'n codi arian ar ei gyfer. **Rhaid** i'r cytundeb fod yn ysgrifenedig a'i lofnodi gan neu ar ran y cyfranogwr masnachol a'r sefydliad elusennol y mae'n codi arian ar ei gyfer.

7.2.17 **Rhaid** i'r cytundeb roi:

- enwau a chyfeiriadau'r holl bartïol i'r cytundeb;
- y dyddiad pan lofnododd pob parti'r cytundeb a hyd y cytundeb;
- unrhyw delerau sy'n ymwneud â dod â'r cytundeb i ben yn gynnar neu wneud newidiadau iddo;
- datganiad o brif nodau'r cytundeb a sut bydd y partïon yn cyflawni'r nodau hynny;
- telerau ar gyfer talu ffioedd a threuliau i'r codwr arian proffesiynol; ac
- os oes mwy nag un sefydliad elusennol ynghlwm, manylion sut caiff yr arian a godir ei rannu rhyngddynt;
- manylion pa gyfran o bris y nwyddau neu'r gwasanaethau a gaiff ei rhoi i chi neu faint o arian fydd y cyfranogwr masnachol yn ei roi mewn perthynas â gwerthu neu gyflenwi'r nwyddau neu'r gwasanaeth; a
- faint fydd y cyfranogwr masnachol yn ei dderbyn fel taliad neu ar gyfer treuliau.

**Canllawiau pellach**

- Swyddfa'r Cabinet: Canllawiau ar Ran 2 Deddf Elusennau 1992 – am ganllawiau ar ofynion cyfreithiol ar gyfer codwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol
- Rheoleiddiwr Codi Arian: Deddf Elusennau (Gwarchod a Buddsoddiad Cymdeithasol) 2016: gofynion adrodd am godi arian - am ganllawiau ar adran 13 o'r ddeddf

## 7.3. Monitro bod codwyr arian yn bodloni'r cod

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol oni bai ein bod yn dweud fel arall wrthych.***

7.3.1 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod unrhyw godwyr arian trydydd parti neu bartneriaid masnachol yr ydych yn gweithio gyda nhw i godi arian yn cadw at y cod.

7.3.2 Rhaid i chi wneud pob ymdrech resymol i fonitro a yw'r codwyr arian trydydd parti a delir neu'r partneriaid masnachol yn cadw at y cytundeb sydd gennych gyda nhw (yn cynnwys amodau'r contract sy'n ymwneud â chadw at y cod).

Er diben y cod hwn, mae gwneud pob ymdrech resymol yn golygu bod rhaid i chi ymgymryd â monitro effeithiol a chymesur. Gallai hyn gynnwys:

- gwneud yn siŵr bod eich gwerthoedd yn cael eu hadlewyrchu yn yr isod:
  - polisïau, amcanion a dangosyddion perfformiad y codwr arian trydydd parti a delir neu'r partner masnachol; a
  - thaliadau anogaeth y codwr arian trydydd parti a delir neu'r partner masnachol, os yw'r rhain yn berthnasol;
- dewis person a enwir sydd â chyfrifoldeb arweiniol dros fonitro bod gofynion y gyfraith a'r cod yn cael eu bodloni;
- datblygu gofynion adrodd clir gyda'r sefydliad arall ac adolygu eu cynnydd yn rheolaidd yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt yn ymwneud â pherfformiad, sicrwydd ansawdd a'u cyfrifoldebau dan y gyfraith a'r cod;
- diffinio sut gwneir y gwaith monitro, yn cynnwys pa mor aml, yn seiliedig ar asesiad o'r risg sydd ynghlwm â'r gweithgaredd codi arian;
- cymeradwyo ac adolygu hyfforddiant ar gadw at y cod yn rheolaidd, yn cynnwys gwylio'r hyfforddiant hwn yn cael ei gyflwyno yn aml;
- awdurdodi cynnwys a deunyddiau ar gyfer hyfforddiant;
- ymgymryd â monitro galwadau, siopa cudd, ymweliadau safle neu gysgodi gyda chodwyr arian y sefydliad arall yn rheolaidd (a chofnodi canlyniadau hyn);
- amlinellu polisi clir ar gyfer ymdrin â chwynion ac adborth, yn cynnwys amserlenni, y drefn ar gyfer gwneud cwyn yn fewnol a mynd â chŵyn ymhellach, a'r drefn ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth rhwng eich sefydliad elusennol a'r sefydliad arall;
- amlinellu gweithdrefn fewnol glir ar gyfer aelodau staff a gwirfoddolwyr i adrodd am unrhyw bryderon sydd ganddynt ynghylch ymarfer codi arian eu sefydliad; a
- chytuno ar gynllun gweithredu gyda'r sefydliad arall i ymdrin ag unrhyw bryderon sy'n cael eu hadnabod.

### Canllawiau pellach

- Comisiwn Etholiadau Cymru a Lloegr: CC26 canllawiau ar elusennau a rheoli risg
- Sefydliad Siartredig Codi Arian: Partneriaethau Llwyddiannus ar gyfer codi arian cynaliadwy – am ganllawiau ar drefniadau monitro

**Gofynion pellach ar gyfer Cymru a Lloegr**

7.3.3 **Rhaid** i godwr arian proffesiynol neu gyfranogwr masnachol sydd â chytundeb gyda chi ganiatáu i chi, ar eich cais, archwilio eu llyfrau, eu dogfennau a'u cofnodion sy'n ymwneud â'ch sefydliad elusennol.

7.3.4 **Rhaid** i godwr arian proffesiynol neu gyfranogwr masnachol basio arian i chi cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, ac o fewn 28 diwrnod beth bynnag, oni bai bod ganddynt esgus rhesymol.

**Gofynion pellach ar gyfer yr Alban**

7.3.5 Os oes gan elusen yn yr Alban gytundeb sy'n ymdrin â gweithgareddau partner masnachol sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr (neu os oes gan elusen yng Nghymru neu Lloegr gytundeb sy'n ymdrin â gweithgareddau partner masnachol sy'n gweithredu yn yr Alban), **rhaid** iddo wneud yn siŵr bod y contract yn bodloni gofynion cyfreithiol y wlad lle bydd y codi arian yn digwydd.

7.3.6 Yn yr Alban, os yw'r contract gyda chodwr arian proffesiynol neu gyfranogwr masnachol, **rhaid** iddo egluro sut ellir newid y contract. **Rhaid** iddo gynnwys amodau sy'n dweud bod rhaid i'r newid fod yn ysgrifenedig ac sy'n atal un parti yn unig rhag gwneud newid anffafriol.

7.3.7 **Rhaid** i godwr arian proffesiynol neu gyfranogwr masnachol basio arian i chi yn unol â'r Rheoliadau Elusennau a Chodi Arian Dyngarol (Yr Alban) 2009. Yn yr Alban, **rhaid** i'r arian gael ei basio ymlaen cyn gynted ag sy'n rhesymol bosib, ac o fewn 28 diwrnod o'i dderbyn beth bynnag. Nid yw'r gyfraith yn yr Alban yn caniatáu i chi na'r codwr arian proffesiynol na'r cyfranogwr masnachol gytuno fel arall, ac ni ellir ymestyn yr amserlen hon hyd yn oed os oes gan y codwr arian esgus rhesymol dros beidio â rhoi'r arian i chi ar amser.

## 7.4. Datganiadau erfyniad (datgelu) ar gyfer codwyr arian trydydd parti a delir a chyfranogwyr masnachol

*Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol oni bai ein bod yn dweud fel arall wrthych.*

7.4.1 **Rhaid** i godwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol wneud datganiad erfyniad wrth ofyn am arian neu eiddo arall neu ddweud y caiff arian o fenter hyrwyddo masnachol ei dalu i sefydliad elusennol neu ei ddefnyddio er dibenion elusennol, dyngarol neu fuddiannol.

Dalier sylw: Yng **Ngogledd Iwerddon**, nid oes deddfwriaeth sy'n ymwneud â chodwyr arian proffesiynol neu gyfranogwyr masnachol. (Fodd bynnag, gallai sefydliadau elusennol sy'n codi arian yng Ngogledd Iwerddon benderfynu dilyn gofynion cyfreithiol Cymru a Lloegr a'r Alban fel arfer dda.)

**Cymru a Lloegr**

**Codwyr arian proffesiynol**

7.4.2 **Rhaid** i godwyr arian proffesiynol wneud datganiad erfyniad bob tro maent yn gofyn am arian neu eiddo arall ar eich rhan neu er dibenion elusennol, dyngarol neu fuddiannol. Mae hyn yn wir hyd yn oed os nad yw'r arian yn rhodd pur ond yn cael ei roi yn gyfnewid am rywbeth.

7.4.3 Rhaid i'r codwr arian wneud y datganiad erfyniad naill ai cyn i'r rhoddwr roi unrhyw arian neu cyn i'r codwr arian ofyn am unrhyw fanylion ariannol yn ymwneud â'r trafodion (p'un bynnag sydd gynharaf).

7.4.4 **Rhaid** i godwyr arian proffesiynol nodi:

- enw'r sefydliad elusennol y maent yn ffonio ar ei ran;
- os oes mwy nag un sefydliad elusennol, manylion ynghylch pa gyfran o'r arian fydd pob un yn ei dderbyn; a
- sut bydd eu taliad (yn cynnwys unrhyw daliad mewn nwyddau er enghraifft, talebau rhodd) mewn cysylltiad â'r apêl yn cael ei gyfrifo a swm y taliad hwnnw (neu, os nad ydynt yn gwybod y swm gwirioneddol, amcangyfrif o'r swm sydd wedi'i gyfrifo mor gywir â phosib). Byddai rhaid i gyflogeion codwr arian proffesiynol ddarparu datganiad ynghylch y taliad y bydd eu cyflogwr yn ei dderbyn mewn perthynas â'r apêl, nid y taliad y byddan nhw'n bersonol yn ei dderbyn gan y codwr arian proffesiynol (eu cyflogwr).

Mae peidio â gwneud y datganiad erfyniad cywir yn drosedd. Mae Swyddfa'r Cabinet wedi cyhoeddi '[Codi Arian Elusennol: Canllaw ar Ran 2 o Ddeddf Elusennau 1992 (2008)]' sy'n cynnwys geiriad enghreifftiol o ddatganiadau. Am ragor o ganllawiau manwl, dylech dderbyn cyngor proffesiynol.

7.4.5 Mewn achos o godi arian lle mae'r codwr arian yn gofyn am rodd ar lafar ond nad yw'r person y maent yn gofyn iddo yn bresennol (megis codi arian dros y ffôn), **rhaid** i'r codwr arian proffesiynol wneud y datganiad priodol yn ystod y sgwrs. Hefyd, o fewn saith diwrnod i'r rhoddwr wneud unrhyw daliad o £100 neu fwy, **rhaid** i'r codwr arian proffesiynol roi datganiad ysgrifenedig iddynt sy'n cynnwys datganiad erfyniad a manylion eu hawl i ad-daliad neu ganslo'r taliad.

7.4.6 **Rhaid** i godwr arian proffesiynol gadw at ofynion penodol yn ymwneud â'r wybodaeth y mae'n rhaid iddynt ei rhannu yng nghyswllt apeliadau teledu, radio a ffôn, yn cynnwys hawliau'r rhoddwyr i ganslo rhodd a derbyn ad-daliad.

**Cyfranogwyr masnachol**

7.4.7 **Rhaid** i gyfranogwyr masnachol wneud datganiad erfyniad pryd bynnag (a lle bynnag) y mae'n cael ei ddatgan neu ei awgrymu yng nghwrs menter hyrwyddo fasnachol y caiff arian ei dalu i un neu fwy o sefydliadau elusennol neu ei ddefnyddio er dibenion elusennol, dyngarol neu fuddiannol.

7.4.8 **Rhaid** i'r datganiad erfyniad nodi:

- enw'r sefydliad neu'r sefydliadau elusennol;
- os oes mwy nag un sefydliad elusennol, manylion faint o'r arian gaiff ei rannu rhyngddynt; ac
- y swm (neu, os nad yw'n bosib cyfrifo'n gywir ymlaen llaw, y swm y credir sydd mor gywir â phosib) o ba un bynnag o'r isod sy'n berthnasol.
  - Swm cost y nwyddau a'r gwasanaethau a gaiff eu rhoi neu eu defnyddio er budd y sefydliad neu'r sefydliadau elusennol
  - Swm unrhyw enillion eraill o'r hyrwyddiad a gaiff eu rhoi neu eu defnyddio er budd y sefydliad neu'r sefydliadau elusennol

- Swm y rhoddion a wneir yng nghyswllt gwerthu neu gyflenwi nwyddau a gwasanaethau a gaiff eu rhoi neu eu defnyddio er budd sefydliad neu sefydliadau elusennol.

7.4.9 Yn achos codi arian gan gyfranogwyr masnachol, os yw cyfranogwr masnachol yn gofyn am roddion ar lafar ond nad yw'r person y maent yn gofyn iddo yn bresennol, **rhaid** i'r cyfranogwr masnachol wneud y datganiad erfyniad priodol yn ystod y sgwrs. Hefyd, o fewn saith diwrnod i'r rhoddwr wneud unrhyw daliad o £100 neu fwy, **rhaid** i'r cyfranogwr masnachol roi datganiad ysgrifenedig iddynt yn cynnwys datganiad erfyniad a manylion eu hawl i ad-daliad neu i ganslo'r taliad.

**Yr Alban**

7.4.10 Yn yr Alban, mae'r safonau ar ddatganiadau erfyniad yn berthnasol i godwyr arian proffesiynol sy'n gofyn am roddion, cyfranogwyr masnachol sy'n gwneud sylwadau a chodwyr arian buddiannol (ac eithrio gwirfoddolwyr) sy'n ymgymryd â chodi arian buddiannol, a **rhaid** iddynt eu dilyn. Gweler y rhestr o eirfa a thermau am ddiffiniad o sefydliad buddiannol a chodi arian buddiannol yng nghyd-destun cyfraith yr Alban.

7.4.11 **Rhaid** i godwyr arian proffesiynol, cyfranogwyr masnachol a chodwyr arian buddiannol (ac eithrio gwirfoddolwyr):

- roi enw'r sefydliad buddiannol a fydd yn elwa;
- os oes mwy nag un sefydliad buddiannol, roi manylion sut caiff yr arian a godir ei rannu rhyngddynt;
- os yw'r arian er dibenion elusennol, buddiannol neu ddyngarol cyffredinol (yn hytrach nag ar gyfer sefydliad buddiannol penodol), roi manylion sut byddant yn penderfynu sut i ddosbarthu'r arian; a
- dweud yn ysgrifenedig os ydynt yn cael eu talu (oni bai eu bod yn godwyr arian buddiannol ac yn gyflogai neu'n asiant i'r sefydliad buddiannol dan sylw neu'n gwmni sy'n gysylltiedig ag ef, a'u bod yn ymgymryd â'r codi arian).

7.4.12 Hefyd, rhaid i Godwyr arian Proffesiynol a chyfranogwyr masnachol gadw at y safonau ychwanegol a ganlyn.

- Os ydych yn gwneud y datganiad erfyniad ar lafar (ond nid drwy siarad yn uniongyrchol â'r person y mae wedi'i gyfeirio ato ac yn ei bresenoldeb) neu yng nghwrs rhaglen radio neu deledu, **rhaid** i chi egluro hawl y rhoddwr i ad-daliad neu i ganslo'r cytundeb dan y Rheoliadau Elusennau a Chodi Arian Dyngarol (Yr Alban) 2009.
- Os ydych yn cael eich talu am y gweithgaredd, rhaid i chi ddweud sut caiff eich taliad ei benderfynu a datgan:
  - y swm (neu amcangyfrif o'r swm) y cewch eich talu fel codwr arian proffesiynol; neu
  - y swm (neu amcangyfrif o'r swm) o'r arian a wneir o werthiannau neu o'r fenter hyrwyddo y byddwch chi, fel cyfranogwr masnachol, yn ei ddefnyddio ar gyfer y sefydliad neu ddiben buddiannol, neu swm y rhodd (neu roddion) a gaiff eu gwneud.
- Os ydych yn darparu'r datganiad erfyniad ynghylch eich tâl ar lafar, **rhaid** i chi:
  - os ydych yn gwneud y datganiad wyneb yn wyneb, ddweud wrth unrhyw berson sy'n gwneud taliad bod gennych y wybodaeth am eich tâl ar gael yn ysgrifenedig pe byddent am ei weld; neu
  - os nad ydych yn gwneud y datganiad wyneb yn wyneb, dweud wrth unrhyw berson sy'n gwneud taliad bod gennych y wybodaeth am eich tâl ar gael yn ysgrifenedig ac y byddwch yn ei ddarparu pe byddent yn gofyn amdano.

Mae'n drosedd i godwr arian proffesiynol neu gyfranogwr masnachol fethu cadw at unrhyw rai o'r amodau hyn, a gall ymddiriedolwyr elusen fod wedi torri eu dyletswydd o ofal os nad ydynt yn gwneud datganiadau lle bo hynny'n briodol. Cewch ragor o wybodaeth a chanllawiau gan Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban (OSCR) neu dylech ofyn am gyngor proffesiynol.

7.4.13 Rhaid i chi wneud y datganiad naill ai cyn i'r rhoddwr roi arian neu cyn i chi ofyn am unrhyw fanylion ariannol yn ymwneud â'r rhodd (p'un bynnag sydd gynharaf).

### 7.5. Ffioedd a thaliadau

*Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol oni bai ein bod yn dweud fel arall wrthych.*

Mae'r safonau a ganlyn yn berthnasol ynghyd â'r safonau cyffredinol yn **adran 2.5 Talu codwyr arian**.

7.5.1 Rhaid i godwyr arian trydydd parti nad ydynt yn disgyn o fewn diffiniad cyfreithiol codwr arian proffesiynol ddatgan y swm gwirioneddol a'r ffordd y caiff y taliad ei gyfrifo mewn unrhyw gynnig neu gytundeb a gwneud yr holl ffioedd, treuliau a chostau cysylltiedig eraill, sut caiff eu ffioedd eu cyfrifo a'r amserlen ar gyfer taliadau, yn gwbl glir.

7.5.2 Os yw'r cytundeb yn caniatáu i lefelau taliadau amrywio, rhaid rhoi cyfiawnhad eglur am hyn mewn cytundebau sy'n cyfeirio at yr amgylchiadau penodol lle gall lefelau taliadau gwahanol fod yn berthnasol. Os yw hyn yn berthnasol, rhaid i'r cytundeb gynnwys telerau sy'n caniatáu i chi a'r codwr arian trydydd parti ddod â'r cytundeb i ben cyn i'w tâl newid.

### 7.6. Cyfrinachedd

*Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol oni bai ein bod yn dweud fel arall wrthych.*

7.6.1 **Rhaid** i godwyr arian trydydd parti **beidio** â rhannu unrhyw wybodaeth gyfrinachol a gânt gennych chi oni bai bod y wybodaeth honno ar gael i'r cyhoedd neu fod hawl gyfreithiol ganddynt i rannu'r wybodaeth.

7.6.2 Rhaid i'r datganiad ysgrifenedig rhyngoch chi a'r codwr arian trydydd parti gynnwys telerau sy'n diffinio'r hyn sy'n cael ei ystyried yn wybodaeth gyfrinachol.

## 7.7. Cyfraith cwmnïau a threth

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol oni bai ein bod yn dweud fel arall wrthych.***

Os ydych yn gwmni hefyd, **rhaid** i chi hefyd fodloni'r gofynion cyfraith cwmnïau perthnasol.

7.7.1 Rhaid i chi ddeall sut allai eich gweithgareddau codi arian effeithio ar y dreth a'r TAW y mae gofyn i'ch sefydliad eu talu (os o gwbl) a gwneud yn siŵr eich bod yn talu'r swm cywir.

Am ragor o safonau ar drefniadau monitro rhesymol fel rhan o gontract neu gytundeb, gweler **adran 7.2 Cysylltiadau a chytundebau**

# Adran 3: Safonau sy'n berthnasol i ddulliau penodol o godi arian

Mae'r adran hon yn ymdrin â'r safonau sy'n berthnasol i ddulliau gwahanol o godi arian. Dylech adnabod y dulliau yr ydych yn eu defnyddio i godi arian a bodloni'r safonau yn yr adrannau perthnasol. Dylech ddarllen y safonau hyn law yn llaw â'r safonau yn adrannau 1 a 2 o'r cod.



## 8. Casglu arian neu eiddo arall

Mae'r adran hon yn ymdrin â chasglu arian neu eiddo arall (yn cynnwys nwyddau a rhoddion rheolaidd) ar gyfer sefydliadau elusennol, p'un a wneir hynny ar y stryd, o dŷ i dŷ neu ar safleoedd preifat. Mae hyn yn cynnwys gweithdrefnau a safonau casglu diogel er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn parchu pobl a llefydd lleol. Os ydych yn bwriadu ymgymryd â chasgliadau elusennol ar safleoedd cyhoeddus neu breifat, rhaid i chi fod yn sensitif i'r cymunedau yr ydych yn debygol o ddod i gysylltiad â nhw ac unrhyw ganiatâd y gallech fod ei angen er mwyn gwneud hynny.

Mae'r gyfraith ar gasglu arian neu eiddo arall yn amrywio yn dibynnu ar fath a lleoliad y casgliad. Yn y rhan fwyaf o achosion, ar gyfer casgliadau ar dir cyhoeddus, bydd arnoch angen trwydded neu ganiatâd i gasglu gan yr awdurdod lleol perthnasol (neu yng Ngogledd Iwerddon, Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon). Ar dir preifat, bydd arnoch angen caniatâd gan y person sy'n gyfrifol am y safle.

Mae'r rheolaethau ar gasgliadau cyhoeddus yn berthnasol i gasgliadau er dibenion elusennol, sy'n cynnwys casgliadau er dibenion buddiannol a dyngarol.

Cewch hyd i ragor o wybodaeth am y gyfraith fel y mae'n berthnasol i gasgliadau: yng Nghymru a Lloegr yng nghanllawiau codi arian mewn llefydd cyhoeddus y Sefydliad Siartredig Codi Arian, yn yr Alban yng nghanllawiau Casgliadau Cyhoeddus ac eithriadau Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban (OSCR's) ac yng Ngogledd Iwerddon yng nghanllawiau Codi Arian ar gyfer Elusennau Comisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon.

### 8.1. Ymddygiad wrth gasglu arian neu eiddo arall

*i* ***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti oni bai ein bod yn dweud yn wahanol wrthych.***

8.1.1 Wrth godi arian, rhaid i chi beidio â:

- gweithredu mewn unrhyw ffordd a allai'n rhesymol achosi i aelodau'r cyhoedd gael braw neu deimlo'n bryderus;
- gweithredu'n anonest neu gyfrwys, neu'n fwriadol geisio gwneud i roddwr posib deimlo'n euog; neu
- gweithredu mewn unrhyw ffordd arall y gallai person rhesymol ystyried a fyddai'n niweidio enw da'r sefydliad elusennol. Mae hyn yn cynnwys:
  - ysmygu neu yfed alcohol pan rydych yn gwisgo dillad sydd â brand sefydliad elusennol arnynt;

- cymryd cyffuriau anghyfreithlon neu fod dan eu dylanwad;
- ymddygiad anweddus neu ymosodol, yn cynnwys rhegi, pan rydych yn gwisgo dillad sydd â brand sefydliad elusennol arnynt;
- rhoi pwysau diangen ar aelodau'r cyhoedd i roi;
- manteisio ar eich safle er mwyn elwa'n bersonol (er enghraifft, gofyn am swydd, gofyn i rywun fynd ar ddêt, neu ofyn am ostyngiad ar nwyddau neu wasanaethau); neu
- unrhyw ymddygiad arall sy'n niweidio enw da'r proffesiwn codi arian neu'r sefydliad codi arian yr ydych yn ei gynrychioli.

8.1.2 Rhaid i chi osgoi achosi rhwystr, tagfa a niwsans i'r cyhoedd. Rhaid i chi beidio â rhwystro llwybr aelodau'r cyhoedd yn fwriadol.

8.1.3 Rhaid i chi drin y lleoliadau lle'r ydych yn gweithio neu'n ymweld â nhw â pharch.

8.1.4 Rhaid i chi beidio ag awgrymu i unrhyw aelod o'r cyhoedd nad yw'r sgwrs yr ydych yn ceisio ei chychwyn ynghylch arian neu 'nad ydych yn codi arian'.

8.1.5 Wrth ofyn am rodd reolaidd, rhaid i chi beidio ag awgrymu wrth unrhyw aelod o'r cyhoedd ei fod 'heb ymrwymiad'.

8.1.6 Oni bai bod hyn wedi'i awdurdodi dan gytundeb gyda safle preifat, rhaid i chi beidio â mynd at aelodau o'r cyhoedd sydd:

- yn eistedd, oni bai eu bod yn eistedd rhywle sy'n rhan o stondin hyrwyddo sefydliad elusennol; neu
- mewn ciwiau, oni bai bod y ciw yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gweithgaredd codi arian.

8.1.7 Rhaid i chi beidio â mynd at bobl gan wybod eu bod yn ymgymryd â dyletswyddau swyddogol, megis swyddogion mewn iwnifform pan fyddant ar ddyletswydd neu bobl sydd yn amlwg yn gweithio.

8.1.8 Rhaid i chi beidio â rhwystro aelodau o staff o fusnesau lleol, ymyrryd â nhw na'u sarhau.

## 8.2. Trwyddedau a chaniatâd

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti oni bai ein bod yn dweud yn wahanol wrthych.***

8.2.1 Os ydych yn sefydliad elusennol yn casglu ar dir cyhoeddus, **rhaid** i chi gael trwydded neu hawlen gan yr awdurdod perthnasol i gasglu yn yr ardal honno, oni bai nad yw'r awdurdod perthnasol yn ei gwneud hi'n orfodol i chi ddal trwydded ar gyfer eich gweithgaredd.

Am ragor o safonau ar eithriadau, gweler **adran 8.3 Eithriadau**.

8.2.2 Os ydych yn sefydliad elusennol, **rhaid** i chi ymgeisio am drwyddedau mewn da bryd cyn bod disgwyl i'r casgliad ddigwydd.

- Yn yr Alban, oni bai nad yw'r awdurdod perthnasol yn ei gwneud hi'n orfodol i chi ddal trwydded, **rhaid** i chi ymgeisio am drwydded yn ysgrifenedig o leiaf un mis cyn eich casgliad (neu o fewn unrhyw gyfnod arall y mae'r awdurdod lleol yn ei benderfynu).
- Yng Ngogledd Iwerddon, ar gyfer casgliadau stryd **rhaid** i chi ymgeisio am drwydded yn ysgrifenedig cyn diwrnod cyntaf y mis cyn y mis pan fydd y casgliad yn digwydd.

8.2.3 **Rhaid** i chi ymgymryd â'r holl gasgliadau yn unol â thelerau'r hawlen neu'r drwydded berthnasol. Rhaid i chi hefyd wneud yn siŵr:

- eich bod yn ymgymryd â diwydrwydd dyladwy i wirio bod casglwr yn berson addas a phriodol i gasglu;
- bod casglwyr o leiaf yr isafswm oed a ganiateir i gasglu arian yn y wlad berthnasol a'u bod yn bodloni'r rhwymedigaethau sydd ganddynt dan y gyfraith;
- eich bod yn darparu casglwyr gydag unrhyw ddeunyddiau swyddogol neu'r awdurdodiad sydd ei angen dan drwydded neu hawlen, megis awdurdodiad ysgrifenedig, tystysgrif awdurdodiad, bathodyn enw, blychau casglu neu lyfrau derbynneb;
- eich bod yn bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol eraill sy'n ymwneud â deunyddiau neu awdurdodiad swyddogol; ac
- os bydd angen (er enghraifft, gan y person sy'n rhoi'r hawlen), rydych yn medru darparu manylion llawn yr holl gasglwyr mewn ardal benodol, yn cynnwys eu henwau, eu cyfeiriadau a'u rhifau ffôn, yr ardal benodol sydd yn berthnasol a'r union gyfnod y mae gan y casglwr awdurdodiad i gasglu.

8.2.4 Os ydych yn gasglwr, **rhaid** i chi fodloni unrhyw ofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â blychau casglu, tystysgrifau awdurdodiad a bathodynnau.

8.2.5 Os ydych yn gasglwr, **rhaid** i chi ond fynd at bobl mewn ardaloedd ac yn ystod yr oriau gweithredu a ganiateir dan gytundebau, trwyddedau a chaniatadau (oni bai eich bod yn cytuno i gyfarfod dilynol gyda pherson y tu allan i'r ardaloedd a'r amseroedd hyn).

8.2.6 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod deunyddiau yn cynnwys manylion cyswllt y sefydliad elusennol a'r casglwr, os ydynt yn wahanol.

8.2.7 Rhaid i chi wneud yn siŵr y gellir adnabod yn glir y bobl a, lle bo hynny'n bosib eu cerbydau, fel rhai sy'n cynrychioli eich sefydliad elusennol.

8.2.8 Rhaid i chi gofnodi rhoi a derbyn yn ôl yr holl ddeunyddiau sy'n gysylltiedig â'r casgliad.

- Yn yr Alban, **rhaid** i drefnydd casgliad gofnodi enw a chyfeiriad pob casglwr ynghyd â nifer yr amlenni casgliad a roddir iddynt, neu'r rhif adnabod sydd wedi'i farcio ar y blwch casglu a roddir i bob casglwr.

## 8.3. Eithriadau

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti oni bai ein bod yn dweud yn wahanol wrthych.***

8.3.1 Os ydych yn sefydliad elusennol sydd:

- â rhif eithriad cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr, neu orchymyn eithrio yng Ngogledd Iwerddon, sy'n golygu nad oes angen trwydded arnoch ar gyfer casgliadau tŷ i dŷ yn y wlad berthnasol; neu
- yn hyrwyddwr eithriedig yn yr Alban, sy'n golygu nad oes angen trwydded arnoch ar gyfer casgliadau elusennol cyhoeddus yn y wlad honno;

**rhaid** i chi fodloni amodau'r eithriad hwnnw.

### Canllawiau pellach

- Yng Nghymru a Lloegr, gan yr Adran Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon: Cynllun gorchymyn eithriad cenedlaethol
- Yn yr Alban, gan Reoleiddiwr Elusennol yr Alban (OSCR): Casgliadau cyhoeddus a hyrwyddwyr eithriedig
- Yng Ngogledd Iwerddon, gan yr Adran Cymunedau: Casgliadau elusennol o dŷ i dŷ - gorchmynion eithriedig

## 8.4. Safonau pellach sy'n berthnasol i leoliadau a gweithgareddau penodol

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti oni bai ein bod yn dweud yn wahanol wrthych.***

### Casgliadau o dŷ i dŷ

8.4.1 **Rhaid** i chi **beidio** â phoenydio nac anwybyddu cais i adael neu beidio â dychwelyd.

8.4.2 Rhaid i chi beidio â galw heb rybudd mewn ardal lle mae 'parth dim galw heb rybudd' wedi'i greu'n gyfreithlon sy'n golygu na chaniateir casgliadau elusennol.

8.4.3 Rhaid i chi beidio â chnocio ar ddrws unrhyw eiddo sy'n dangos sticer neu arwydd sy'n cynnwys y geiriau 'dim galwadau heb rybudd', 'dim galwyr heb rybudd', 'dim elusennau', 'dim canfaswyr elusennol' neu 'dim codwyr arian elusennol'.

8.4.4 Rhaid i chi ond cnocio ar ddrws ffrynt neu brif fynedfa eiddo (fel arfer y drws sydd agosaf neu fwyaf hygyrch o stryd), oni bai bod y preswyliwr yn gofyn i chi wneud yn wahanol.

8.4.5 Os yw adeilad yn cynnwys sawl eiddo a bod arnoch angen caniatâd gan breswyliwr er mwyn cael mynediad i'r adeilad, rhaid i chi beidio â defnyddio caniatâd mynediad a roddir gan un preswyliwr er mwyn galw ar eiddo eraill yn yr adeilad wedi hynny. Rhaid i chi gael caniatâd unigol i fynd i mewn i'r adeilad gan breswyliwr pob eiddo yr ydych yn ymweld â nhw yn yr adeilad.

8.4.6 Rhaid i chi gymryd gofal ychwanegol wrth ymweld ag eiddo wedi iddi dywyllu. Os ydych yn ymweld â llefydd unig, rhaid i chi ystyried a allai'r ymweliad achosi pryder i drigolion cyn mynd at eiddo.

8.4.7 Rhaid i chi beidio â mynd i mewn i eiddo oni bai bod gennych ganiatâd preswyliwr yr eiddo (neu, os mai busnes sydd yn yr eiddo, y person sy'n gyfrifol am yr eiddo ar ddiwrnod yr ymweliad).

8.4.8 Rhaid i chi beidio â rhwystro preswylwyr rhag cau drws eu heiddo (er enghraifft, drwy roi eich troed i atal y drws).

8.4.9 Rhaid i chi beidio â dosbarthu bagiau casglu elusennau i eiddo sy'n dangos sticer neu arwydd sy'n cynnwys y geiriau 'dim bagiau elusennau', 'dim bagiau dillad' neu unrhyw eiriau eraill sy'n dangos yn glir nad yw'r sawl sy'n byw yn y tŷ am roi yn y ffordd hon.

8.4.10 Law yn llaw â chyfyngiadau unrhyw amser ar gyfer casgliadau sydd wedi'u hamlinellu yn y drwydded, rhaid i chi beidio â chodi arian cyn 9am dydd Llun i ddydd Sadwrn na chyn 10am ar ddyddiau Sul a gŵyl y banc, na wedi 9pm ar unrhyw ddiwrnod neu ddyddiad. Os oes angen i chi alw eto mewn eiddo (casgliadau dau gam) rhaid i'r ail ymweliad beidio â digwydd y tu allan i'r amseroedd hyn, oni bai bod y person yn yr eiddo yn gofyn i chi wneud y casgliad ar amser penodol.

8.4.11 Rhaid i chi beidio â mynd at eiddo mewn grwpiau o fwy na dau ar y tro. Mae hyn yn cynnwys codwyr arian dan hyfforddiant.

8.4.12 Os ydych yn casglu rhoddion rheolaidd o dŷ i dŷ (codi arian wyneb yn wyneb), rhaid i chi wisgo bathodyn enw, sydd:

- yn cynnwys eich hunaniaeth fel codwr arian, i bwy rydych yn gweithio a rhif ffôn ar gyfer y sefydliad elusennol perthnasol neu’r codwr arian trydydd parti;
- yn cael ei arddangos yn glir ac nad oes neb wedi ymyrryd ag ef;
- ar ffurf bathodyn sydd wedi’i atodi i ran uchaf blaen eich corff;
- o leiaf maint cerdyn credyd;
- wedi’i lofnodi neu ei awdurdodi mewn rhyw ffordd arall (er enghraifft, gyda sêl neu stamp y cwmni) gan yr asiantaeth yr ydych yn gweithio iddi neu’r elusen yr ydych yn casglu ar ei rhan (neu’r ddwy); ac
- yn hygyrch i bobl ag anawsterau golwg (er enghraifft, gallai’r wybodaeth ar y bathodyn enw fod ar gael mewn print bras).

**Canllawiau pellach**

Sefydliad Siartredig Codi Arian: Parthau a sticeri dim galwadau heb rybudd

## Casglu rhoddion rheolaidd (codi arian wyneb yn wyneb) ar y stryd

8.4.13 Os nad oes arnoch angen trwydded neu hawlen, rhaid i chi fodloni cytundebau rheoli safleoedd y Sefydliad Siartredig Codi Arian (CioF) sydd yn eu lle gyda’r awdurdod lleol ar gyfer codi arian (wyneb yn wyneb) rhodd reolaidd ar y stryd.

8.4.14 Rhaid i’r cyhoedd allu’ch adnabod o bellter o leiaf pum metr. Yn nhermau dillad sydd â brand yr elusen arnynt:

- rhaid iddynt fod yn weladwy ac yn hawdd eu hadnabod;
- rhaid iddynt beidio â chael eu clymu o amgylch eich gwast na’u gorchuddio gan ddillad heb frand yr elusen neu eiddo arall, na chael eu cuddio mewn unrhyw ffordd; a
- rhaid iddynt fod yn lân ac mewn cyflwr da er mwyn gwneud yn siŵr y gellir gweld y brand ac er mwyn gwarchod ei enw da.

8.4.15 Rhaid i chi wisgo bathodyn enw, sydd:

- yn cynnwys eich hunaniaeth fel codwr arian, i bwy rydych yn gweithio a rhif ffôn ar gyfer y sefydliad elusennol perthnasol neu’r codwr arian trydydd parti;
- yn cael ei arddangos yn glir ac nad oes neb wedi ymyrryd ag ef;
- ar ffurf bathodyn sydd wedi’i atodi i ran uchaf blaen eich corff;
- o leiaf maint cerdyn credyd;
- wedi’i lofnodi neu ei awdurdodi mewn rhyw ffordd arall (er enghraifft, gyda sêl neu stamp y cwmni) gan yr asiantaeth yr ydych yn gweithio iddi neu’r elusen yr ydych yn casglu ar ei rhan (neu’r ddwy); ac
- yn hygyrch i bobl ag anawsterau golwg (er enghraifft, gallai’r wybodaeth ar y bathodyn enw fod ar gael mewn print bras).

8.4.16 Rhaid i chi beidio â gadael bagiau heb neb yn gofalu amdanynt ar unrhyw ffordd neu hawl tramwy cyhoeddus. Rhaid i aelod o’r tîm aros o fewn tri metr o’r bagiau bob amser a gallu gweld ‘bag tîm’ (os defnyddir un).

8.4.17 Rhaid i chi beidio â chodi arian cyn 9am dydd Llun i ddydd Sadwrn na chyn 10am ar ddyddiau Sul a gŵyl y banc, na pharhau wedi 7pm ar unrhyw ddiwrnod. (Os nodir amseroedd gwahanol yng nghytundeb rheoli safleoedd yr CIoF, rhaid i chi gadw at yr amseroedd yn y cytundeb.)

8.4.18 Rhaid i chi beidio â lleoli eich hun o fewn tri metr o:

- fynedfa siop;
- croesfan i gerddwyr;
- peiriant codi arian;
- mynedfa gorsaf;
- stondin marchnad; neu
- masnachwr, gwerthwr neu gerddor stryd.

8.4.19 Os ydych wedi mynd at aelod o’r cyhoedd, rhaid i chi fodloni’r rheol ‘tri cham’.

- Rhaid i chi beidio â chymryd mwy na thri cham wrth ochr y person na’i ddilyn, hyd yn oed os yw’n gofyn i chi wneud hynny.
- Os nad yw’r aelod o’r cyhoedd wedi dod i stop o fewn y tri cham a ganiateir, rhaid i chi stopio eich ymgais i siarad ag ef.

**Casgliadau ar dir preifat a safleoedd preifat y gellir eu llogi**

8.4.20 **Rhaid** i chi gael caniatâd gan berchennog yr eiddo neu’r rheolwr i gasglu a **rhaid** i chi gadw at y dyddiadau, yr amseroedd a’r ardaloedd a ganiateir ar gyfer casglu.

8.4.21 Rhaid i chi gofnodi’r holl logiadau a chynnwys enw llawn y person a wnaeth logi, y dyddiadau y cytunwyd arnynt a’r math o weithgaredd y cytunwyd arno. Rhaid i chi gadw’r cofnodion hyn am o leiaf 28 diwrnod.

### Casglu rhoddion rheolaidd (codi arian wyneb yn wyneb) ar safleoedd preifat y gellir eu llogi

8.4.22 Lle bynnag bo hynny'n bosib, cyn dechrau gweithio rhaid i chi gyflwyno'ch hun i'r aelod perthnasol o staff sy'n gyfrifol am y safle preifat.

8.4.23 Os yw'r safle neu'r lleoliad yn newid, rhaid i chi ddweud wrth y person sy'n gyfrifol am eich gweithrediadau cyn dechrau gweithio.

8.4.24 Rhaid i chi beidio â gweithio y tu allan i ffiniau'r safle preifat fel yr eglurir gan berchennog y safle a, beth bynnag, rhaid i chi weithio yng ngolwg y stondin hyrwyddo, os oes un.

8.4.25 Wrth weithio mewn lleoliadau stryd fawr:

- rhaid i chi weithio o fewn un metr o'r stondin hyrwyddo (neu debyg) a rhaid i'r stondin fod ddim mwy nag un metr i ffwrdd o flaen y siop; a
- rhaid i'ch safle a'r stondin beidio ag effeithio ar fusnesau eraill.

Os yw'r safon hon yn gwrthddweud neu'n gwrthdaro ag unrhyw amodau sydd wedi'u cynnwys mewn cytundeb gyda'r perchennog neu reolwr safle perthnasol, cytundeb y safle fydd yn berthnasol.

8.4.26 Rhaid i chi wisgo dillad â brand yr elusen arnynt os nad oes gennych stondin hyrwyddo. Yn nhermau dillad â brand yr elusen arnynt:

- rhaid iddynt fod yn weladwy ac yn hawdd eu hadnabod;
- rhaid iddynt beidio â chael eu clymu o amgylch eich gwast na'u gorchuddio gan ddillad heb frand yr elusen neu eiddo arall, na chael eu cuddio mewn unrhyw ffordd; a
- rhaid iddynt fod yn lân ac mewn cyflwr da er mwyn gwneud yn siŵr y gellir gweld y brand ac er mwyn gwarchod ei enw da.

8.4.27 Rhaid i chi wisgo bathodyn enw, sydd:

- yn cynnwys eich hunaniaeth fel codwr arian, i bwy rydych yn gweithio a rhif ffôn ar gyfer y sefydliad elusennol perthnasol neu'r codwr arian trydydd parti;
- yn cael ei arddangos yn glir ac nad oes neb wedi ymyrryd ag ef;
- ar ffurf bathodyn sydd wedi'i atodi i ran uchaf blaen eich corff;
- o leiaf maint cerdyn credyd;
- wedi'i lofnodi neu ei awdurdodi mewn rhyw ffordd arall (er enghraifft, gyda sêl neu stamp y cwmni) gan yr asiantaeth yr ydych yn gweithio iddi neu'r elusen yr ydych yn casglu ar ei rhan (neu'r ddwy); ac
- yn hygyrch i bobl ag anawsterau golwg (er enghraifft, gallai'r wybodaeth ar y bathodyn enw fod ar gael mewn print bras).

8.4.28 Os ydych wedi mynd at aelod o'r cyhoedd, rhaid i chi fodloni'r rheol 'tri cham'.

- Rhaid i chi beidio â chymryd mwy na thri cham wrth ochr y person na'i ddilyn, hyd yn oed os yw'n gofyn i chi wneud hynny.
- Os nad yw'r aelod o'r cyhoedd wedi dod i stop o fewn y tri cham a ganiateir, rhaid i chi stopio eich ymgais i siarad ag ef.

Os ydych wedi llwyddo i ddechrau sgwrs gyda pherson, gallwch gymryd mwy na thri cham i'w tywys at stondin hyrwyddo, neu i ran wahanol o stondin hyrwyddo.

## 8.5. Casgliadau sefydlog

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti oni bai ein bod yn dweud yn wahanol wrthych.***

Mae casgliadau sefydlog yn golygu defnyddio blychau casglu sy'n aros mewn un lle – naill ai ar y llawr neu ar gownteri mewn llefydd megis siopau, tafarndai, gwestai, ysbytai a derbynfeydd.

Os yw sefydliad arall yn rheoli blychau casglu ar eich rhan a'u bod yn derbyn taliad neu fudd arall ar gyfer y gweithgaredd hwn, mae hi'n bwysig eu bod nhw a'ch bod chi yn ymwybodol o unrhyw gyfrifoldebau sydd ganddynt dan Ran II Deddf Elusennau 1992 neu Ran 2 Deddf Buddsoddiad Elusennau ac Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005.

8.5.1 Os mai chi yw trefnydd y casgliad, rhaid i chi gael caniatâd perchennog y safle neu'r rheini sydd ag awdurdod i roi caniatâd i chi gynnal casgliad sefydlog ar y safle. Rhaid i'r caniatâd fod yn ysgrifenedig.

8.5.2 Os mai chi yw trefnydd y casgliad, rhaid i chi roi llythyr, tystysgrif awdurdodiad neu fathodyn i unrhyw un yr ydych wedi'i awdurdodi i gasglu ar eich rhan. Dylai'r llythyr, y dystysgrif neu'r bathodyn gynnwys gwybodaeth sy'n eu hadnabod fel casglwr ac sy'n adnabod unrhyw sefydliadau sy'n ymgymryd â'r casgliad neu'n elwa o'r casgliad. Mae'r wybodaeth benodol y mae'n rhaid ei chynnwys ar gyfer gwahanol gategorïau o gasglwyr fel a ganlyn.

- Ar gyfer casglwyr sydd wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan y sefydliad elusennol sy'n elwa neu sy'n gweithredu fel gwirfoddolwyr 'ar ran':
  - enw'r casglwr;
  - enw a manylion cyswllt y sefydliad elusennol sy'n elwa o'r casgliad; ac
  - enw'r trefnydd (os yw'n wahanol i'r casglwr neu'r sefydliad elusennol sy'n elwa o'r casgliad).

- Ar gyfer casglwyr sy'n gweithio i godwr arian trydydd parti:
  - enw'r casglwr;
  - enw a manylion cyswllt y codwr arian trydydd parti; ac
  - enw a manylion cyswllt y sefydliad elusennol sy'n elwa o'r casgliad.
- Ar gyfer casglwyr sydd yn wirfoddolwyr 'er budd' os yw'r sefydliad elusennol yn gwybod am y casgliad ac wedi'i gymeradwyo:
  - enw'r casglwr;
  - manylion cyswllt y trefnydd;
  - enw'r sefydliad elusennol sy'n elwa o'r casgliad; ac
  - enw'r trefnydd os yw hwn yn wahanol i'r casglwr.

8.5.3 Os mai chi yw'r casglwr, rhaid i chi gael llythyr, tystysgrif awdurdodiad neu fathodyn fel y disgrifir uchod.

8.5.4 Os mai chi yw'r casglwr, rhaid i chi ddangos eich tystysgrif awdurdodiad i berchennog y safle neu'r rheini sydd ag awdurdodiad i roi caniatâd i gynnal casgliad sefydlog ar yr eiddo.

8.5.5 Os mai chi yw'r casglwr, rhaid i chi ei gwneud hi'n glir i berchennog y safle neu'r rheini sy'n cynnal casgliad sefydlog ar yr eiddo bod rhaid iddynt gysylltu â chi os yw blwch yn mynd ar goll neu'n cael ei ddwyn, neu os ydynt am ddod â'r casgliad i ben (yn ysgrifenedig o ddewis).

## 9. Gohebiaeth a hysbysebion codi arian

Mae sefydliadau elusennol yn dweud wrth bobl am eu hachos mewn gwahanol ffyrdd. Mae hi'n bwysig bod eich gohebiaeth yn briodol i'ch cynulleidfa ac yn darparu gwybodaeth glir fel y gall rhoddwyr wneud penderfyniad gwybodus. Mae'r adran hon yn ymdrin â safonau sy'n ymwneud â marchnata eich ymgyrch. Yn ogystal, mae'n cynnwys safonau ar gyfer codi arian dros y ffôn a thrwy'r post (ar gyfer e-bost a negeseuon i ddyfeisiau symudol gweler **adran 10 Digidol**).

Am ragor o safonau yn ymwneud â gohebiaeth marchnata i unigolion, gweler **adran 3 Prosesu data personol (gwybodaeth)**.

### 9.1. Safonau cyffredinol

i ***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.***

9.1.1 Rhaid i chi fodloni'r Cod hysbysebu heb ei darlledu a marchnata uniongyrchol a hyrwyddo (Cod CAP) a'r Cod Darlledu Hysbysebion (Cod BCAP) a gwneud yn siŵr bod yr holl hysbysebion yn gyfreithiol, yn weddus, yn onest ac yn.

9.1.2 Rhaid i chi allu dangos eich bod wedi cymryd pob cam rhesymol i wneud yn siŵr bod gohebiaeth yn addas ar gyfer y bobl y maent wedi'u hanelu atynt.

9.1.3 Rhaid i'ch gohebiaeth farchnata beidio â chynnwys unrhyw beth sy'n debygol o achosi tramgwydd difrifol neu eang. Rhaid i chi gymryd gofal arbennig i osgoi achosi tramgwydd ar sail hil, oed, crefydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu anabledd. Bydd hyn yn amrywio yn ôl y cyd-destun, y math o gyfathrebu, y gynulleidfa, y cynnyrch a'r safonau gweddusrwydd a dderbynnir yn gyffredin ar adeg yr ohebiaeth.

9.1.4 Rhaid i'ch gohebiaeth farchnata beidio â chynnwys unrhyw beth sy'n debygol o achosi braw neu ofid heb reswm y gellir ei gyfiawnhau. Os allwch ei gyfiawnhau, rhaid i'r braw neu ofid sy'n debygol o gael ei achosi beidio â bod yn ormodol.

9.1.5 Rhaid i chi beidio â defnyddio honiad neu ddelwedd y gallai rhai pobl eu gweld yn frawychus er mwyn denu sylw yn unig. Os ydych yn gweld delweddau y gallai rhai pobl eu gweld yn frawychus, dylech roi rhybuddion am y deunydd hwn.

9.1.6 **Rhaid** i chi wneud yn siŵr bod y llenyddiaeth yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae'n rhaid i chi ei chynnwys dan y gyfraith, er enghraifft, statws neu rif elusen gofrestredig, enw llawn y cwmni a'r swyddfa gofrestredig os yw hynny'n berthnasol.

Am ragor o safonau ar y wybodaeth y mae'n rhaid i chi ei chynnwys, gweler **adran 9.2 Cyfeiriadau mewn dogfennau.**

9.1.7 Os ydych yn codi arian mewn partneriaeth gydag un neu fwy o sefydliadau elusennol, rhaid i chi nodi sut caiff yr arian ei rannu rhwng y sefydliadau.

9.1.8 Os ydych yn newid unrhyw rai o'r manylion mewn astudiaethau achos neu'n defnyddio enghreifftiau go iawn i ysbrydoli astudiaeth achos, rhaid i chi wneud hyn yn glir a rhaid i chi allu profi bod yr astudiaeth achos yn gynrychioladol o sefyllfa go iawn.

9.1.9 Rhaid i chi allu cyfiawnhau pa mor aml rydych yn cysylltu â phobl, gan gydbwyso'r angen i gyfathrebu gyda pheidio â gorlwytho neu fombardio pobl.

9.1.10 **Rhaid** i chi fodloni cyfraith nod masnach a hawlfraint a gwneud yn siŵr eich bod yn cael caniatâd i ddefnyddio delweddau, logos ac ati gan bobl neu sefydliadau sy'n dal yr hawliau i'r rhain.

**Gofynion pellach ar gyfer Lloegr**

9.1.11 **Rhaid** i chi wneud yn siŵr bod hysbysebion cyhoeddus ar gyfer digwyddiad yn bodloni Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd), Rheoliadau Rheoli Hysbysebion 2007 (fel y'i diwygiwyd) a gyhoeddir oddi tani, neu Ddeddf Priffyrdd 1980.

**Gofynion pellach ar gyfer yr Alban**

9.1.12 **Rhaid** i chi wneud yn siŵr bod hysbysebion cyhoeddus yn bodloni Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (yr Alban) 1997 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) (yr Alban) 1984, fel y'i diwygiwyd ym 1992.

**Gofynion pellach ar gyfer Gogledd Iwerddon**

9.1.13 **Rhaid** i chi wneud yn siŵr bod hysbysebion cyhoeddus yn bodloni Rheoliadau Cynllunio (Rheoli Hysbysebion) Gogledd Iwerddon 2015.

## 9.2 Cyfeiriadau mewn dogfennau

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti, oni bai ein bod yn dweud yn wahanol wrthych.***

### Safonau cyffredinol

**Rhaid** i sefydliadau elusennol sy'n gwmnïau cofrestredig fodloni'r gofynion dan Reoliadau Cwmnïau (Datgeliadau Masnachu) 2008 ynghyd ag unrhyw gyfraith elusennau sy'n berthnasol yn y wlad lle'r ydych yn codi arian.

9.2.1 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod llythyrau, ffurflenni archeb a gwefan eich busnes yn nodi:

- enw llawn eich cwmni cofrestredig (hyd yn oed os ydych yn defnyddio enw wedi'i fyrhau neu 'enw masnachu' hefyd);
- rhif eich cwmni;
- man cofrestru eich cwmni (er enghraifft, Cymru a Lloegr neu yr Alban);
- cyfeiriad eich swyddfa gofrestredig (os cyfeirir at fwy nag un cyfeiriad, **rhaid** bod yn glir ynghylch pa un yw'r swyddfa gofrestredig); a
- bod y sefydliad elusennol yn gwmni cyfyngedig os nad yw eich enw yn cynnwys y gair 'Cyfyngedig'.

Os yw enwau eich cyfarwyddwyr wedi'u cynnwys ar lythyr pennawd eich cwmni (nad yw'n hanfodol), **rhaid** i chi enwi'r holl gyfarwyddwyr.

9.2.2 **Rhaid** i chi hefyd roi enw cofrestredig llawn eich cwmni ar yr holl hysbysiadau a chyhoeddiadau swyddogol eraill, yr holl sieciau, biliau cyfnewid, nodiadau addewid (dogfen wedi'i llofnodi sy'n addo talu swm sydd wedi'i nodi i berson penodol ar ddyddiad penodol pan ofynnir amdano) ac arnodiadau, yr holl archebion ar gyfer arian, nwyddau neu wasanaethau, yr holl anfonebau a gorchmynion eraill am daliadau, derbynebau a nodiadau credyd, yr holl geisiadau am drwyddedau i ymgymryd â masnach neu weithgaredd, a'r holl fathau eraill o ohebiaeth a dogfennau busnes.

### Gofynion pellach ar gyfer Cymru a Lloegr

9.2.3 Os ydych yn elusen gofrestredig gydag incwm gros o dros £10,000 yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, **rhaid** i chi nodi bod eich elusen wedi'i chofrestru ar yr holl hysbysiadau, hysbysebion a dogfennau codi arian a gyhoeddir gennych chi neu ar eich rhan.

9.2.4 Os ydych yn gwmni cofrestredig, **rhaid** i chi gynnwys eich rhif cwmni, man cofrestru (er enghraifft, Cymru a Lloegr) a chyfeiriad eich swyddfa gofrestredig os yw'r deunydd codi arian ar ffurf llythyr busnes neu'n cael ei gyhoeddi ar eich gwefan. Fel cwmni cofrestredig, **rhaid** i chi roi enw'r elusen ar yr holl ddeunyddiau codi arian a gynhyrchir ar unrhyw rai o'r ffurfiau a ganlyn.

- Llythyrau busnes
- Hysbysiadau a chyhoeddiadau swyddogol eraill
- Biliau cyfnewid, nodiadau addewid, arnodiadau, sieciau neu orchmynion am arian neu nwyddau a lofnodir ar ran yr elusen
- Unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â gwerthu neu brynu diddordeb mewn tir
- Biliau, anfonebau, derbynebau a llythyrau credyd

9.2.5 Os ydych yn gwmni cofrestredig ac nad yw eich enw yn cynnwys y gair 'Cyfyngedig', **rhaid** i chi hefyd gynnwys datganiad eich bod yn gwmni cyfyngedig ar yr holl ohebiaeth busnes.

### Gofynion pellach ar gyfer yr Alban

9.2.6 Os ydych yn elusen sydd wedi'i chofrestru yn yr Alban, **rhaid** i chi fodloni'r Rheoliadau Cyfeiriadau Elusennau mewn Dogfennau (yr Alban) 2007. Os ydych yn Sefydliad Corfforedig Elusennol yn yr Alban (SCIO), **rhaid** i chi fodloni adran 52 Deddf Buddsoddiad Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 a Rheoliadau Sefydliadau Corfforedig Elusennol yr Alban 2011 mewn perthynas â'r datganiadau yr ydych yn eu gwneud.

9.2.7 Os ydych yn elusen sydd wedi'i chofrestru yn yr Alban, **rhaid** i chi roi'r wybodaeth a ganlyn yn eich holl ddogfennau.

- Eich enw llawn ac unrhyw enw arall yr ydych yn ei ddefnyddio'n gyffredin.
- Eich rhif elusen yn yr Alban.
- Os nad yw eich enw yn cynnwys 'elusen' neu 'elusennol', rhaid i chi nodi eich bod yn elusen.

9.2.8 **Rhaid** i chi nodi'r wybodaeth uchod yn yr holl lythyrau busnes, e-bost, hysbysebion, hysbysiadau, cyhoeddiadau swyddogol, unrhyw ddogfen sy'n gofyn am arian neu eiddo arall ar gyfer yr elusen, nodiadau addewid, arnodiadau, gorchmynion am arian neu nwyddau, biliau, anfonebau, derbynebau, llythyrau credyd, cyfrifon statudol, dogfennau addysgiadol neu ymgyrch, dogfennau sy'n creu, yn trosglwyddo, yn amrywio neu'n diddymu diddordeb mewn tir, contractau a biliau cyfnewid (ac eithrio sieciau) ac ar dudalen gartref eich gwefan.

9.2.9 **Rhaid** i chi ddefnyddio'r term 'elusen', 'corff elusennol', 'elusen gofrestredig', neu 'elusen wedi'i chofrestru yn yr Alban'. Ni ddylid defnyddio'r termau 'elusen yr Alban' ac 'elusen gofrestredig yn yr Alban' oni bai am ar gyfer elusennau sydd wedi'u sefydlu yn yr Alban neu sy'n cael eu rheoli'n llawn neu'n bennaf yn yr Alban.

9.2.10 Os ydych yn SCIO, **rhaid** i'r wybodaeth gynnwys eich enw llawn ac, os nad yw eich enw yn cynnwys eich statws cyfreithiol, **rhaid** i chi nodi eich bod yn SCIO. Rhaid i chi nodi eich rhif elusen ac, wrth nodi eich bod yn SCIO, rhaid i chi ysgrifennu 'Sefydliad Corfforedig Elusennol yr Alban' yn llawn yn hytrach na defnyddio 'SCIO'.

9.2.11 Mae'r safonau uchod yn berthnasol i ddogfennau a gaiff eu cyhoeddi neu eu llofnodi gan eraill ar eich rhan ynghyd â gennych chi. **Rhaid** i'r holl elusennau sydd wedi'u cofrestru yn yr Alban fodloni'r safonau hyn waeth beth yw eu maint neu eu hincwm. Fodd bynnag, nid oes rhaid i elusennau newydd (ac eithrio SCIOs) gadw at y safon hon yn y chwe mis cyntaf.

9.2.12 **Rhaid** i gwmnïau elusennol yn yr Alban fodloni adran 112(6) Deddf Cwmnïau 1989. Os nad yw eich enw yn cynnwys 'elusen' neu 'elusennol, **rhaid** i chi ddatgelu eich statws elusennol ar yr holl lythyrau busnes, yr holl hysbysiadau a chyhoeddiadau swyddogol eraill, yr holl filiau cyfnewid, nodiadau addewid, arnodiadau, sieciau, gorchmynion am arian neu nwyddau a lofnodir gennych chi neu ar eich rhan, yr holl gytundeb i drosglwyddo eiddo o un perchennog i un arall yr ydych wedi'u llofnodi, yr holl filiau parseli, anfonebau, derbynebau, a nodiadau credyd. Yn wahanol i'r rheolau cyfraith elusennau, mae hyn yn berthnasol i sieciau hefyd. Mae unrhyw un sy'n gweithredu ar ran cwmni elusennol sy'n cyhoeddi siec heb y datganiad hwn yn troseddu a bydd yn bersonol atebol am y swm sy'n ddyledus ar y siec os nad ydych yn ei anrhydeddu.

**Gofynion pellach ar gyfer Gogledd Iwerddon**

9.2.13 Os ydych yn elusen gofrestredig rhaid i chi nodi bod eich elusen yn gofrestredig ar yr holl hysbysiadau, hysbysebion a dogfennau codi arian a gyhoeddir gennych chi neu ar eich rhan. Mae hyn yn cynnwys yr isod.

- Hysbysiadau a chyhoeddiadau swyddogol eraill
- Biliau cyfnewid, nodiadau addewid, arnodiadau, sieciau a gorchmynion am arian neu nwyddau a lofnodir ar ran yr elusen
- Biliau, anfonebau, derbynebau a llythyrau credyd

9.2.14 Os ydych yn gwmni cofrestredig, **rhaid** i chi gynnwys eich rhif cwmni, man cofrestru (er enghraifft, Gogledd Iwerddon) a chyfeiriad eich swyddfa gofrestredig os yw'r deunydd codi arian ar ffurf llythyr busnes neu'n cael ei gyhoeddi ar eich gwefan. Fel cwmni cofrestredig, **rhaid** i chi roi enw'r elusen ar yr holl ddeunyddiau codi arian a gynhyrchir ar unrhyw rai o'r ffurfiau a ganlyn.

- Llythyrau busnes
- Hysbysiadau a chyhoeddiadau swyddogol eraill
- Biliau cyfnewid, nodiadau addewid, arnodiadau, sieciau neu orchmynion am arian neu nwyddau a lofnodir ar ran yr elusen
- Unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â gwerthu neu brynu diddordeb mewn tir
- Biliau, anfonebau, derbynebau a llythyrau credyd

9.2.15 Os ydych yn gwmni cofrestredig ac nad yw eich enw yn cynnwys y gair 'Cyfyngedig', **rhaid** i chi hefyd gynnwys datganiad eich bod yn gwmni cyfyngedig ar yr holl ohebiaeth busnes.

## 9.3. Codi arian drwy'r post

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.***

9.3.1 Ynghyd â chadw at y safonau yn Adran 3 Prosesu data personol (gwybodaeth), rhaid i chi beidio ag anfon post marchnata uniongyrchol at bobl sydd wedi cofrestru gyda'r Gwasanaeth Dewis Post (MPS) os na allwch ddangos unrhyw dystiolaeth o berthynas flaenorol gyda'r person hwnnw.

9.3.2 Rhaid i chi ystyried p'un a yw person wedi cofrestru gyda'r MPS fel rhan o'ch asesiad ynghylch p'un a oes gennych ddiddordeb cyfreithlon os ydych yn bwriadu prosesu data person er dibenion marchnata uniongyrchol dan yr amod diddordeb cyfreithlon.

**Amgaeadau**

9.3.3 Rhaid i chi allu profi mai pwrpas amgaead oedd cryfhau'r neges neu gynnwys y person yn emosiynol yn yr achos, a pheidio â'i annog i roi yn bennaf oherwydd euogrwydd ariannol neu i achosi embaras.

Am ragor o safonau ar gynnig cymhelliant i roddwyr, gweler **adran 2.7 Defnyddio arian**.

9.3.4 Rhaid i chi ystyried p'un a yw unrhyw amgaeadau yn ddiogel i'r person sy'n eu derbyn.

9.3.5 Rhaid i chi beidio â defnyddio amgaeadau a allai achosi anghyfleuster wrth eu dosbarthu, oni bai bod y rhoddwr yn gwybod amdanynt neu wedi gofyn amdanynt.

## 9.4. Codi arian dros y ffôn

i *Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.*

Mae'r adran hon yn cynnwys holl alwadau a llaisbost ynghylch codi arian a wneir er mwyn gofyn am roddion ariannol a rhoddion o fath arall, megis amser gwirfoddoli. Nid yw'n cynnwys galwadau gweinyddol (ond gallwch ddefnyddio'r safonau hyn fel canllawiau ar gyfer y galwadau hynny).

Am ragor o safonau ar y gofynion sy'n ymwneud â gweithio gyda chodwyr arian trydydd parti, gweler **adran 7 Codwyr arian proffesiynol, cyfranogwyr masnachol a phartneriaid**.

Mae'r Gwasanaeth Dewis Ffôn (TPS) a'r Gwasanaeth Dewis Ffôn Corfforaethol (CTPS) yn caniatáu i bobl neu gwmnïau gofrestru eu rhifau ffôn i ddangos nad ydynt am dderbyn galwadau ffôn gwerthu a marchnata 'nad ofynnir amdanynt'.

9.4.1 Os ydych yn ymgymryd â galwadau ffôn codi arian byw, rhaid i chi allu dangos eich bod yn bodloni gofynion cyfreithiol y TPS.

9.4.2 **Rhaid** i chi **beidio** â gwneud galwadau ffôn marchnata i'r bobl a ganlyn.

- Unrhyw un sydd wedi cofrestru gyda'r TPS neu'r CTPS, oni bai bod y person hwnnw wedi dweud wrthych ei fod yn cytuno i dderbyn galwadau marchnata uniongyrchol gennych chi am y tro.
- Unrhyw un sydd wedi gofyn i chi stopio neu beidio â dechrau marchnata uniongyrchol, fel yr amlinellir yn **adran 3 Prosesu data personol (gwybodaeth)**.

9.4.3 **Rhaid** i chi gael cytundeb ysgrifenedig yn ei le sy'n nodi bod rhaid i isgontractwyr fodloni deddfwriaeth diogelu data perthnasol a PECR.

9.4.4 **Rhaid** i chi **beidio** â ffonio unrhyw un gan ddefnyddio system deialu awtomatig oni bai bod y person hwnnw wedi cytuno i hyn.

9.4.5 Rhaid i chi beidio â ffonio unrhyw un y gwyddoch sydd dan 16 oed.

9.4.6 Rhaid i chi beidio â chynhyrchu galwadau ffôn codi arian drwy ddeialu rhifau ar hap, p'un a wneir hyn â llaw neu gan gyfrifiadur.

9.4.7 **Rhaid** i chi beidio â honni bod galwadau marchnata yn alwadau gweinyddol.

Nid yw rheolau marchnata uniongyrchol yn berthnasol i alwadau sydd er dibenion gweinyddol yn unig (er enghraifft, i gadarnhau manylion banc neu fod taliad wedi'i dderbyn). Fodd bynnag, dylech wneud yn siŵr nad oes unrhyw farchnata wedi'i gynnwys yn yr ohebiaeth hon.

**Canllawiau pellach**

- Rheoleiddiwr Codi Arian: Canllaw Cyflym i Gydymffurfio â TPS – am ganllawiau ar bryd i wirio TPS a chadw cofnodion ar hyn
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Canllawiau Marchnata Uniongyrchol – am ganllawiau ar y gwahaniaeth rhwng dibenion gweinyddol a marchnata uniongyrchol

### Yn ystod yr alwad

9.4.8 **Rhaid** i chi wneud pob galwad codi arian gan ddefnyddio rhif ffôn y gellir ei adnabod gan y person sy'n derbyn yr alwad ac y gallent ddychwelyd yr alwad iddo.

Am ragor o safonau ar y gofynion ar gyfer codwyr arian ffôn dan GDPR a PECR, gweler **adran 3 Prosesu data personol (gwybodaeth)**. Dylech ddarllen y safonau a ganlyn ar y cyd â'r gofynion sydd wedi'u hamlygu yn yr adran honno.

9.4.9 **Rhaid** i chi **beidio** â gwneud galwadau ffôn awtomatig i bobl oni bai eu bod wedi rhoi eu caniatâd.

9.4.10 Rhaid i chi beidio â gwneud galwadau wedi 9pm, ac eithrio i bobl sydd wedi gofyn i chi ffonio wedi'r amser hwn.

9.4.11 **Rhaid** i chi roi eich enw ac enw'r sefydliad elusennol yr ydych yn codi arian ar ei gyfer wrth wneud galwad marchnata uniongyrchol.

9.4.12 Os mai'r alwad ffôn yw eich cyswllt cyntaf gyda rhoddwr, rhaid i chi ofyn a ydyw'n hapus i chi gysylltu ag ef yr adeg honno. Os yw'n gofyn i chi beidio â ffonio eto, **rhaid** i chi **beidio** â gwneud hynny.

9.4.13 Os yw'r person yn gofyn am un, **rhaid** i chi ddarparu cyfeiriad busnes dilys neu rif Rhadffon y gallent eu defnyddio i gysylltu â chi.

9.4.14 Os ydych yn defnyddio codwr arian proffesiynol i ofyn am roddion dros y ffôn, **rhaid** iddynt roi hunaniaeth y sefydliad elusennol y mae'n gwneud yr alwad ar ei ran, ynghyd â datganiad erfyniad.

Am ragor o safonau ar ddatganiadau erfyniad gan godwyr arian proffesiynol, gweler **adran 7.4 Datganiadau erfyniad (datgeliad) ar gyfer codwyr arian trydydd parti a delir a chyfranogwyr masnachol**.

9.4.15 **Rhaid** i chi osgoi camddefnydd taer o rwydwaith neu wasanaeth cyfathrebu electronig i gysylltu â rhoddwyr (yn cynnwys gwneud galwadau distaw neu sydd wedi'u gadael).

9.4.16 Rhaid i chi ei gwneud hi'n glir eich bod yn gofyn am gefnogaeth ariannol neu o fathau gwahanol.

9.4.17 Rhaid i chi beidio â gofyn am gyfraniad ariannol fwy na dair gwaith yn ystod galwad ffôn codi arian.

9.4.18 Rhaid i chi wneud diben yr alwad yn glir os ydych yn gadael neges llais.

Am ragor o safonau ar yr hyn sy'n rhaid ei gynnwys mewn unrhyw ddeunyddiau codi arian yr ydych yn eu hanfon o ganlyniad i alwad ffôn, gweler **adran 9.2 Cyfeiriadau mewn dogfennau**.

### Canllawiau pellach

- Ofcom: Datganiad Diwygiedig ar Gamddefnydd Taer o Rwydwaith neu Wasanaeth Cyfathrebu Electronig (2016) – am ganllawiau ynghylch galwadau distaw a mathau eraill o alwadau niwsans.

## 10. Digidol

O'i defnyddio'n gyfrifol, gall technoleg chwarae rhan bwysig wrth ehangu cyrhaeddiad apeliadau codi arian elusennol. Mae'r adran hon yn cynnwys safonau ar gyfer llwyfannau codi arian ar-lein, yn cynnwys dweud wrth roddwyr ynghylch sut byddwch yn defnyddio eu data ac unrhyw ffioedd y gallech eu cymryd am gynnal ymgyrch codi arian. Mae hefyd yn cynnwys y safonau ar gyfer e-bost a negeseuon i ddyfeisiau symudol, yn cynnwys bodloni'r Cod Ymarfer Awdurdod Gwasanaethau a delir drwy Ffôn, negeseuon marchnata a defnyddio codau byr elusennau.

Ynghyd â'ch prif wefan, mae'n bosib bod gennych wefannau neu is-safleoedd perthnasol eraill a grëir ar gyfer ymgyrchoedd neu ddigwyddiadau penodol. Mae'r adran hon yn ymdrin â'r holl wefannau a grëwch.

### 10.1. Y cyfryngau digidol

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol, codwr arian trydydd parti neu lwyfan codi arian ar-lein.***

10.1.1 Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, **rhaid** i chi fodloni Deddf Cydraddoldeb 2010 (gyhyd ag y mae'n berthnasol yn yr ardal lle'r ydych yn codi arian) a **rhaid** i chi wneud 'addasiadau rhesymol' i fodloni anghenion yr holl ddefnyddwyr. Yng Ngogledd Iwerddon, rhaid i chi beidio â gwahaniaethu yn erbyn pobl â nodweddion sydd wedi'u gwarchod dan gyfreithiau Gogledd Iwerddon. Cewch ragor o wybodaeth gan Gomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon.

10.1.2 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod eich gwybodaeth gyswllt yn hawdd i ddod o hyd iddi ar eich gwefan.

10.1.3. **Rhaid** i chi fodloni Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Cyfarwyddeb yr UE) 2003 (fel y'i diwygiwyd yn 2011) a gofynion diogelu data ehangach.

10.1.4 **Rhaid** i chi roi gwybod i ddefnyddwyr os yw'r wefan yn defnyddio cwcis. **Rhaid** i'r ffordd yr ydych yn gwneud hyn fod yn ddigon amlwg a dealladwy i wneud yn siŵr, os yw'r defnyddiwr yn cytuno i chi ddefnyddio cwcis, fod y penderfyniad hwn yn un gwybodus.

10.1.5 **Rhaid** i chi esbonio'n glir sut rydych yn casglu ac yn defnyddio data personol, er enghraifft, drwy bolisi neu ddatganiad preifatrwydd.

10.1.6 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod yr holl wybodaeth ynghylch sut rydych yn casglu ac yn defnyddio data personol yn hawdd mynd ati o dudalen gartref y wefan ac unrhyw dudalen sy'n casglu data personol.

**Canllawiau pellach**

Am ganllawiau penodol ar y gyfraith cydraddoldeb:

- Comisiwn Etholiadau Cymru a Lloegr: Y Ddeddf Cydraddoldeb: canllawiau i elusennau
- Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban (OSCR): Elusennau a'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Comisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon: Canllawiau cydraddoldeb i elusennau

Am ganllawiau ar fodloni safonau hygyrchedd rhyngwladol:

- Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth: Gwneud eich gwefan neu ap sector cyhoeddus yn hygyrch

### 10.2. Llwyfannau codi arian ar-lein

*Yn yr adran hon, golyga 'chi' llwyfan codi arian ar-lein.*

Ni ystyrir tudalennau rhoi a gynhelir ar wefan y sefydliad elusennol ei hun (sef lle nad yw'r rhoddwr yn cael ei gyfeirio i ffwrdd o enw parth y sefydliad elusennol ei hun i un trydydd parti) o fewn adran hon y cod os na chodir ffioedd ar roddion unigol. Os yw trydydd parti yn codi ffioedd (yn cynnwys ffioedd trafodion taliad) ar sail rhodd wrth rodd, dylai sefydliadau elusennol sicrhau bod y ffioedd, a sut cânt eu codi, yn glir, yn unol ag adran hon y cod.

Gall arian a godir drwy lwyfannau codi arian ar-lein fynd:

- yn uniongyrchol i sefydliad elusennol;
- i godwr arian neu godwyr arian i'w pasio ymlaen i sefydliad elusennol cofrestredig; neu
- i fuddiolwr nad yw'n sefydliad elusennol cofrestredig.

Os ydych yn darparu dolenni i'n canllawiau ni a'ch canllawiau eich hunain, rhaid i chi egluro'ch rhesymau dros hyn i wneud yn siŵr bod darpar roddwyr yn cael y wybodaeth addas ynghylch apeliadau cyn rhoi a bod yr arian a godir yn cael ei reoli'n briodol.

Law yn llaw â'r safonau isod, dylech roi sylw penodol i'r adrannau a ganlyn yn y cod.

- Am ragor o safonau ar ddiogelu data, gweler **adran 3 Prosesu data personol (gwybodaeth).**
- Am ragor o safonau ar brosesu rhoddion, gweler **adran 4 Prosesu rhoddion.**
- Am ragor o safonau ar y berthynas rhwng sefydliadau elusennol a'r rheini sy'n ymgymryd â gweithgareddau codi arian drwy lwyfannau codi arian ar-lein, gweler **adran 5 Gwirfoddolwyr.**
- Am ragor o safonau ar asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau codi arian, gweler **adran 7 Codwyr arian proffesiynol, cyfranogwyr masnachol a phartneriaid.**

**Canllawiau pellach**

- Rheoleiddiwr Codi Arian: Canllawiau ar Lwyfannau Codi Arian
- Rheoleiddiwr Codi Arian: Cyngor a chanllawiau codi arian ar-lein i'r cyhoedd

### Ffioedd ar gyfer cynnal ymgyrch codi arian

Mewn rhai amgylchiadau gall llwyfan codi arian ar-lein ddisgyn o fewn diffiniad codwr arian proffesiynol neu gyfranogwr masnachol. Os yw hyn yn wir, gweler **adran 7: Codwyr arian proffesiynol, cyfranogwyr masnachol a phartneriaid** am ddiffiniadau a safonau y mae'n rhaid i chi eu dilyn.

10.2.1 Os ydych yn codi ffioedd am gynnal ymgyrch codi arian (er enghraifft, ffioedd llwyfannau, cyfran o'r rhodd neu Rodd Cymorth, ffioedd trafodion taliad, ffioedd gweinyddol, neu ffioedd tanysgrifio misol neu flynyddol a delir gan elusen neu godwr arian), rhaid i chi wneud yn siŵr bod y manylion a ganlyn yn ddigon amlwg i bobl sy'n rhoi drwy eich safle ac yn cael eu dangos cyn y pwynt pan fyddwch yn gofyn am eu manylion ariannol.

- Sut caiff eich tâl ei gyfrifo (er enghraifft, fel canran o'r Rhodd Cymorth, ffi a godir ar bob rhodd neu X punt (neu geiniog) o bob rhodd).
- Faint fyddwch yn ei dderbyn, os ydych yn gwybod hyn ar adeg y rhodd. (Os nad ydych yn gwybod beth yw'r union swm, rhowch enghraifft sy'n dangos faint fyddai eich sefydliad yn ei dderbyn ar rodd ddychmygol.)

### Cyfrifoldebau llwyfannau codi arian ar-lein

10.2.2 Rhaid i chi ddarparu dolen i'n canllawiau ar gyfer y rheini sy'n sefydlu tudalen codi arian ar eich gwefan.

10.2.3 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod ein canllawiau:

- yn hawdd cael atynt i'r rheini sy'n sefydlu tudalen codi arian ar eich safle; ac
- ar gael cyn y pwynt lle mae tudalennau rhoi yn dod yn weithredol.

10.2.4 Rhaid i chi hefyd gyhoeddi canllawiau arfer dda ar gyfer y rheini sy'n sefydlu tudalen codi arian ar eich gwefan.

10.2.5 Rhaid i'ch canllawiau amlygu pethau y dylai codwyr arian eu hystyried wrth gynllunio eu hapêl i ddarpar roddwyr. Rhaid i hyn gynnwys goblygiadau codi arian at achos lle nad oes sefydliad elusennol wedi'i adnabod fel y buddiolwr, yn cynnwys:

- y posibilrwydd y gallai apêl cyllido torfol fod angen ei gofrestru fel elusen ei hun gyda'r corff rheoleiddio perthnasol; ac
- os ydych yn elusen, y bydd rhaid i'r apêl fodloni'r gofynion cyfreithiol ar gyfer budd cyhoeddus.

10.2.6 Rhaid i chi gyhoeddi canllawiau sy'n amlygu'r gofynion a ganlyn y dylai codwyr arian eu cynnwys wrth roi cyhoeddusrwydd i'w hapêl i ddarpar roddwyr drwy eu tudalen codi arian ar eich safle.

- Pwy sy'n trefnu'r apêl.
- P'un a yw'r arian a godir er diben penodol neu ar gyfer y person sy'n ei dderbyn i'w ddefnyddio fel y mynna. Os yw'r arian ar gyfer sefydliad elusennol ac y bydd yn cael ei ddefnyddio er diben penodol, rhaid i godwyr arian gysylltu â'r sefydliad elusennol i wneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol ac yn hapus i dderbyn yr arian ar gyfer y diben hwn. Am ragor o safonau ar arian a roddir er dibenion cyfyngedig, gweler **adran 2.7 Defnyddio arian.**
- Beth fydd targed yr apêl, os yw hyn yn berthnasol. Gallai hyn fod yn darged amser neu'n darged ariannol.
- P'un a yw'r codwr arian yn codi arian ar ran neu ar gyfer sefydliad elusennol ac, os yw hyn yn berthnasol, enw'r sefydliad elusennol.
- Sut all pobl roi, yn cynnwys, lle bo hynny'n berthnasol, ffyrdd amgen o roi i'r apêl a ffyrdd o gynyddu rhoddion drwy Rodd Cymorth.
- Pa ddidyniadau gaiff eu gwneud ar gyfer treuliau.
- Beth fydd y codwr arian yn ei wneud gyda'r arian os:
  - nad ydynt yn codi digon o arian i fodloni'r targed;
  - ydynt yn codi mwy na'u targed; neu
  - nad yw'r diben gwreiddiol yr oeddent yn gofyn am roddion ar ei gyfer yn ddilys bellach am unrhyw reswm.

10.2.7 Rhaid i chi ofyn i'r rheini sy'n sefydlu tudalen codi arian ar eich safle i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y canllawiau gan ddefnyddio gweithred glir a chadarnhaol cyn i'r dudalen roi gael ei chyhoeddi (er enghraifft, defnyddio dulliau gweithredol megis ticio blychau sydd heb eu ticio).

10.2.8 Rhaid i chi gymryd mesurau rhesymol i osgoi gweithgaredd twyllodrus a gwyngalchu arian drwy eich safle. Os nad yw'r arian a godir yn mynd yn syth i gyfrif banc y sefydliad elusennol, rhaid i chi ei gwneud hi'n glir, cyn i rodd gael ei gwneud, bod rhoddwyr yn rhoi ar eu risg eu hunain.

10.2.9 Rhaid i chi nodi bod angen i'ch defnyddwyr gadw at adrannau'r cod sy'n berthnasol i'w gweithgaredd codi arian fel amod o ddefnyddio eich safle a bod gennych yr hawl i derfynu neu atal eu defnydd o'r safle os bydd angen.

**Canllawiau pellach**

- Comisiwn Etholiadau Cymru a Lloegr: Budd cyhoeddus: rheolau i elusennau – am ganllawiau ar fudd cyhoeddus i elusennau sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru a Lloegr

### Diogelu data a phreifatrwydd

10.2.10 **Rhaid** i chi fodloni'r holl gyfreithiau diogelu data perthnasol. **Rhaid** i chi beidio â phasio manylion personol rhoddwyr a chodwyr arian o'ch sefydliad i un arall oni bai bod gennych hawl i wneud hyn yn ôl y gyfraith (sef cael sail gyfreithlon i wneud hynny). Am ragor o wybodaeth, gweler **adran 3, Prosesu data personol (gwybodaeth)**.

### Gwasanaethau taliad

10.2.11 Os yw'r rhain yn berthnasol, **rhaid** i chi fodloni:

- yr holl ofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â'r Rheoliadau Gwasanaethau Taliad 2017; a'r
- holl gyfreithiau a rheoliadau gwasanaethau ariannol perthnasol.

## 10.3. Negeseuon i ddyfeisiau symudol

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.***

10.3.1 **Rhaid** i chi gofrestru gyda'r Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn (PSA) a bodloni ei God Ymarfer, wrth ddefnyddio negeseuon testun cyfradd premiwm, oni bai bod y gwasanaethau yn rhai eithriedig (fel y diffinnir yn y Cod PhonePayPlus).

10.3.2 **Rhaid** i chi beidio ag anfon negeseuon marchnata i ffonau symudol y mae unigolion yn berchen arnynt oni bai bod y bobl hynny eisoes wedi rhoi caniatâd i chi wneud hyn.

10.3.3 **Rhaid** i chi wneud y broses y mae angen i bobl ei dilyn i gofrestru i dderbyn negeseuon yn glir ar yr holl ddogfennau perthnasol, yn cynnwys gwefannau. A **rhaid** i chi gynnwys gweithdrefnau i ddad-danysgrifio o negeseuon ar yr holl negeseuon marchnata yr ydych yn eu hanfon.

10.3.4 Rhaid i chi ddefnyddio neges optio allan syml er mwyn i bobl ddweud wrthych os nad ydych am dderbyn negeseuon gennych chi.

10.3.5 **Rhaid** i chi wneud yn siŵr y gall defnyddwyr optio allan o unrhyw neges marchnata, yn rhad ac am ddim (ac eithrio costau anfon y neges optio allan).

Am ragor o safonau ar ddiogelu data, gweler **adran 3 Prosesu data personol (gwybodaeth)**.

10.3.6 **Rhaid** i chi wneud cost negeseuon cyfradd premiwm yn glir i roddwyr a rhaid i chi egluro sut a phryd y cânt eu bilio.

10.3.7 Rhaid i chi gynnig opsiwn i bobl i ymateb drwy neges destun i optio allan o dderbyn negeseuon pellach, a rhaid i hyn fod yn glir yn yr holl farchnata.

10.3.8 Ar gyfer cystadlaethau a rafflau, rhaid i chi ddarparu dull clir a syml o gael mynediad i amodau a thelerau a rhaid i chi gyhoeddi pwy yw'r hyrwyddwr.

10.3.9 Wrth dderbyn rhoddion drwy neges destun, rhaid i chi ddefnyddio codau byr elusennau. (Gweler y rhestr o eirfa a thermau am ddiffiniad o godau byr elusennau.)

### 10.4 E-bost swmp

10.4.1 Rhaid i chi beidio ag anfon e-bost swmp o gyfrif e-bost person a enwir.

## 11. Digwyddiadau

Mae codi arian mewn digwyddiadau yn ffordd o ddod â chymunedau ynghyd i godi arian at achos penodol. Mae'r adran hon yn cynnwys safonau ar gyfer cynllunio a chynnal digwyddiadau (yn cynnwys digwyddiadau her) yn y DU neu dramor, yn cynnwys cael unrhyw ganiatâd sydd ei angen i ddefnyddio safle, gwneud yn siŵr bod y safle'n ddiogel a rheoli'r risgiau'n gyfrifol.

### 11.1. Lleoliadau ac offer

*i* ***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.***

11.1.1 Wrth adnabod lleoliad neu fan addas ar gyfer digwyddiad:

- **rhaid** i chi ystyried materion mynediad cyfartal i bawb, hyd yn oed os yw digwyddiad yn cael ei dargedu at grŵp penodol o bobl;
- **rhaid** i chi wneud yn siŵr bod y lleoliad yn bodloni'r gofynion cyfreithiol ynghylch iechyd a diogelwch; a
- rhaid i chi wneud yn siŵr bod y lleoliad neu'r man cyfarfod yn addas i bwrpas, gan nodi unrhyw gyfyngiadau, a gallu cyfiawnhau unrhyw effaith amgylcheddol y gallai'r digwyddiad ei chael.

11.1.2 Os oes angen unrhyw offer arbenigol ar unrhyw un sy'n cymryd rhan (neu fod hynny wedi'i argymell), rhaid i chi roi rhestr i bob tîm neu berson sy'n cymryd rhan mewn da bryd iddynt allu benthyg neu brynu unrhyw eitemau angenrheidiol. Dylai'r rhestr ddweud pwy sy'n gyfrifol am yr offer ac ar gyfer pwy y mae'n addas. Ni ddylai pobl sy'n cymryd rhan fwrw ymlaen os nad yw'r offer a nodir uchod yn addas.

11.1.3 Os oes rhaid i'r rheini sy'n cymryd rhan ddefnyddio cerbydau, rhaid i chi ddweud wrthynt i gymryd seibiant a chynllunio eu siwrnai mewn ffordd sy'n cydnabod diogelwch ar y ffyrdd, yn enwedig cyfyngiadau cyflymder.

## 11.2. Asesiad risg ac yswiriant

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.***

11.2.1 Os ydych yn gyflogwr, **rhaid** i chi ymgymryd ag asesiad risg addas cyn cynnal digwyddiad o unrhyw faint. Rhaid i godwyr arian eraill (nad ydynt yn gyflogwyr) ymgymryd ag asesiad risg os yw'n rhesymol gwneud hynny.

11.2.2 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod trefniadau iechyd a diogelwch (er enghraifft, yswiriant meddygol a threfniadau gwacau) yn briodol ar gyfer y digwyddiad a'r wlad lle'i cynhelir.

11.2.3 **Rhaid** i chi wneud yn siŵr bod unrhyw bolisïau yswiriant y mae'n rhaid i chi eu cael dan y gyfraith yn eu lle. Rhaid i chi wneud yn siŵr fod gennych yswiriant atebolrwydd cyhoeddus trydydd parti digonol yn ei le a rhaid i chi ystyried a oes angen i chi drefnu unrhyw bolisïau yswiriant eraill.

11.2.4 Rhaid i chi fod yn glir pwy (er enghraifft, chi neu berchennog yr adeilad) sy'n yswirio yn erbyn pa risg.

Am ragor o safonau ar iechyd a diogelwch ac asesiadau risg, gweler **adran 5 Gwirfoddolwyr**.

## 11.3. Trwyddedau a chaniatâd

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.***

11.3.1 **Rhaid** i chi wneud yn siŵr bod gennych unrhyw ganiatâd neu drwyddedau yr ydych eu hangen ar gyfer y digwyddiad gan yr awdurdod lleol neu gorff perthnasol arall.

11.3.2 Os ydych yn trefnu digwyddiad yng Nghymru a Lloegr ar eiddo preifat, rhaid i chi gael caniatâd os oes angen hyn. Yng Ngogledd Iwerddon rhaid i chi gael caniatâd gan berchennog y tir os oes angen hyn.

11.3.3 Yn yr Alban, mae'r rheolau'n fwy cymhleth ac, er yn gyffredinol nid oes gofyn cyfreithiol absoliwt i wneud hynny, rhaid i chi allu dangos eich bod wedi ymgeisio'n rhesymol i gael caniatâd gan reolwyr tir i wneud yn siŵr nad ydych yn torri'r gofyn i weithredu hawliau mynediad yn gyfrifol.

11.3.4 Rhaid i chi beidio â chael mwy na'r uchafswm nifer o bobl a ganiateir i gymryd rhan mewn digwyddiad dan y caniatâd, y drwydded neu'r amodau lleol perthnasol. Mewn rhai achosion, bydd hwn yn ofyn cyfreithiol y bydd **rhaid** i chi gadw ato dan gytundeb y drwydded. Gallai cael mwy na'r uchafswm nifer olygu hefyd na fydd unrhyw yswiriant yr ydych wedi'i drefnu ar gyfer y digwyddiad yn ddilys mwyach.

11.3.5 Rhaid i chi fodloni canllawiau neu wybodaeth leol berthnasol sy'n briodol i'r safle yr ydych yn ei ddefnyddio wrth gynllunio digwyddiad.

11.3.6 Rhaid i chi gadw at y Cod Cefn Gwlad yng Nghymru a Lloegr, Cod Mynediad Awyr Agored yr Alban yn yr Alban a Chod Cefn Gwlad Gogledd Iwerddon yng Ngogledd Iwerddon.

**Ystyriaethau penodol ar gyfer tir mynediad agored (Cymru a Lloegr)**

11.3.7 Os ydych yn bwriadu defnyddio tir mynediad agored yng Nghymru a Lloegr, rhaid i chi:

- fodloni Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (y ddeddf) os yw'n berthnasol;
- gwneud yn siŵr y caniateir eich digwyddiad dan y ddeddf; a
- gwirio a oes arnoch angen caniatâd gan berchnogion tir ar gyfer y gweithgaredd (ac os felly, cael y caniatâd hwnnw).

**Canllawiau pellach**

- *Natural England*: Tir mynediad agored: rheoli, hawliau a chyfrifoldebau – am ganllawiau ar sut ellir defnyddio tir mynediad agored

## 11.4. Pobl sy'n cymryd rhan mewn digwyddiad codi arian

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.***

11.4.1 Os ydych yn gwrthod caniatâd i rywun gymryd rhan mewn digwyddiad, **rhaid** i chi fodloni cyfreithiau defnyddwyr a gwahaniaethu.

11.4.2 **Rhaid** i chi gael unrhyw ganiatâd yr ydych ei angen dan y gyfraith er mwyn i berson fod ynghlwm mewn digwyddiad yn ysgrifenedig cyn y digwyddiad. (Mae hyn yn cynnwys, lle bo hynny'n berthnasol, derbyn amodau a thelerau cyfreithiol a gwarchod iechyd a diogelwch.)

Am ragor o safonau ar ddiogelu data, gweler **adran 3 Prosesu data personol (gwybodaeth)**.

11.4.3 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod y bobl sy'n cymryd rhan yn ymwybodol o unrhyw dargedau codi arian y mae disgwyl iddynt eu cyrraedd.

11.4.4 Os oes angen i berson fod o oedran arbennig, cael lefel arbennig o ffitrwydd, paratoi neu hyfforddi er mwyn gallu cymryd rhan yn ddiogel, rhaid i chi gytuno ar hyn ymlaen llaw gyda'r bobl sydd ynghlwm.

## 11.5. Hyrwyddo digwyddiad

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.***

11.5.1 Yn yr holl ddeunyddiau hyrwyddo ynghylch cymryd rhan mewn digwyddiad, yn benodol deunyddiau a anfonir fel rhan o 'becynnau codi arian', rhaid i chi nodi'n glir os bydd unrhyw ran o'r arian y mae person sy'n cymryd rhan yn ei godi yn cael ei ddefnyddio tuag at eu treuliau neu fel arall i'w helwa nhw.

11.5.2 Os ydych yn defnyddio deunyddiau recriwtio megis hysbysebion yn y wasg, sydd wedi'u dylunio i annog pobl i gymryd rhan mewn digwyddiad, rhaid i chi beidio â chamarwain darllenwyr i gredu y byddai eu hymrwymiad wedi'i gyfyngu i unrhyw isafswm ffi cofrestru bersonol.

11.5.3 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod manylion cywir a chlir am y digwyddiad ar yr holl ddeunyddiau marchnata a nodi'n glir sut caiff yr arian a godir o'r digwyddiad ei ddefnyddio.

11.5.4 Os nad yw'r person sy'n cymryd rhan yn talu cost gyfan y daith yn bersonol, ond yn defnyddio peth o'r arian nawdd ar gyfer hyn, **rhaid** i chi wneud yn siŵr ei fod yn gwybod bod **rhaid** iddo wneud hyn yn glir i bob rhoddwr.

11.5.5 Os gwerthir nwyddau neu cynhelir digwyddiadau codi arian (megis digwyddiadau her) drwy gwmni masnachu, **rhaid** i chi wneud hyn yn glir ar ohebiaeth neu wefannau perthnasol.

Am ragor o safonau ar ohebiaeth a hysbysebion, gweler **adran 9 Gohebiaeth a hysbysebion codi arian**.

## 11.6. Canslo digwyddiadau a chynlluniau wrth gefn

*Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti oni bai ein bod yn nodi fel arall.*

11.6.1 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod ffurflenni noddi yn glir ynghylch a oes raid i'r codwr arian fodloni unrhyw amodau yn gyfnewid am yr arian nawdd (er enghraifft, rhedeg marathon).

11.6.2 Os rhoddir arian nawdd dan amodau penodol ac y caiff y digwyddiad nawdd ei ganslo, neu os yw person yn methu neu'n anfodlon cymryd rhan neu gwblhau'r digwyddiad am unrhyw reswm, rhaid i'r person a gasglodd yr arian nawdd gysylltu â'r rhoddwyr a gofyn a ydynt yn dal i fod yn hapus i'r arian fynd i'ch sefydliad elusennol, a rhoi ad-daliadau os nad ydynt. Os rhoddir arian nawdd heb amodau, mae'n berchen yn awtomatig i'ch sefydliad elusennol, p'un a yw'r gweithgaredd wedi'i gwblhau ai peidio.

11.6.3 Os ydych yn cynllunio digwyddiad codi arian, rhaid i chi gael cynllun i ymdrin â'r holl sefyllfaoedd y gallech eu rhagweld yn rhesymol, a gwneud yn siŵr bod y bobl sydd ynghlwm yn deall yn union yr hyn yr ydych yn ei ddisgwyl ohonynt.

## 11.7. Ar y diwrnod

*Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti oni bai ein bod yn nodi fel arall.*

### Diogelwch

11.7.1 Cyn y digwyddiad, rhaid i chi ymgymryd â gwiriad terfynol i wneud yn siŵr bod popeth yn ei le, yn enwedig allanfeydd tân, cymorth cyntaf ac offer.

11.7.2 Rhaid i chi roi gweithdrefnau yn eu lle yn y digwyddiad i osgoi tagfeydd (yn benodol, os oes angen gwacau mewn argyfwng).

11.7.3 Rhaid i chi gael swyddogion a stiwardiaid gyda'r profiad perthnasol, lle bo hynny'n angenrheidiol.

### Gwerthu a masnachu

11.7.4 Os ydych yn sefydliad elusennol ac yn bwriadu gwerthu nwyddau neu wasanaethau mewn digwyddiad, rhaid i chi wneud yn siŵr bod gennych ganiatâd i fasnachu dan y dogfennau sy'n llywodraethu eich sefydliad. Os ydych yn elusen, rhaid i chi ystyried goblygiadau treth masnachu o fewn yr elusen.

11.7.5 **Rhaid** i chi wneud yn siŵr bod unrhyw gynnyrch a werthir yn y digwyddiad yn bodloni'r safonau diogelwch perthnasol.

11.7.6 **Rhaid** i chi wneud yn siŵr bod unrhyw fwyd a gyflenwir yn bodloni rheoliadau hylendid (Rheoliadau Hylendid Bwyd (Lloegr) 2006, Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, Rheoliadau Hylendid Bwyd (yr Alban) 2006 neu Rheoliadau Hylendid Bwyd (Gogledd Iwerddon) 2006). Am ragor o fanylion, cysylltwch â'r adran iechyd galwedigaethol neu'r awdurdod lleol perthnasol.

11.7.7 Os ydych yn gwerthu neu'n darparu alcohol, **rhaid** i chi gael y trwyddedau a'r caniatâd perthnasol, a chadw at unrhyw gyfyngiadau oed.

## 11.8. Gweithdrefnau ariannol

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti oni bai ein bod yn nodi fel arall.***

11.8.1 **Rhaid** i chi fodloni unrhyw gyfreithiau a rheoliadau treth a TAW sy'n berthnasol i'r digwyddiad, yn cynnwys y rheini sy'n berthnasol i gadw cofnod.

11.8.2 Rhaid i chi gael gweithdrefnau ariannol yn eu lle ar gyfer arian a dderbynnir cyn neu yn ystod digwyddiad.

**Canllawiau pellach**

- GOV.UK: cadw cofnod TAW
- GOV.UK: TAW ar gyfer elusennau

## 11.9. Ar ôl y digwyddiad

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol.***

11.9.1 Os ydych yn sefydliad elusennol, rhaid i chi gael gweithdrefnau neu bolisi ar gyfer mynd ar ôl rhoddwyr nad ydynt wedi talu neu nad ydynt wedi bodloni unrhyw ofynion nawdd isafswm.

Am ragor o safonau ar brosesu ac ymdrin â rhoddion, gweler **adran 4 Prosesu rhoddion.**

## 11.10. Digwyddiadau a drefnir gan drydydd parti

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti oni bai ein bod yn nodi fel arall.***

Ynghyd â'r safonau yn **adran 7 Codwyr arian proffesiynol, cyfranogwyr masnachol a phartneriaid**, mae'r safonau a ganlyn yn berthnasol i ddigwyddiadau codi arian a drefnir gan drydydd parti.

11.10.1 Rhaid i chi gael cytundeb gyda threfnydd y digwyddiad, sy'n amlinellu cyfrifoldebau penodol a risg.

## 11.11. Digwyddiadau sy'n golygu teithio

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' yr holl sefydliadau elusennol oni bai ein bod yn cyfeirio'n benodol at elusennau cofrestredig.***

Mae gofynion cyfreithiol arbennig ar gyfer digwyddiadau sy'n golygu hedfan a rhai gwasanaethau teithio eraill penodol.

Mae Rheoliadau Teithio Pecyn a Threfniant Teithio Cysylltiedig 2018 yn nodi eu bod yn berthnasol i:

'gyfuniad wedi'i drefnu ymlaen llaw o leiaf dwy o'r cydrannau a ganlyn pan gânt eu gwerthu neu eu cynnig ar werth ar bris cynhwysol a phan fo'r gwasanaeth yn ymdrin â chyfnod o fwy na 24 awr neu'n cynnwys llety dros nos:

- (a) cludiant;
- (b) llety; a
- (c) gwasanaethau eraill i dwristiaid nad ydynt yn ategol i gludiant neu lety ac sy'n cyfrif am gyfran sylweddol o'r pecyn.'

Mae rhan fwyaf o'r rhwymedigaethau dan y rheoliadau'n disgyn ar y trefnydd. Hefyd, mae rhwymedigaethau ar fanwerthwyr sy'n gwerthu pecynnau i ddefnyddwyr. Yn gyffredinol, bydd sefydliadau elusennol am i'r gweithredwr teithiau arbenigol fod yn 'drefnydd' gyda chyfrifoldeb dros gadw at y rheoliadau. Mae hwn yn faes cymhleth a dylech dderbyn cyngor cyfreithiol priodol ar hyn.

Mae gofynion cyfreithiol eraill ar gyfer digwyddiadau sy'n golygu hedfan (dan Reoliadau Trwyddedu Trefnwyr Teithio Awyr Hedfan Sifil 1995 (Rheoliadau ATOL). Yn y gorffennol, mae'r Awdurdod Hedfan Sifil (y CAA) wedi cyhoeddi canllawiau i elusennau sy'n trefnu digwyddiadau her sy'n golygu hedfan. Mae gwybodaeth fanwl ar gael ar wefan y CAA. Mae hwn hefyd yn faes cymhleth a dylech dderbyn cyngor cyfreithiol proffesiynol. Mae'n bosib y bydd arnoch angen caniatâd gan y CAA, neu roi rhybudd iddynt, ar gyfer arddangosfeydd hedfan, gweithredu balwnau ar gyfer hediadau cyhoeddus a 'digwyddiadau anarferol yn yr awyr' eraill (er enghraifft, rhyddhau balwnau, defnyddio dronau, ac arddangosfeydd tân gwyllt).

11.11.1 **Rhaid** i chi fodloni cyfreithiau sy'n ymwneud â theithio, yn cynnwys Rheoliadau Teithio Pecyn a Threfniant Teithio Cysylltiedig 2018 a Rheoliadau Trwyddedu Trefnwyr Teithio Awyr Hedfan Sifil 2012 (y 'rheoliadau teithio').

11.11.2 Rhaid i chi fod yn glir pwy sy'n gyfrifol am fodloni'r rheoliadau teithio.

11.11.3 Rhaid i chi wirio hanes a pha mor ddibynadwy yw'r gweithredwyr teithiau ac unrhyw isgontractwyr.

11.11.4 Wrth drefnu digwyddiad her a drafftio ffurflenni ar gyfer casglu gwybodaeth gan y bobl sy'n cymryd rhan a hysbysiadau preifatrwydd, rhaid i chi gael eglurhad gan y gweithredwyr teithio pwy fydd yn casglu'r wybodaeth ac at ba bwrpas y caiff ei chasglu a'i dal.

Am ragor o safonau ar ddiogelu data, gweler **adran 3 Prosesu data personol (gwybodaeth).**

11.11.5 Os yw trefnydd digwyddiad, neu'r bobl sy'n cymryd rhan, yn disgyn o fewn diffiniad o godwr arian proffesiynol neu gyfranogwr masnachol, rhaid i chi gymryd camau rhesymol i wneud yn siŵr bod pawb yn cadw at y gofynion hyn.

## 12. Loterïau, cystadlaethau gwobrau a rafflau am ddim

Os ydych yn bwriadu rhedeg loteri, cystadleuaeth gwobr neu raffl am ddim er dibenion elusennol, rhaid i chi ddilyn unrhyw reoliadau gamblo sy'n berthnasol, yn cynnwys cyfreithiau sy'n ymwneud â'r broses o glustnodi gwobrau'n deg. Mae'r adran hon yn amlinellu'r cyfrifoldebau ar gyfer sefydliadau codi arian sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn.

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti sy'n rhedeg loteri er budd sefydliad elusennol oni bai ein bod yn dweud yn wahanol wrthych. Ar gyfer loterïau, golyga 'cymdeithas' y sefydliad elusennol.***

**Y gyfraith yng Nghymru, Lloegr a'r Alban**

Mae loterïau yn cynnwys raffl, tombola, swîp a rhai gweithgareddau eraill.

Dan gyfraith Cymru, Lloegr a'r Alban, mae loteri yn fath o gamblo sydd â thair nodwedd hanfodol iddi.

- Rhaid i chi dalu i chwarae yn y gêm.
- Mae o leiaf un wobr bob amser.
- Dyfernir gwobrau ar hap llwyr.

Creodd Deddf Gamblo 2005 chwe chategori o loteriau.

1. Loteriau preifat, yn cynnwys:
   - loteriau cymdeithasau preifat;
   - loteriau gwaith; a
   - loteriau trigolion.
2. Loteriau a gynhelir mewn digwyddiadau (a elwir yn 'loteriau achlysurol').
3. Loteriau cwsmeriaid. (Nodwch, gan na all loteriau cwsmeriaid wneud elw, nid ydynt yn addas ar gyfer codi arian.)
4. Loteriau cymdeithasau bach.
5. Loteriau cymdeithasau mawr.
6. Loteriau awdurdodau lleol. (Rhedir y rhain gan awdurdodau lleol ac felly maent y tu allan i sgôp y cod.)

Mae gan bob math o loteri ei safonau ei hun a chewch hyd i drosolwg o'r rhain yng Nghanllawiau'r Comisiwn Gamblo.

Bydd loteri a redir gan neu er budd sefydliad elusennol yn disgyn dan ddiffiniad loteri cymdeithas. Fodd bynnag, nid yw hynny'n eich atal chi na'r rhai sy'n codi arian ar eich rhan rhag rhedeg loteriau dan gategori priodol arall.

Nid oes angen trwydded neu ganiatâd gan unrhyw awdurdod ar y loteriau sy'n disgyn o fewn categoriau 1 a 2 uchod os yw'r sefydliad elusennol yn bodloni'r rheolau sy'n berthnasol. Mae tombolas, loteriau a rafflau a gynhelir mewn digwyddiadau sy'n disgyn o fewn categori 2 yn fath cyffredin o godi arian. Nid oes angen trwydded neu ganiatâd gan unrhyw awdurdod ar y rhain (ond dylech gael caniatâd gan drefnydd y digwyddiad neu berchennog y safle). Am ragor o wybodaeth gweler y canllawiau ar drefnu loteriau bach gan y Comisiwn Gamblo.

Ar gyfer loteriau sy'n disgyn o fewn categoriau 4 a 5, rhaid i'r gymdeithas gael y caniatâd perthnasol gan naill ai'r awdurdod lleol (yn achos loteriau cymdeithasau bach) neu'r Comisiwn Gamblo (yn achos loteriau cymdeithasau mawr) cyn marchnata neu werthu tocynnau. Gallwch ymweld â gwefan y Comisiwn Gamblo am ragor o wybodaeth ar loteriau cymdeithasau bach nad ydynt angen trwydded a loteriau cymdeithasau sydd angen trwydded neu gofrestriad.

Weithiau, mae sefydliadau elusennol mawr yn allanoli rhan o'r gwaith sydd ynghlwm â rhedeg loteriau cymdeithasau mawr i reolwr loteri allanol (ELM). Cewch hyd i ganllawiau'r Comisiwn Gamblo am ELMs yma.

### Y gyfraith yng Ngogledd Iwerddon

Rhaid i loterïau yng Ngogledd Iwerddon fodloni Gorchymyn Betio, Gamblo a Loterïau (GI) 1985, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Betio a Loterïau (GI) 1994 ac fel yr ychwanegwyd ato gan y Rheoliadau Loterïau.

Nid oes diffiniad cyfreithiol o loteri dan gyfraith Gogledd Iwerddon.

Dan y gorchymyn, mae pob loteri yn anghyfreithlon oni bai:

1. eu bod yn loterïau bach sy'n rhan fechan o adloniant eithriedig (hynny yw, adloniant nad oes angen trwydded ar ei gyfer);
2. loterïau preifat;
3. loterïau cymdeithasau; neu
4. rhan o'r Loteri Genedlaethol.

Mae gan bob math o loteri ei reolau ei hun. Am ragor o fanylion, gweler canllawiau Adran Cymunedau Gogledd Iwerddon.

### 12.1. Loterïau – cyfrifoldebau cyffredinol

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti sy'n rhedeg loteri er budd sefydliad elusennol oni bai ein bod yn dweud yn wahanol wrthych***

12.1.2. **Rhaid** i chi wneud yn siŵr nad ydych yn rhedeg loteri anghyfreithlon.

12.1.3. Er mwyn rhedeg loteri eithriedig (un nad yw angen trwydded), **rhaid** i chi fodloni'r amodau a amlinellir yn y gyfraith.

12.1.4. Os oes angen i chi ddal trwydded ar gyfer y math o loteri yr ydych yn ei rhedeg **rhaid** i chi fodloni codau ymarfer perthnasol, amodau trwyddedau, ac amodau a amlinellir yn y gyfraith ac mewn rheoliadau perthnasol.

12.1.5 Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, os ydych yn dal trwydded ar gyfer y math o loteri yr ydych yn ei rhedeg, **rhaid** i chi ddweud wrth y Comisiwn Gamblo am unrhyw faterion a gaiff effaith sylweddol ar eich sefydliad neu y byddai rhaid i'r Comisiwn Gamblo fod yn ymwybodol ohonynt yn rhesymol wrth ymgymryd â'i ddyletswyddau. Am ragor o wybodaeth ar yr hyn y mae'n rhaid i chi ddweud wrth y Comisiwn Gamblo, gweler ei amodau trwyddedau a chodau ymarfer.

## 12.2. Rôl yr hyrwyddwr

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti sy'n rhedeg loteri er budd sefydliad elusennol oni bai ein bod yn dweud yn wahanol wrthych. Ar gyfer loteriäu, golyga 'cymdeithas' y sefydliad elusennol.***

12.2.1 Rhaid i'r hyrwyddwr unigol dynodedig gael ei awdurdodi yn ysgrifenedig gan gorff llywodraethu'r gymdeithas i weithredu fel hyrwyddwr.

12.2.2 Dan y gyfraith, mae'r hyrwyddwr yn gyfrifol am wneud yn siŵr y rhedir y loteri o fewn y gyfraith a **rhaid** iddo wneud yn siŵr fod unrhyw un sy'n dosbarthu ac yn gwerthu tocynnau yn ymwybodol o'r rheolau cyfreithiol sy'n berthnasol, hyd yn oed os ydynt yn defnyddio is-gontractwr i werthu'r tocynnau.

## 12.3. Ystyriaethau oni bai am y Ddeddf Gamblo

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti sy'n rhedeg loteri er budd sefydliad elusennol oni bai ein bod yn dweud yn wahanol wrthych. Ar gyfer loteriäu, golyga 'cymdeithas' y sefydliad elusennol.***

12.3.1 Os ydych yn gymdeithas sy'n defnyddio llinell ffôn premiwm i ganiatáu i bobl chwarae yn eich loteri, rhaid i chi fodloni'r cod ymarfer a gyhoeddwyd gan y PSA (rheolwr annibynnol gwasanaethau cyfradd premiwm yn y DU). Mae sawl adran o'i god yn berthnasol i loteriäu.

12.3.2 Os ydych yn hyrwyddo loteriäu cymdeithasau, rhaid i chi fodloni'r Cod Hysbysebu oni bai am Ddarlledu a Marchnata Uniongyrchol a Hyrwyddol (cod CAP) a'r Cod Hysbysebu Darlledu (cod BCAP), yn cynnwys:

- CAP - 08 Marchnata hyrwyddol;
- CAP - 16 Gamblo;
- CAP - 17 Loteriäu;
- BCAP - 17 Gamblo; a
- BCAP - 18 Loteriäu.

12.3.3 Yng Ngogledd Iwerddon, rhaid i chi beidio ag anfon tocynnau sydd wedi'u gwerthu ar gyfer loteri breifat neu loteri cymdeithasau drwy'r post.

## 12.4. Tynnu'r tocynnau

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti sy'n rhedeg loteri er budd sefydliad elusennol oni bai ein bod yn dweud yn wahanol wrthych. Ar gyfer loteriäu, golyga 'cymdeithas' y sefydliad elusennol.***

12.4.1 Rhaid i'r broses o dynnu'r tocynnau gael tyst a dylech wneud cofnod o'r canlyniad.

12.4.2 Rhaid i chi gynnwys yr holl docynnau dilys sydd wedi'u talu amdanynt yn y gystadleuaeth.

12.4.3 Os ydych yn bwriadu trosglwyddo tocynnau hwyr i'r gystadleuaeth nesaf, rhaid i chi fod yn glir am hyn wrth i chi werthu'r tocyn.

12.4.4 Os, am unrhyw reswm, oes angen oedi dyddiad y gystadleuaeth yn wahanol i'r hyn a ddangosir ar y tocyn, rhaid i chi gymryd yr holl gamau rhesymol i wneud yn siŵr bod pawb sydd wedi prynu tocyn yn gwybod am y newid, a rhaid i chi ei drafod gyda'r sawl sy'n rhoi'r drwydded.

## 12.5. Gweithdrefn ar ôl tynnu'r tocynnau

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti sy'n rhedeg loteri er budd sefydliad elusennol oni bai ein bod yn dweud yn wahanol wrthych. Ar gyfer loteriäu, golyga 'cymdeithas' y sefydliad elusennol.***

12.5.1 Rhaid i chi ddychwelyd yr holl fonion tocynnau sydd wedi'u llenwi a'r taliadau i'r hyrwyddwr er dibenion archwilio.

12.5.2 Os yw perchennog tocyn buddugol yn rhoi ei wobr yn ôl i gymdeithas, rhaid i hyn gael ei ddangos yng nghofnodion cyfrifo eich loteri fel rhodd.

12.5.3 Rhaid i chi beidio â gwneud manylion enillwyr yn gyhoeddus heb eu caniatâd.

12.5.4 Rhaid i chi gysylltu ag enillwyr o fewn saith diwrnod o dynnu'r tocynnau buddugol.

12.5.5. Rhaid i chi wneud pob ymdrech resymol i roi gwobrau i ddeiliaid y tocynnau buddugol.

## 12.6. Cystadlaethau gwobrau a rafflau am ddim

*Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti sy'n rhedeg loteri er budd sefydliad elusennol oni bai ein bod yn dweud yn wahanol wrthych.*

### Cymru, Lloegr a'r Alban

Nid yw'r Ddeddf Gamblo yn berthnasol i gystadlaethau gwobrau a rafflau am ddim gyhyd â'u bod yn bodloni'r amodau sydd wedi'u hamlinellu yn y ddeddf. Nid oes gan y Comisiwn Gamblo unrhyw gyfrifoldebau rheoleiddio sy'n ymwneud â chystadlaethau gwobrau gwirioneddol a rafflau am ddim, ond mae'n monitro'r ffin rhyngddynt a loterïau i wneud yn siŵr nad yw cynlluniau sy'n honni i fod yn gystadlaethau gwobrau neu rafflau am ddim yn loterïau anghyfreithlon.

12.6.1 Er mwyn bod yn gystadleuaeth gwobr **rhaid** i chi wneud yn siŵr bod gan unrhyw un sy'n cymryd rhan lefel o wybodaeth neu farn neu'n arddangos elfen o sgil a fydd yn atal cyfran sylweddol o bobl rhag cymryd rhan neu rhag ennill gwobr.

12.6.2 I fod yn raffl am ddim **rhaid** i'r trefniant naill ai fod yn hollol rad ac am ddim i gymryd rhan neu fod â ffordd o gymryd rhan am ddim. **Rhaid** i'r dull o gymryd rhan am ddim hwn fod naill ai'n llythyr wedi ei anfon trwy'r post cyffredin (post dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth) neu'n ddull cyfathrebu arall nad yw'n ddrytach nac yn llai cyfleus na'r dull sydd â thal cysylltiedig. **Rhaid** i'r system ar gyfer dyrannu gwobrau **beidio** â gwahaniaethu rhwng ceisiadau a wneir trwy'r dull cymryd rhan am ddim a'r dull â thal cysylltiedig.

### Gogledd Iwerddon

12.6.3 Mae Gogledd Iwerddon yn gweithredu dan reolau sy'n atal unrhyw ffurf ar brynu sy'n caniatáu i chi gymryd rhan mewn raffl gwobr. Yn aml, bydd hyrwyddwyr sy'n rhedeg rafflau gwobrau ledled y DU yn eithrio pobl yng Ngogledd Iwerddon o'r hyrwyddiad. Ar gyfer rafflau gwobrau yng Ngogledd Iwerddon, **rhaid** i chi naill ai eithrio pobl sy'n byw yng Ngogledd Iwerddon neu ddod o hyd i ffordd 'dim angen prynu' o hyrwyddo'r raffl gwobrau yng Ngogledd Iwerddon.

### Canllawiau pellach

- Comisiwn Gamblo: Codi arian, rafflau, loterïau
- Comisiwn Gamblo: Rafflau am ddim a chystadlaethau gwobrau

# 13. Cyrff sy'n dyrannu grantiau (yn cynnwys ymddiriedolaethau a sefydliadau)

Mae cyrff sy'n dyrannu grantiau yn sicrhau bod arian ar gael i ariannu prosiectau o fewn eu dibenion elusennol, dyngarol neu fuddiannol. Mae'r adran hon yn cynnwys safonau ynghylch ymgeisio am y grantiau hyn, eu derbyn a'u defnyddio.

## 13.1. Cyllid statudol

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.***

13.1.1 Rhaid i chi ddilyn unrhyw reolau ychwanegol a allai fod yn berthnasol ar gyfer cyllid statudol, megis grantiau'r UE neu'r llywodraeth.

## 13.2. Paratoi a gweithdrefnau

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.***

13.2.1 Yn gyffredinol, rhaid i chi osgoi postiadau torfol a galwadau heb rybudd i gyrff sy'n dyrannu grantiau, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft trychineb neu argyfwng cenedlaethol.

13.2.2 Os ydych yn rhoi dyfarniad ar gais, rhaid i chi gael eu caniatâd i gynnwys eu manylion cyn cyflwyno'r cais, a dangos y cais iddynt cyn i chi ei gyflwyno.

## 13.3. Ar ôl i geisiadau gael eu derbyn neu eu gwrthod

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.***

13.3.1 Rhaid i chi ddilyn gofynion gweinyddol y corff sy'n dyrannu grantiau ynghylch taliadau yn llym. (Bydd y rhain yn dibynnu ar yr amodau a thelerau sy'n berthnasol i'r grant.)

13.3.2 Rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod chi a'r corff sy'n dyrannu grantiau yn deall ac yn cytuno ar unrhyw amodau sy'n berthnasol i'r grant cyn i chi ei dderbyn yn ffurfiol. Gallai'r rhain gynnwys bod y corff sy'n dyrannu'r grant yn rhan o'r gwaith (er enghraifft, drwy helpu i'w reoli neu roi cyngor), neu eich bod chi'n cydnabod ei gefnogaeth yn gyhoeddus.

13.3.3 Os caiff eich cais ei wrthod, rhaid i chi beidio ag apelio neu geisio dwyn perswâd ar y corff sy'n dyrannu grantiau i ailystyried oni bai bod gennych reswm clir dros wneud hynny, megis os oes camgymeriadau clir yn y ffeithiau a ddefnyddiwyd i wneud y penderfyniad, neu os ydych yn dilyn gweithdrefnau apêl y corff sy'n dyrannu grantiau.

### 13.4. Adrodd

*Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.*

13.4.1 Os ydych chi am wario grant mewn ffordd wahanol i'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol, rhaid i chi gael cymeradwyaeth y corff sy'n dyrannu grantiau yn ysgrifenedig, os yw hynny'n amod i gyllid y corff sy'n dyrannu grantiau.

13.4.2 Rhaid i chi ddilyn canllawiau a gofynion adrodd yn agos os ydynt yn ffurfio amodau dan gontract grant.

13.4.3 Os yw hi'n debygol y bydd problemau difrifol gyda'r gwaith a gyllidir, rhaid i chi ddweud wrth y corff sy'n dyrannu grantiau cyn gynted â phosib, a'u diweddaru wrth i'r mater ddatblygu. Rhaid i chi ddilyn unrhyw ofynion yn y contract sy'n ymwneud â hyn.

## 14. Rhoi drwy'r gyflogres a rhoddion cyflog ar ôl treth

Mae'r adran hon yn cynnwys y safonau ar gyfer hyrwyddo cynlluniau rhoddion drwy'r gyflogres a rhoddion cyflog ar ôl treth yn y gweithle. Mae'n cynnwys bodloni gofynion CTEM a gwneud yn siŵr fod gan gyflogwyr a chyflogeion ddisgwyliadau clir ynghylch sut mae eich cynllun yn gweithio.

Mae gwahanol fathau o godi arian o fewn y gweithle, ac mae cyfreithiau uniongyrchol a hunan-reoli y dylech gadw atynt. Mae'r cod hwn yn ymdrin yn benodol â rhoddion a wneir yn uniongyrchol o gyflog y cyflogai. Gallai hyn ddigwydd yn y naill neu'r llall o'r ffurfiau a ganlyn.

- Rhoi drwy'r gyflogres – cynllun effeithlon o ran treth lle mae'r rhodd yn cael ei chymryd o dâl y cyflogai cyn i dreth gael ei didynnu.
- Rhoddion cyflog ar ôl treth – lle mae rhoddion y cyflogeion yn cael eu cymryd yn uniongyrchol o'u cyflog ar ôl i dreth gael ei didynnu.

Mae'r cynlluniau hyn yn berthnasol i roi i elusennau yn unig, a rhaid i gynlluniau rhoi drwy'r gyflogres gael eu rhedeg drwy asiant rhoi drwy'r gyflogres a ddewisir gan y cyflogwr.

Mae asiantau rhoi drwy'r gyflogres yn derbyn rhoddion y cyflogeion, y mae'r cyflogwr wedi'u cymryd drwy'r gyflogres, ac yn pasio'r rhain i'r elusennau perthnasol.

Mae Rheoliadau Didyniadau Elusennol (Cynlluniau Cymeradwy) 1986 yn rhoi gofynion penodol ar gyflogwyr. Nid ydym wedi crybwyll y rhain yn y cod hwn, ond gallai fod yn ddefnyddiol i chi fod yn ymwybodol ohonynt.

Mae rhestr o asiantau rhoi drwy'r gyflogres sydd wedi'u cymeradwyo ar hyn o bryd ar wefan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CTEM).

Ynghyd â'r safonau yn **Adran 2 Gweithio gydag eraill**, mae'r safonau a ganlyn yn berthnasol i godi arian drwy roi drwy'r gyflogres.

### 14.1. Codwyr arian proffesiynol a rhoi drwy'r gyflogres

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' asiant rhoi drwy'r gyflogres neu godwr arian proffesiynol sydd ynghlwm â rhoi drwy'r gyflogres oni bai ein bod yn dweud yn wahanol wrthych.***

Am ragor o safonau ar godwyr arian proffesiynol, gweler **adran 7 Codwyr arian proffesiynol, cyfranogwyr masnachol a phartneriaid**.

14.1.1 Os ydych chi, fel asiant rhoi drwy'r gyflogres, yn defnyddio codwyr arian sy'n disgyn o fewn diffiniad cyfreithiol codwr arian proffesiynol i hyrwyddo cynlluniau rhoi drwy'r gyflogres i gyflogeion, **rhaid** i chi gael cytundeb ysgrifenedig yn ei le a gwneud yn siŵr bod y codwyr arian yn gwneud y datganiadau erfyniad angenrheidiol.

14.1.2 Os ydych yn godwr arian proffesiynol, rhaid i chi wneud yn siŵr bod y wybodaeth sy'n ymwneud â rhoddwyr newydd yn cael ei phrosesu a'i phasio i'r sefydliad elusennol cyn gynted â phosib.

14.1.3 Os ydych yn godwr arian proffesiynol sy'n cynrychioli mwy nag un elusen, rhaid i chi wneud yn siŵr eu bod oll yn cael eu cynrychioli mewn ffordd gwbl niwtral.

### 14.2. Rhoi drwy'r gyflogres cyn treth

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' asiant rhoi drwy'r gyflogres neu godwr arian proffesiynol sydd ynghlwm â rhoi drwy'r gyflogres oni bai ein bod yn dweud yn wahanol wrthych.***

14.2.1 Fel asiant rhoi drwy'r gyflogres, **rhaid** i chi gael cytundeb ysgrifenedig yn ei le gyda chyflogwyr sy'n defnyddio'ch cynllun.

14.2.2 Rhaid i chi beidio â chynnig buddion i roddwyr, a rhaid i chi gadw at ddymuniadau'r rhoddwr ynghylch pa elusen neu elusennau fydd yn derbyn eu rhodd.

14.2.3 **Rhaid** i chi fodloni'r gofynion yn Rheoliadau Didyniadau Elusennol (Cynlluniau Cymeradwy) 1986 ac unrhyw ddiwygiadau i'r rhain.

14.2.4 Os ydych chi (neu gyflogwr) yn mynd i amlygu'r gwahanol lefelau o ryddhad treth, rhaid i chi wneud yn siŵr fod gan godwyr arian wybodaeth ddiweddar gan CTEM.

14.2.5 Rhaid i chi wneud yn siŵr fod rhoddwyr yn ymwybodol, yn dilyn hyrwyddiad rhoi drwy'r gyflogres, eu bod yn rhydd i ddewis rhoi i unrhyw elusen o hyd.

Am ragor o wybodaeth ar y gofynion cyfreithiol ar gyfer asiantau rhoi drwy'r gyflogres, gweler gwefan CTEM.

### 14.3. Hyrwyddo rhoi ymrwymedig yn y gweithle

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' asiant rhoi drwy'r gyflogres neu godwr arian proffesiynol sydd ynghlwm â rhoi drwy'r gyflogres oni bai ein bod yn dweud yn wahanol wrthych.***

14.3.1 Cyn gofyn i grŵp o gyflogeion am roddion, rhaid i chi gytuno ar amodau mynediad gyda'r cyflogwr perthnasol.

14.3.2 Os ydych yn godwr arian, rhaid i chi wisgo bathodynnau enw a llun gweledol, a ddarperir gan drefnydd y gweithgaredd codi arian neu'r sefydliad codi arian perthnasol, drwy'r amser.

14.3.3 Rhaid i chi wneud yn siŵr fod rhoddwyr yn ymwybodol bod ganddynt yr hawl i orffen cytundeb i roi unrhyw bryd.

## 15. Cymynroddion

Gall rhoddion mewn ewyllysiau fod yn faes arbennig o sensitif wrth godi arian, felly mae hi'n bwysig bod gan godwyr arian ffiniau clir i'w rolau. Mae'r adran hon yn amlinellu'r safonau er mwyn osgoi dylanwad a phwysau diangen a rheoli gwrthdaro buddiannau gan fod yn sensitif i ddymuniadau'r person sy'n gadael y rhodd (yr ewyllysiwr) ac unrhyw amodau y gallent fod wedi'u cysylltu i'r rhodd.

### 15.1 Cymynroddion – cyfrifoldebau cyffredinol

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol, oni bai ein bod yn dweud yn wahanol wrthych.***

15.1.1 Rhaid i chi wneud yn siŵr fod yr holl weithgaredd codi arian sy'n ymwneud â chymynroddion yn ystyried:

- rhyddid y person sy'n gadael y cymynrodd (yr ewyllysiwr) i ddarparu ar gyfer eu teulu ac eraill; ac
- unrhyw amgylchiadau sensitif yr ewyllysiwr posib a'i deulu a'i ffrindiau.

15.1.2 Rhaid i chi wneud yn siŵr nad yw codwyr arian yn darparu cyngor cyfreithiol. Os yw codi arian drwy gymynrodd yn cael ei wneud gan drydydd parti allanol sy'n godwr arian proffesiynol unrhyw bryd, **rhaid** i'r codi arian yma fodloni'r goblygiadau cyfreithiol sydd gan godwyr arian proffesiynol.

Am ragor o safonau am godwyr arian proffesiynol, gweler **adran 7 Codwyr arian proffesiynol, cyfranogwyr masnachol a phartneriaid**.

15.1.3 Os yw person sy'n gwneud ewyllys yn gofyn i chi neu unrhyw rai o'ch swyddogion neu'ch cyflogeion i fod yn ysgutor, rhaid i chi ystyried yn ofalus a ydych am gytuno, gan gofio'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm â bod yn ysgutor ac unrhyw risgiau posib i chi.

15.1.4 Os ydych yn cael eich penodi'n ysgutor ac yn cymryd y grant cynrychiolaeth yn eich enw eich hun, **rhaid** i chi gael y pŵer i wneud hynny (ar gyfer elusennau yng Nghymru a Lloegr, mae hyn fel arfer yn golygu bod **rhaid** i chi gael statws ymddiriedolaeth gorfforaeth).

## 15.2. Gohebiaeth ysgrifenedig yn gofyn am gymynroddion

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol, oni bai ein bod yn dweud yn wahanol wrthych.***

15.2.1 Rhaid i chi ei gwneud hi'n glir nad oes bwriad i gynnwys unrhyw ohebiaeth fod yn gyngor cyfreithiol gennych chi ac y dylai ewyllyswyr posib ofyn am eu cyngor proffesiynol eu hunain.

15.2.2 Os ydych yn rhoi awgrym o eiriad i ewyllysiwr posib ar gyfer cymynroddion a wneir i chi i'w cynnwys yn ei ewyllys, rhaid i chi wneud yn siŵr bod yr awgrym o eiriad yn gywir (a allai olygu gael cyngor cyfreithiol) a'ch bod wedi'ch adnabod yn glir (bydd hyn yn dibynnu ar y wlad lle'r ydych chi, ond fel arfer bydd yn golygu darparu enw llawn eich cwmni, a rhif cofrestredig yr elusen, os yw hyn yn berthnasol).

## 15.3. Cyfathrebu wyneb yn wyneb

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol, oni bai ein bod yn dweud yn wahanol wrthych.***

15.3.1 Rhaid i chi fod yn agored ynghylch y rheswm dros wahoddiad i ddigwyddiad os yw ynghylch cymynroddion neu os caiff cymynroddion eu trafod ac y gellir gofyn amdanynt.

15.3.2 Rhaid i chi beidio ag ymelwa ar fuddiolwyr neu gefnogwyr drwy eu defnyddio nhw fel astudiaethau achos neu gymeradwyaeth ar gyfer rhoi cymynroddion, a rhaid i chi barchu eu hurddas a'u preifatrwydd. Os ydych am ddefnyddio astudiaethau achos, rhaid i chi gael caniatâd gan yr ewyllysiwr (neu os yw wedi marw, gan y person sy'n gyfrifol am yr ystâd) os yw hynny'n bosib.

15.3.3 Rhaid i chi beidio â chynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb unigol yng nghartref ewyllysiwr posib i drafod cymynroddion heb fod y person hwnnw wedi cael cyfle i wrthod y cyfarfod yn gyntaf.

15.3.4 Yn yr holl ymweliadau â phobl a allai ystyried gadael cymynrodd i chi yn eu hewyllys, rhaid i chi wneud yn siŵr bod eich codwr arian:

- yn derbyn hawl y person i wahodd pobl eraill o'u dewis i fod yn bresennol unrhyw bryd yn ystod y cyfarfodydd;
- yn atgoffa'r person o bwrpas yr ymweliad;
- yn gwneud yn siŵr y cynhelir y cyfarfod mewn ffordd ac am gyfnod sy'n sensitif i'w buddion a'u pryderon, ac yn cyd-fynd â nhw;
- yn derbyn hawl y person i ddod â'r cyfarfod i ben unrhyw bryd, ac yn gwneud hyn yn brydlon ac yn gwrtais; ac
- yn gwneud ac yn cadw nodiadau presenoldeb o gyfarfodydd a gohebiaeth gyda'r person ar ffeil.

15.3.5 Yn yr holl ymweliadau â phobl a allai ystyried gadael cymynrodd i chi yn eu hewyllys, rhaid i chi wneud yn siŵr nad yw eich codwr arian yn gweithredu mewn ffordd y gallai person rhesymol ei barnu'n fygythiol neu sy'n rhoi pwysau neu ddylanwad diangen ar y person.

## 15.4. Ymglymiad sefydliadau elusennol wrth wneud ewyllys

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol, ond mae pob un o'r safonau yn berthnasol yn gyfartal i gyflogeion, asiantau ac is-gontractwyr y sefydliad elusennol.***

15.4.1 Rhaid i chi (neu eich codwr arian) beidio â drafftio, neu fod ynghlwm yn uniongyrchol â drafftio ewyllysiau sydd o'ch plaid chi.

## 15.5. Perthnasau codwyr arian gydag ewyllyswyr posib

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol, oni bai ein bod yn dweud yn wahanol wrthych.***

Gall perthnasau agos ddatblygu rhwng codwr arian a pherson sy'n ystyried gadael cymynrodd i sefydliad elusennol. Weithiau, gall hyn elwa'r codwr arian yn hytrach na'r sefydliad elusennol, a gellir gadael cymynrodd i'r codwr arian unigol yn hytrach nag i chi fel y sefydliad elusennol.

15.5.1 Os ydych yn godwr arian a'ch bod yn cael cynnig cymynrodd personol (yn hytrach nag i'r sefydliad elusennol), rhaid i chi egluro i'r person sy'n gwneud yr ewyllys os yw am roi cymynrodd i chi'n bersonol, bod rhaid i chi ddweud wrth eich rheolwr llinell yn eich sefydliad elusennol am y rhodd.

15.5.2 Rhaid i'ch codwyr arian beidio cymryd mantais o fod yn gyflogedig gennych i ofyn am rodd ewyllys personol. Os ydych yn credu bod codwr arian yn cam ddefnyddio ei swydd ac wedi gofyn am rodd bersonol, rhaid i chi ddilyn prosesau disgyblu er mwyn ymdrin â'r sefyllfaoedd hyn.

### 15.6. Talu am ewyllysiau gydag arian elusen

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol, oni bai ein bod yn dweud yn wahanol wrthych.***

15.6.1. Mae risgiau sylweddol i chi wrth dalu'r costau sydd ynghlwm â gwneud ewyllys sy'n cynnwys cymynrodd i chi, felly nid yw'n cael ei annog. Ond os ydych am wneud hyn:

- rhaid i chi beidio â mynnu eich bod yn derbyn cymynrodd neu'ch bod yn cael eich penodi'n ysgutor yn gyfnewid am dalu am yr ewyllys;
- rhaid i chi argymell i'r person sy'n gwneud yr ewyllys y dylech gael cyngor cyfreithiol annibynnol bob amser; a
- rhaid i chi ei gwneud hi'n glir i'r person sy'n gwneud yr ewyllys y bydd y cyfreithiwr neu ysgrifennwr ewyllysiau arall yn gweithredu er ei fudd ef yn unig ac ar ei gyfarwyddiadau.

**Canllawiau pellach**

- Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr: Codi arian drwy ewyllysiau a chymynroddion elusennol – am ganllawiau ar dalu am ewyllysiau gydag arian elusennau
- Sefydliad Rheoli Cymynroddion: Canllawiau Arfer Dda – am ganllawiau ar foeseg codi arian cymynroddion

### 15.7. Ar ôl i gymynrodd gael ei wneud

***Yn yr adran hon, golyga 'chi' sefydliad elusennol, oni bai ein bod yn dweud yn wahanol wrthych.***

#### Cyswllt parhaus gydag ewyllyswyr

15.7.1. **Rhaid** i chi barchu dymuniadau'r ewyllysiwr os yw'n dweud wrthych nad yw am dderbyn unrhyw ohebiaeth marchnata bellach gennych chi (a allai gynnwys unrhyw geisiadau codi arian), neu, lle bynnag bo hynny'n bosib, os yw'n gofyn am lefel benodol o gyswllt.

15.7.2. Os yw ewyllysiwr yn gofyn i chi egluro i aelodau'r teulu pam nad ydynt wedi'u cynnwys yn ei ewyllys, rhaid i chi wrthod neu ddweud mai dim ond egluro pam fod arnoch chi angen y cymynrodd y gallwch chi ei wneud.

### Cymynroddion lle mae amodau neu gyfyngiadau'n berthnasol

15.7.3 Os gallwch fodloni'r amodau ac yn derbyn y cymynrodd, rhaid i chi ddilyn yr amodau hynny.

15.7.4 Os yw cymynrodd yn cael ei adael dan yr amod y caiff ei ddefnyddio er diben neu brosiect penodol, ond na allwch fodloni'r amod hwnnw, rhaid i chi gysylltu â chynrychiolwyr personol yr ewyllysiwr cyn derbyn y cymynrodd.

15.7.5 Os ydych yn elusen ac yn derbyn cymynrodd er diben penodol, rhaid i chi gysylltu â Chomisiwn Etholiadau Cymru a Lloegr, Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban (OSCR) neu Gomisiwn Elusennol Gogledd Iwerddon (fel sy'n briodol) am help os:

- yw'r diben wedi'i gyflawni neu ei ddarparu ar ei gyfer fel arall;
- na ellir defnyddio'r arian neu'r rhodd er y diben hwnnw mwyach;
- nad yw'r diben yn ddiben elusennol mwyach; neu
- os yw'r diben a fwriadwyd wedi stopio bod yn ddefnydd addas ac effeithiol o'r arian ac nad yw'n darparu defnydd ar gyfer yr holl arian.

15.7.6 Os yw cymynrodd yn cael ei adael dan yr amod y caiff ei ddefnyddio er diben penodol, rhaid i chi beidio â defnyddio'r cymynrodd er diben gwahanol heb awdurdodiad priodol gan Gomisiwn Etholiadau Cymru a Lloegr, Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban (OSCR) neu Gomisiwn Elusennol Gogledd Iwerddon, neu Twrnai Cyffredinol Gogledd Iwerddon.

### Cymynroddion a Gydnabyddir

15.7.7 Rhaid i chi barchu dymuniadau'r ewyllysiwr neu ei ystâd ynghylch unrhyw gydnabyddiaeth cyhoeddus i'r rhodd.

# Geirfa

Mae'r adran hon yn diffinio'r termau allweddol a ddefnyddir yn y cod. Dylech ddarllen yr holl ddiffiniadau yng nghyd-destun y cod.

## A

**addasiadau rhesymol**

Eglurir addasiadau rhesymol yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Gallai addasiadau rhesymol gynnwys newid gosodiad neu ffurf gwybodaeth i'w gwneud yn fwy hygyrch, neu wneud yn siŵr bod digwyddiad yn hygyrch i bobl ag anableddau.

**amgaeadau**

Eitemau neu ddeunyddiau a roddir mewn gohebiaeth marchnata uniongyrchol a anfonir drwy'r post ynghyd â'r ohebiaeth ei hun. Gallai'r rhain gynnwys, er enghraifft, ysgogiad i annog pobl i roi, gwybodaeth am waith y sefydliad, neu anrhegion diolch. P'un a yw amgaeadau'n cael eu hanfon fel eitemau ar eu pennau eu hunain neu o fewn deunydd codi arian arall, maent yn cael eu trin dan yr un safonau â deunydd codi arian arall a anfonir drwy'r post.

**amgylchiadau bregus**

Cyflwr lle mae person yn arbennig o agored i niwed yn sgil ei amgylchiadau personol. Mae'n gyflwr a all amrywio o ddydd i ddydd, a all effeithio ar ymddygiad neu benderfyniadau'r person ac sydd angen ymateb hyblyg iddynt.

**asiant rhoi drwy'r gyflogres**

Elusen sy'n cael ei chydnabod gan HMRC er dibenion ymdrin â rhoi drwy'r gyflogres.

**awdurdod trwyddedu**

Awdurdod gyda'r pŵer cyfreithiol i ganiatáu gweithgaredd codi arian penodol y mae angen awdurdodiad ar ei gyfer yn ôl y gyfraith, megis casgliad o dŷ i dŷ neu gasgliad stryd. Fel arfer, mae gan awdurdodau trwyddedu bwerau i osod a gorfodi'r amodau y mae'r gweithgaredd yn digwydd oddi tanynt.

## B

**blwch casglu**

Blwch neu gynhwysydd arall ar gyfer cyfraniadau arian parod.

### buddiolwr

Buddiolwyr sefydliad elusennol yw'r bobl neu'r sefydliadau sy'n disgyn o fewn y dosbarth o bobl a gaiff eu helpu gan y sefydliad elusennol. Mewn achos apêl neu ewyllys, buddiolwr yw person neu sefydliad a fydd neu a all dderbyn budd o'r apêl neu'r ewyllys.

### busnes codi arian

Person neu sefydliad (megis asiant neu ymgynghorydd codi arian) y mae ei brif neu ei unig fusnes yn ymwneud â chodi arian ar gyfer sefydliad elusennol.

## C

### caniatâd

Mewn perthynas â data personol, diffinnir 'caniatâd' gan yr ICO fel: 'unrhyw arwydd penodol, gwybodus, diamwys a roddir yn rhydd o ddymuniad gwrthrych y data y mae ef neu hi, drwy ddatganiad neu drwy gamau cadarnhaol clir, yn nodi cytundeb i brosesu data personol sy'n ymwneud ag ef neu â hi'.

Golyga hyn bod rhaid i'r person ddangos ei fod yn cytuno i chi ddefnyddio'i ddata, gan ddefnyddio cam clir a chadarnhaol (er enghraifft drwy dicio neu ddad-dicio blwc optio mewn).

Am ragor o wybodaeth, gweler www.ico.org.uk.

### casgliad

- Casglu arian neu werthu eitemau ar y briffordd gyhoeddus
- Casglu arian neu eiddo arall o dŷ i dŷ
- Casglu arian neu eiddo arall ar dir preifat

Gweler hefyd 'casglu o dŷ i dŷ' a 'casglu ar y stryd'.

### casgliad elusennol cyhoeddus

Casgliad er dibenion elusennol, dyngarol neu fuddiannol a wneir ar y stryd, mewn man cyhoeddus neu o dŷ i dŷ.

### casgliad sefydlog

Casgliad sy'n defnyddio blychau sy'n aros mewn un lle – naill ar y llawr neu ar gownteri mewn llefydd megis siopau, tafarndai, gwestai, ysbytai a derbynfeydd.

### casgliadau o dŷ i dŷ

Casgliadau a wneir gan gasglwr sy'n mynd o dŷ i dŷ (yn cynnwys eiddo busnes), yn casglu arian neu eiddo arall  er dibenion elusennol, dyngarol neu fuddiannol p'un a oes rhywbeth yn cael ei roi yn gyfnewid am yr arian neu eiddo arall ai peidio. Weithiau, cyfeirir at y casgliadau hyn fel casgliadau o dŷ i dŷ.

**casgliadau stryd**

Casgliadau arian neu eiddo arall a wneir ar stryd neu werthu eitemau ar stryd er dibenion elusennol, dyngarol neu fuddiannol.

**casglwr**

Person sy'n casglu mewn casgliad o dŷ i dŷ, casgliad stryd neu gasgliad ar dir preifat.

Gweler hefyd 'casgliad'.

**codau byr elusennau**

Ystod o ddilyniannau negeseuon testun rhifau byr yn yr ystod 70000 i 70999 sydd wedi'u dylunio i fod yn haws i roddwyr eu darllen, eu cofio a gwneud rhodd drwyddynt na rhifau ffôn llawn. Mae darparwyr gwasanaeth ac elusennau yn defnyddio'r ystod hon i sicrhau bod eu cyfleuster rhodd yn wahanol i wasanaethau cod byr eraill.

**codi arian**

Gofyn am arian neu eiddo arall er dibenion elusennol, buddiannol neu ddyngarol.

**codi arian buddiannol**

Gofyn am arian neu addewid o arian er budd cwmnïau buddiannol neu gysylltiedig, neu er dibenion elusennol, buddiannol neu ddyngarol.

**codi arian wyneb yn wyneb**

Gofyn i bobl am ymrwymiad i roi drwy ddebyd uniongyrchol neu archeb sefydlog, neu gasglu data personol fel gall pobl wneud rhoddion yn y dyfodol. Mae codwyr arian sy'n defnyddio'r dull hwn o godi arian yn siarad â phobl wyneb yn wyneb ar y stryd, yn cnocio ar ddrysau pobl (tŷ i dŷ), neu ar dir preifat y mae gan y cyhoedd fynediad iddo, megis canolfannau siopa.

**codwr arian**

Sefydliad elusennol (neu aelod o'i staff) neu godwr arian trydydd parti sy'n gofyn am arian neu eiddo arall ar gyfer sefydliad elusennol neu er dibenion elusennol, buddiannol neu ddyngarol.

Gweler hefyd 'codwr arian trydydd parti'.

**codwr arian buddiannol (yng nghyd-destun datganiadau erfyniad yn yr Alban)**

Corff buddiannol neu unrhyw gwmni sy'n gysylltiedig ag ef, unrhyw berson sy'n ei reoli neu'n ei reoleiddio neu unrhyw gyflogeion neu asiantau unrhyw rai o'r bobl hynny neu'r corff buddiannol neu'r cwmni cysylltiedig.

### codwr arian proffesiynol

Person sy'n ymgymryd â busnes codi arian fel y diffinnir yng nghyfraith Cymru a Lloegr, neu'r Alban.

### codwr arian trydydd parti

Sefydliadau neu bobl y mae sefydliad elusennol wedi'u hawdurdodi i godi arian ar ei ran. Gallent fod yn wirfoddolwyr, codwyr arian proffesiynol neu bartneriaid masnachol.

Gweler hefyd 'codwr arian' a 'codi arian'.

### corff buddiannol (yng nghyd-destun datganiadau erfyniad yn yr Alban)

Unrhyw sefydliad yn yr Alban, p'un a yw'n elusen ai peidio, sydd wedi'i sefydlu er dibenion elusennol, buddiannol neu ddyngarol.

Gweler hefyd 'sefydliadau dyngarol neu fuddiannol'.

### corff llywodraethu

Y corff sy'n gyfrifol am lywodraethu sefydliad elusennol – hynny yw, sicrhau ei fod yn cael ei redeg yn effeithiol ac yn briodol a'i fod yn bodloni ei ddibenion cyffredinol fel sydd wedi'u hamlinellu yn ei ddogfen lywodraethu. Mae'n bosib y gelwir y corff llywodraethu yn fwrdd, yn bwyllgor rheoli, yn gyngor, yn bwyllgor gweithredol, yn fwrdd ymddiriedolwyr, yn fwrdd llywodraethu neu'n rhywbeth arall.

### corff sy'n dyrannu grantiau

Sefydliad sy'n darparu cyllid (a elwir yn grant) i sefydliad arall i ymgymryd â dibenion elusennol, dyngarol neu fuddiannol penodol y cytunir arnynt rhwng y ddau sefydliad.

### cwcis

Ffeiliau tesun bach sy'n cael eu lawrlwytho i ddyfais megis cyfrifiadur neu ffôn clyfar pan fo'r defnyddiwr yn ymweld â gwefan. Mae cwcis yn caniatáu i'r wefan adnabod dyfais y defnyddiwr hwnnw a storio peth gwybodaeth am ddewisiadau neu ddefnydd y defnyddiwr o'r wefan.

### cwmni cysylltiedig

Cwmni sydd mewn perchnogaeth neu dan reolaeth un neu fwy o sefydliadau elusennol.

### cyfranogwr masnachol

Unrhyw berson sy'n ymgymryd â busnes (ac eithrio busnes codi arian proffesiynol) ac, yng nghwrs y busnes hwnnw, ei fod yn hyrwyddo nwyddau neu wasanaethau ar y sail y bydd yn gwneud rhoddion i sefydliad elusennol. (Nid yw hyn yn cynnwys cwmni cysylltiedig.) Enghraifft o hyn yw cynhyrchwr boteli dŵr sy'n rhoi 10 ceiniog i elusen am bob potel y mae'n ei gwerthu.

Nid yw busnesau codi arian a busnesau cysylltiedig â sefydliadau elusennol yn gyfranogwyr masnachol.

### cyllido torfol

Mae hyn yn golygu pan fo person, grŵp o bobl neu sefydliad masnachol (cyllidwr torfol) yn codi arian er dibenion elusennol, dyngarol neu fuddiannol, ond nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â chyfrif banc sefydliad elusennol. Gall hyn olygu bod arian yn cael ei basio i gyllidwr torfol sydd wedyn yn ei roi i sefydliad elusennol neu'n ei wario ar achos personol, er enghraifft, helpu ffrind neu berthynas gyda chostau meddygol.

### cymynrodd

Anrheg sy'n cael ei adael i sefydliad elusennol gan berson mewn ewyllys.

## D

### dad-danysgrifio

Canslo tanysgrifiad i wasanaeth neu ohebiaeth

### data personol

Gwybodaeth neu ddata sy'n ymwneud â pherson byw y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy gyfeirio at:

- ffordd o'i adnabod megis enw, rhif adnabod, manylion lleoliad neu ffordd o'i adnabod ar-lein megis cyfeiriad IP; neu
- un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, genetig, meddyliol, economaidd, diwylliannol neu gymdeithasol.

### datganiad erfyniad

Datganiad y mae'n rhaid i godwyr arian proffesiynol, cyfranogwyr masnachol ac, ar gyfer casgliadau cyhoeddus, staff penodol o sefydliadau elusennol, ei wneud yn ôl y gyfraith, yn egluro sut fydd y codi arian yn elwa'r elusen. Mae'r wybodaeth y mae'n rhaid i'r datganiad ei chynnwys yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Am ragor o wybodaeth:

- ar gyfer codi arian yng Nghymru a Lloegr, gweler adrannau 60, 60A a 61 Deddf Elusennau 1992; ac
- ar gyfer codi arian yn yr Alban, gweler gwefan yr Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban (OSCR).

Nid oes gofyn cyfreithiol i wneud datganiad erfyniad wrth godi arian yng Ngogledd Iwerddon.

### diben elusennol

Diben yr ystyrir ei fod yn elusennol yn nhermau cyfreithiau perthnasol Cymru a Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

### diddordeb cyfreithlon

Sail gyfreithlon (rheswm cyfreithiol dilys) ar gyfer prosesu data personol sydd, mewn rhai amgylchiadau, yn caniatáu i sefydliad elusennol anfon marchnata uniongyrchol gyhyd â bod y person a fydd yn ei dderbyn heb ddweud 'na' ac nad yw'n achosi niwed nac yn gorbwyso hawliau preifatrwydd person. Golyga hyn bod rhaid i ddiddordebau sefydliad elusennol wrth anfon marchnata uniongyrchol gael eu cydbwyso yn erbyn diddordeb y person a fydd yn ei dderbyn.

Am ddiffiniad llawnach o 'ddiddordeb cyfreithlon', gweler www.ico.org.uk. Os oes gan sefydliad elusennol ddiddordeb cyfreithlon er mwyn anfon marchnata uniongyrchol, rhaid iddo fodloni'r rheolau cyfreithlon ar wahân ar anfon marchnata uniongyrchol yn electronig, yn cynnwys drwy e-bost a neges destun.

### digwyddiadau herio

Digwyddiadau codi arian sy'n codi arian drwy noddi person neu grŵp o bobl sy'n bwriadu cwblhau tasg benodol, er enghraifft, rhedeg marathon, dringo mynydd neu feicio neu gerdded pellter penodol.

### diwydrwydd dyladwy

Y camau a gymerir i asesu sefydliad neu berson arall y mae'r sefydliad elusennol yn ystyried partneriaeth neu gysylltiad â nhw. Cymerir y camau hyn er mwyn gwarchod y sefydliad elusennol yn erbyn difrod i'w henw da neu gyllid.

### dogfennau llywodraethu

Dogfennau sy'n amlinellu amcanion neu ddibenion sefydliad elusennol a sut caiff ei reoli. Cewch hyd i ragor o wybodaeth ar ddogfennau llywodraethu ar wefan Knowhow Nonprofit neu, yn yr Alban, gwefan SCVO.

## E

### elusen

Corff sy'n cael ei gydnabod fel elusen dan gyfreithiau perthnasol Cymru a Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon

### elusen gofrestredig

Sefydliad sydd wedi cofrestru gyda'r corff rheoleiddio ar gyfer elusennau ar gyfer y wlad lle maent wedi'u lleoli. Yn y DU, y cyrff rheoleiddio yw:

- y Comisiwn Elusennau yng Nghymru a Lloegr yn Lloegr a Chymru;
- Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban yn yr Alban (OSCR); a
- Comisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon yng Ngogledd Iwerddon.

### enillion

Yr holl arian a'r holl eiddo arall a roddir mewn ymateb i apêl.

### ewyllysiwr

Rhywun sy'n gwneud ewyllys.

## G

### galw heb rybudd

Gwneud ymweliad neu alwad ffôn heb wahoddiad lle nad oes gan y person na'r sefydliad elusennol sy'n ffonio neu'n ymweld unrhyw berthynas flaenorol gyda'r person y mae'n cysylltu ag ef.

**galwad fud**

Galwad lle nad yw person yn clywed unrhyw beth ar ben arall y ffôn pan fydd yn ateb y ffôn ac nad oes ganddo unrhyw ffordd o wybod a oes unrhyw un arall ar ben arall y ffôn.

**galwad sydd wedi'i gadael**

Galwad ffôn sy'n dod i ben wrth i'r person y cysylltir ag ef godi'r ffôn. Yn lle person ar ben arall y ffôn, mae'r person sy'n derbyn yr alwad yn clywed neges wybodaeth sy'n nodi bod sefydliad wedi ceisio ffonio, ond nad oedd yr un gweithredwr ar gael i wneud yr alwad.

**gorchymyn eithrio**

Gorchymyn sy'n golygu nad oes angen trwydded (gan un neu fwy o awdurdodau trwyddedu lleol) ar gyfer casglid o dŷ i dŷ.

- Yng Nghymru a Lloegr, Gorchymyn Eithrio Cenedlaethol
- Yn yr Alban, Cyfarwyddeb Hyrwyddwr Eithriedig
- Yng Ngogledd Iwerddon, Gorchymyn Eithrio

**Gwasanaeth Dewis Codi Arian**

Gwasanaeth sy'n seiliedig ar wefan yr ydym yn ei redeg i helpu aelodau'r cyhoedd reoli'r ohebiaeth y maent yn ei derbyn gan elusennau penodol. Drwy gofrestru gyda'r gwasanaeth, gall aelodau'r cyhoedd ddewis stopio derbyn marchnata uniongyrchol drwy e-bost, ffôn, post wedi'i gyfeirio neu negeseuon testun, a gyfeirir atynt yn bersonol, gan sefydliadau elusennol a ddewisir.

Gweler hefyd 'marchnata uniongyrchol'.

**Gwasanaethau Dewis Ffôn (TPS)**

Y gofrestr swyddogol lle gall pobl gofnodi eu dewis i beidio â derbyn galwadau gwerthu neu marchnata nad ydynt wedi gofyn amdanynt. Yn ôl y gyfraith, rhaid i'r holl sefydliadau (yn cynnwys elusennau, sefydliadau gwirfoddol a phleidiau gwleidyddol) beidio â gwneud y galwadau hyn i rifau sydd wedi'u cofrestru ar y TPS, oni bai bod ganddynt ganiatâd gan y person a fydd yn derbyn yr alwad.

### Gwasanaethau Dewis Post (MPS)

Gwasanaeth sy'n caniatáu i bobl allu tynnu eu henwau a'u cyfeiriadau cartref (yn y DU) oddi ar restrau a ddefnyddir ar gyfer post uniongyrchol nad ydynt wedi gwneud cais amdano. Fe'i cefnogir gan y Post Brenhinol, cymdeithasau masnachol a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

### gwirfoddolwr

Codwr arian trydydd parti sydd, heb dâl neu fudd sylweddol arall (ac eithrio treuliau), yn codi arian neu sydd ynghlwm â gweithgaredd codi arian ar gyfer sefydliad elusennol.

Gweler hefyd 'gwirfoddolwr er budd' a 'gwirfoddolwr ar ran'.

### gwirfoddolwr ar ran

Gwirfoddolwr sy'n gweithio gyda sefydliad elusennol neu sydd dan gyfarwyddyd sefydliad elusennol i godi arian ar ei ran ac yn ei enw.

Gweler hefyd 'gwirfoddolwr' a 'gwirfoddolwr er budd'.

### gwirfoddolwr er budd

Gwirfoddolwr sy'n codi arian naill ai ar ei ben ei hun neu gydag eraill ar gyfer sefydliad elusennol yn annibynnol ar y sefydliad elusennol. Mewn rhai achosion, bydd y sefydliad elusennol yn gwybod am y gweithgaredd cyn iddo dderbyn yr arian a godwyd ac mewn achosion eraill efallai nad yw'n gwybod. Os yw'n gwybod, weithiau bydd y gwirfoddolwr yn defnyddio deunyddiau a ddarperir gan y sefydliad elusennol.

Gweler hefyd 'gwirfoddolwr ar ran'.

### gwybodaeth preifatrwydd

Gwybodaeth sy'n dweud wrth berson beth fydd sefydliad yn ei wneud gyda'i ddata personol. Yn aml, rhoddir gwybodaeth preifatrwydd ar ffurf hysbysiad preifatrwydd.

## H

**hyrwyddwr (casgliadau elusennol cyhoeddus)**

Mewn perthynas â chasgliad elusennol cyhoeddus, mae'n golygu:

- person sydd (p'un a yw ar ei ben ei hun neu gydag eraill a ph'un a yw'n cael ei dalu ai peidio) yn trefnu neu'n rheoli'r ffordd y caiff y casgliad ei redeg; neu
- os nad yw'r pwynt bwled uchod yn berthnasol, unrhyw berson sy'n gweithredu fel casglwr yn y casgliad.

Gweler hefyd 'casglwr'.

## L

**loteri**

Math o gamblo sy'n bodloni'r meini prawf isod.

- Mae pobl yn talu i chwarae
- Caiff y gwobrau eu clustnodi naill ai drwy siawns llwyr neu, os yw'r ffordd y mae'r gwobrau yn cael eu clustnodi yn golygu cyfres o brosesau, bod y cyntaf o'r prosesau hynny yn dibynnu'n llwyr ar siawns

Mae raffl, tombola a swîps yn fathau o loteri.

## Ll

**llwyfan codi arian ar-lein**

Gwefan neu ap a redir gan gwmni masnachol, sefydliad nid er elw, sefydliad elusennol neu berson, y gall sefydliadau elusennol eu defnyddio er mwyn codi arian neu y gall pobl neu sefydliadau eu defnyddio ar gyfer cyllido torfol ar gyfer dibenion elusennol, dyngarol a buddiannol. Mae llwyfannau codi arian ar-lein yn ei gwneud hi'n bosib i roddwyr roi i achosion elusennol, dyngarol a buddiannol gan ddefnyddio eu cyfrifiaduron, eu ffonau clyfar a dyfeisiau electronig eraill a chan ddefnyddio eu cardiau credyd, eu cardiau debyd neu eu waledi digidol (nodwedd ar ddyfeisiau sy'n caniatáu i berson wneud trosglwyddiadau electronig, er enghraifft drwy PayPal).

**llwyfan digidol**

Gwefan neu ap sy'n cael eu rhedeg gan gwmni masnachol, sefydliad nid-er-elw, sefydliad elusennol neu gan berson, sy'n gofyn am arian neu eiddo arall er dibenion elusennol, dyngarol neu fuddiannol neu'n ei gwneud hi'n bosib i bobl neu sefydliadau eraill wneud hyn fel 'llwyfan codi arian ar-lein'.

Gweler hefyd 'llwyfan codi arian ar-lein'.

**llyfr derbynebau**

Llyfr o dderbynebau datodadwy sydd wedi'u rhifo'n olynol, gyda bonyn neu gopi dyblyg gyda rhifau cyfatebol.

## M

**man cyhoeddus**

Cymru a Lloegr: Unrhyw briffordd neu unrhyw le arall y mae gan y cyhoedd hawl i gael mynediad iddo ar adeg y codi arian, ac nad yw mewn adeilad (ac eithrio ardaloedd cyhoeddus mewn gorsafoedd, meysydd awyr, canolfannau siopa neu debyg). Nid yw'n cynnwys unrhyw le y gall y cyhoedd gael mynediad iddo gyda thocyn neu ar ôl talu ffi mynediad yn unig, neu o ganlyniad i dderbyn caniatâd am y codi arian.

Gogledd Iwerddon: Unrhyw stryd, ffordd neu briffordd ac unrhyw le y mae gan y cyhoedd neu unrhyw ran o'r cyhoedd fynediad iddo ar adeg y codi arian. Gallai hyn fod oherwydd bod ganddynt hawl cyhoeddus i fod yno, oherwydd eu bod wedi talu ffi mynediad neu oherwydd eu bod wedi cael caniatâd (uniongyrchol neu fel arall).

Yr Alban: Unrhyw le (p'un a yw'n dramwyfa ai peidio) y mae gan y cyhoedd fynediad heb ei gyfyngu iddo. Mae'n cynnwys drysau neu fynediad i eiddo sydd nesaf i'r lle cyhoeddus neu unrhyw ffordd glir, clos, cwrt, grisiau, gardd neu iard sy'n berthnasol i unrhyw ddaliad neu grŵp o dai sydd mewn perchnogaeth ar wahân.

**marchnata uniongyrchol**

Anfon (drwy ba bynnag fodd) unrhyw ddeunyddiau hysbysebu neu farchnata a gaiff eu cyfeirio at bobl benodol.

## N

**neges destun cyfradd premiwm**

Gwasanaeth neges destun sy'n codi ffi a delir drwy fil ffôn person. Mae hwn yn wasanaeth tanysgrifio fel arfer.

## O

**optio allan**

Lle mae person yn gofyn i stopio derbyn gohebiaeth gan sefydliad penodol neu grŵp o sefydliadau (naill ai i stopio derbyn unrhyw ohebiaeth neu dim ond y rheini a anfonir drwy ddull cyfathrebu penodol).

Gweler hefyd 'optio i mewn'.

**optio mewn**

Lle mae person yn rhoi caniatâd drwy ddangos, gyda cham cadarnhaol clir (er enghraifft, drwy roi tic mewn blwch sydd heb ei dicio), ei fod am i sefydliad penodol neu grŵp o sefydliadau i gysylltu ag ef.

Gweler hefyd 'optio allan'.

## P

**partner neu bartneriaeth fasnachol (y cyfeiriwyd atynt fel 'partneriaeth gorfforaethol' mewn fersiynau blaenorol o'r cod)**

Partneriaeth rhwng sefydliad elusennol a chwmni masnachol lle mae'r cwmni masnachol yn darparu arian, sgiliau neu adnoddau eraill i'r sefydliad elusennol. Os yw rhan o'r gefnogaeth a ddarperir yn cynnwys bod y partner masnachol yn gofyn am roddion yn uniongyrchol, byddant yn disgyn o fewn diffiniad 'codwr arian trydydd parti', ac mewn rhai achosion, 'cyfranogwr masnachol'.

Gweler hefyd 'cyfranogwr masnachol'

**prosesu (data)**

Gweithrediad neu gyfres o weithrediadau a wneir ar ddata personol, neu ar gyfresi o ddata personol, megis:

- ei gasglu, ei gofnodi, ei drefnu, ei strwythuro neu ei storio;
- ei addasu neu ei ddiwygio;
- ei adfer, ymgynghori arno neu ei ddefnyddio;
- ei drosglwyddo, ei rannu neu ei wneud ar gael i eraill fel arall;
- ei alinio neu ei gyfuno gyda gwybodaeth arall; neu
- ei gyfyngu, ei ddileu neu ei ddinistrio.

Gweler hefyd data personol.

## Rh

**rheolau rhoddion bach**

Rheolau'r 'Cynllun Rhoddion Bach Rhodd Cymorth' (y cyfeirir atynt weithiau fel GASDS).

**rheoliadau enghreifftiol (Cymru a Lloegr yn unig)**

Rheoliadau sy'n berthnasol i gasgliadau stryd ac a gaiff eu hamlinellu yn y Gorchymyn Casgliadau Elusennol (Darpariaethau Trosiannol) 1974 y mae nifer o awdurdodau lleol, ond nid y cwbl, yn ei ddilyn.

**rhodd**

Anrheg o arian neu eiddo arall a roddir ac a dderbynnir yn wirfoddol heb ddisgwyl neu dderbyn unrhyw beth yn ôl.

Os yw person yn derbyn budd yn gyfnewid am anrheg, ni ellir ystyried yr anrheg yn rhodd er dibenion treth, ond mae'n bosib y bydd y cod yn dal i ymdrin ag ef fel codi arian.

**Rhodd Cymorth**

Cynllun sy'n caniatáu i elusennau sydd wedi cofrestru i adhawlio treth gyfradd sylfaenol ar roddion a wneir gan drethdalwyr y DU sy'n cytuno i hyn, gan gynyddu swm eu rhoddion mewn gwirionedd.

Mae'n bosib hefyd y gall trethdalwyr sy'n talu treth yn uwch na'r gyfradd sylfaenol adhawlio peth treth ar eu rhodd.

**rhoddwr**

Person sy'n rhoi rhodd i sefydliad elusennol.

**rhoi drwy'r gyflogres**

Ffordd o roi arian drwy'r system Pay As You Earn (PAYE) o gyflog neu bensiwn rhywun i elusen heb dalu treth arno. Mae rhoi drwy'r gyflogres yn cael ei alw'n 'rhoi wrth ennill' neu 'rhoi yn y gweithle' weithiau.

## S

**safle preifat**

Tir preifat (gweler y diffiniad uchod) y mae cytundeb ar ei gyfer gyda pherchennog yr eiddo neu reolwr er mwyn i weithgareddau codi arian ddigwydd ar y safle preifat. Os oes cytundeb yn ei le, fel arfer mae'n berthnasol i dir sydd ym mherchnogaeth fasnachol y mae gan y cyhoedd fynediad iddo, megis canolfannau siopa.

**sefydliad buddiannol**

Gweler 'sefydliadau dyngarol neu fuddiannol'.

**sefydliad dyngarol neu fuddiannol**

Sefydliad gwirfoddol a sefydlir er dibenion dyngarol neu fuddiannol nad yw'n elusennol yn gyfreithiol ond sy'n elusennol o ran ei natur. Mae'r sefydliadau hyn yn gweithredu er budd y cyhoedd a rhaid i'w hasedau gael eu dosbarthu (yn ystod oes y sefydliad a phan fydd wedi'i ddirwyn i ben) ar gyfer y dibenion y'i sefydlwyd.

**sefydliad elusennol**

Elusen (wedi'i chofrestru neu heb ei chofrestru) neu sefydliad gwirfoddol sydd wedi'i sefydlu er dibenion nad ydynt yn rhai llwyr elusennol yn gyfreithiol, ond sy'n ddyngarol neu'n fuddiannol (gweler hefyd 'sefydliadau dyngarol a buddiannol').

**siopa cudd**

Lle mae asiantau'n cael eu cyflogi i honni eu bod yn aelodau arferol o'r cyhoedd, yn rhyngweithio gyda chasglwyr arian ac yn arsylwi'r tîm codi arian i sicrhau bod safonau ansawdd yn cael eu bodloni.

**SORP**

Datganiad o Ymarfer a Argymhellir, sy'n amlinellu sut ddylai elusennau baratoi eu cyfrifon blynyddol ac adrodd ar eu sefyllfa ariannol. Am ragor o fanylion, gweler www.charitysorp.org.

**stryd**

Cymru a Lloegr, a Gogledd Iwerddon: Yn cynnwys unrhyw briffordd ac unrhyw bont, ffordd, lôn, llwybr troed, sgwâr, cwrt, ale neu ffordd agored gyhoeddus, p'un a ydynt yn dramwyfa ai peidio.

Yr Alban: Yr un ystyr â 'man cyhoeddus (Yr Alban)'.

## T

**tir mynediad agored**

Yng Nghymru a Lloegr yn unig, mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Deddf CROW) fel arfer yn rhoi hawl i'r cyhoedd gael mynediad i dir sydd wedi'i fapio fel 'tir agored' (mynyddoedd, rhostiroedd, gweundir a bryniau) neu sydd wedi'u cofrestru fel 'tir comin'. Gelwir yr ardaloedd hyn yn 'dir mynediad agored'.

**tir preifat**

Tir sydd ym mherchnogaeth breifat. Gall hyn gynnwys tir y mae gan y cyhoedd fynediad iddo, megis canolfannau siopa.

**trefnydd (mewn perthynas â gwyliau a theithiau pecyn)**

Person sy'n rhoi teithiau pecyn at ei gilydd (yn cynnwys trafnidiaeth a llety) ac yn gwerthu neu'n eu cynnig ar werth, p'un ai yn uniongyrchol neu drwy adwerthwr.

**tŷ cyflawni**

Sefydliad sy'n casglu neu'n prosesu (neu'r ddau) rhoddion ar ran sefydliad elusennol.

**tystysgrif awdurdodiad**

Tystysgrif sy'n dangos bod codwr arian yn gwirfoddoli neu'n gweithio'n gyfreithlon i sefydliad elusennol penodol. Mewn rhai achosion bydd angen i gasglwr gario tystysgrif awdurdodiad a roddir gan y Stationery Office fel amod o gael trwydded.

## Y

**ymgynghorydd**

Person y mae sefydliad elusennol yn ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau codi arian ac sydd, fel rhan o'r gwasanaeth hwnnw, ynghlwm yn uniongyrchol â gofyn am roddion.

Mae ymgynghorydd sy'n darparu gwasanaethau codi arian yng Nghymru a Lloegr neu'r Alban yn gyfnewid am dâl yn debygol o ddisgyn o fewn diffiniad cyfreithiol 'codwr arian proffesiynol' (gweler hefyd 'codwr arian proffesiynol').

Mae ymgynghorydd sy'n darparu gwasanaethau codi arian di-dâl yn debygol o ddisgyn o fewn diffiniad cyfreithiol 'gwirfoddolwr'.

Gweler hefyd 'gwirfoddolwr'.